# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

Dydd Llun, 27 Medi 2021

**Annwyl Syr/Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o Cabinet trwy fideo-gynhadledda o bell Dydd Mawrth, 5 Hydref 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Materion Personol**

**3.** **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**4.** **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

**5.** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 5 - 10)**

**6.** **Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**

**7.** **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

**8.** **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**

**9.** **I ystyried adroddiad y Prif Weithredwr ar fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 11 - 26)**

**10.** **I ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Adroddiad Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 - 2027 gyda adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a Chymunedau sy'n Dysgu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 27 - 90)**

**11.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella gyda adborth o'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 91 - 140)**

**12.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol,Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda adborth o'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 141 - 206)**

**13.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio ar Adroddiad sefyllfa Ffosffadau a'r Cynllun Datblygu Lleol**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 207 - 282)**

**14.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Democrataidd ar wahardd parcio a therfyn cyflymder ar B4548 Ffordd Gwbert**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 283 - 286)**

**15.** **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Ysgolion a Diwylliant ar: cynrychiolwyr ar Fwrdd Llywodraethu Ysgolion**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 287 - 288)**

**16.** **I nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Pobl a Threfniadaeth ar Adroddiad y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2021 ac Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu 2021**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 289 - 316)**

**17.** **I nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cynnal ar Lythyr Sicrwydd Arolygaeth Gofal Cymru**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 317 - 326)**

**18.** **I nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd ar gofnod o gamau gweithredu a penerfyniadau'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar drawsnewid ac effeithlonrwydd**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 327 - 334)**

**19.** **Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i’r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 5

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
A gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo **Dydd Mawrth, 7 Medi 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm ddydd Dydd Iau, 9 Medi 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unryw benderfyniad i mewn yw 5.00 pm Dydd Iau, 16 Medi 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 17 Medi 2021

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Hag Harris, John Roberts, Lynford Thomas ac Ivor Williams

(10.00 - 11.30 am)

**63 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am beidio â bod yn bresennol yn y cyfarfod oddi wrth y Cynghorydd Keith Evans.

**64 Materion Personol**

i. Mynegwyd cydymdeimlad â'r Cynghorydd Catherine Hughes yn dilyn marwolaeth ei thad dros yr haf.
ii. Mynegwyd cydymdeimlad hefyd â'r Cynghorydd Ifan Davies yn dilyn marwolaeth ddiweddar ei fam.
iii. Mynegwyd cydymdeimlad hefyd â theulu Eleri Ebenezer, Cadeirydd hen Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru.
iv. Mynegwyd cydymdeimlad hefyd â theulu John Davies o 'T.J.Davies a'i fab', a fu farw'n ddiweddar.
v. Mynegwyd cydymdeimlad â theulu Richard Jones o 'Ail Symudiad' a fu farw'n ddiweddar.
Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof amdanynt.
vi. Talwyd teyrngedau i'r aelod o'r cyhoedd a seiniodd rybudd mewn ymateb i'r tân diweddar yn y Borth ac i waith rhagorol y Gwasanaeth Tân, Gwasanaeth yr Heddlu ac i Staff Cyngor Sir Ceredigion wrth drefnu cau ffyrdd, dargyfeiriadau a chyfleusterau amgen ar gyfer yr aelodau o'r cyhoedd yr effeithiwyd arnynt.
vii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Dion a Cara ar drefnu digwyddiad codi arian llwyddiannus i godi arian ar gyfer y Ward Canser yng Nglangwili.
viii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Lleucu Roberts ar ennill Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
ix. Estynnwyd llongyfarchiadau i Gwenallt Llwyd Ifan ar ennill y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
x. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r beiciwr ifanc Joshua Tarling ar ennill aur yn y ras cwrso tîm a'r '*omnium*' unigol ym Mhencampwriaethau Trac Iau a Dan 23 Ewrop a gynhaliwyd yn Apeldoorn yn yr Iseldiroedd ddiwedd mis Awst.

xi. Mynegwyd dymuniadau gorau i gystadleuwyr a threfnwyr y ‘Tour of Britain’ a fyddai’n ymweld â Cheredigion ddydd Mercher yr wythnos hon.

xii. Yn ystod y cyfarfod, hysbyswyd y Cabinet am farwolaeth William Edwards, cyn Gynghorydd, a mynegwyd cydymdeimlad â’i deulu.

**65 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy’n rhagfarnu**

Dim

**66 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar lafar parthed COVID-19. Nododd fod nifer yr achosion positif yn cynyddu yn y Sir a ledled Cymru.

Roedd 123 o achosion ychwanegol yng Ngheredigion ddoe (adrodd 2 ddiwrnod o achosion) gyda 63 achos arall y bore yma, sy'n rhoi cyfanswm o 3,138 o achosion yn y Sir ers dechrau'r pandemig. Ar hyn o bryd, cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth yw 364.5. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion bellach yn arwain at fwy o bobl yn mynd i’r ysbyty ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno'r brechlyn yn y canolfannau brechu yn Hen Ysgol Trewen yn y de, a Llanbadarn yng ngogledd y Sir. Mae'r broses gyflwyno bellach yn cynnwys pobl ifanc 16 – 18 oed.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar wasanaethau'r Cyngor gan nodi bod wyth cartref gofal yn y categori coch oherwydd bod staff wedi’u heintio, fodd bynnag roedd dau gartref gofal wedi symud i'r categori gwyrdd ddoe. Nododd fod effaith y pandemig i’w gweld ar staff ym mhob maes gwasanaeth. Mae pob ysgol wedi ailagor ond adroddwyd am nifer o achosion dros y penwythnos. Mae’r gwaith pwysig a wneir gan y Tîm 'Tracio, Olrhain ac Atal' yn parhau i fod yn hanfodol i leihau trosglwyddiad y feirws yn y gymuned. Mae faniau llyfrgell yn parhau i weithredu ar sail 'clicio a chasglu' ac mae llyfrgelloedd tref yn parhau i gynnig system apwyntiadau.

O ran gofal i'r rhai ag Anableddau Dysgu, mae Canolfan Steffan bellach ar agor ac mae angen gwaith sylweddol i wella'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Padarn. Yn y cyfamser, mae Canolfan Meugan yn cael ei defnyddio gan staff yng Nghartref Gofal Preswyl Yr Hafod ac mae gweithgareddau hefyd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau megis Theatr Mwldan.

Mae gwyliau blynyddol, yr angen i hunanynysu, ac effaith y prinder cenedlaethol o yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) wedi effeithio ar Wasanaethau Gwastraff. Ymddiheurodd yr Arweinydd am yr amhariad gan nodi y dylai’r sefyllfa sefydlogi erbyn hyn. Mae unedau trin aer wedi cael eu harchebu ar gyfer pyllau nofio Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth, a fydd yn ailagor ar ôl i'r gwaith gosod gael ei gwblhau. Diolchodd i Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, campws Llambed, am ddarparu eu cyfleusterau er mwyn i’r gymuned eu defnyddio yn y cyfamser. Mae Canolfan Hamdden Aberteifi wedi'i dychwelyd i'r Cyngor ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w defnyddio unwaith eto. Bydd angen gwneud rhagor o waith ar y llawr yng Nghanolfan Hamdden Plascrug, a bydd Canolfan

Hamdden Llanbedr Pont Steffan yn cael ei haddasu i gynnwys canolfan les a fydd yn cyfuno Hamdden a chymorth arall. Nodwyd bod cyfleusterau hamdden hefyd yn Ysgol Penglais ac Ysgol Bro Pedr.

Nododd yr Arweinydd fod y trefniant o gau ffyrdd ar gyfer y Parthau Diogel bellach wedi dod i ben, ac eithrio Pen Cei yn Aberaeron, sydd wedi cael ei gynnal mewn ymateb i gais gan yr Aelod lleol a Chyngor y Dref. Byddai newidiadau i systemau unffordd yn parhau tan ddiwedd y mis, ac nid yw'r palmentydd lletach dros dro wedi'u symud eto tra bod nifer yr ymwelwyr yn parhau i fod yn uchel.

Atgoffodd yr Arweinydd bawb o reolau Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwisgo masgiau dan do ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, pwysigrwydd cadw pellter diogel, sicrhau digon o awyr iach a'r rhwymedigaethau cyfreithiol i fusnesau baratoi asesiad risg gan sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd, annog pawb i fod yn wyliadwrus a chadw'n ddiogel.

**67 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy’n codi o’r Cofnodion hynny.**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2021 yn gywir, yn amodol ar ddiwygio fersiwn Gymraeg cofnod 58b) i adlewyrchu teitl cywir yr Aelod Cabinet ar gyfer Porth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Canolfannau Lles a Diwylliant.

**68 Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**

Dim

**69 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim

**70 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**

Dim

**71 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad ar: y Cynllun Adleoli Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan**

**PENDERFYNIAD**

Adleoli o leiaf dau deulu o Affganistan o dan y Cynllun Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***

*Er mwyn ymateb i’r argyfwng dyngarol yn Affganistan wrth i’r Taliban gipio grym yn gyflym wlad.*

**72** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ar: Perthyn: Archwiliad o sut y gall casgliadau greu cymuned yng Ngheredigion**

**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r ymrwymiad £250,000 o'r Gronfa Gyfalaf fel arian cyfatebol tuag at brosiect Perthyn.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
Diogelu casgliad yr Amgueddfa ar gyfer y dyfodol a rhoi cyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned

**73** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: y Gyllideb Refeniw Reoladwy - 2021/22**
**PENDERFYNIAD**

i. Cymeradwyo’r trosglwyddiadau (*virements*) angenrheidiol yn y gyllideb er mwyn cyflawni’r Cynilion Corfforaethol fel y’u hamlinellir yn Adran 2 yr adroddiad – cyfanswm o £2.137m.
ii. Nodi’r adroddiad gan gynnwys y trosglwyddiadau (*transfers*) yn y gyllideb fel y’u hamlinellir yn Adran 2 – cyfanswm o £1.395m.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
*Cyrraedd y targed cynilo Corfforaethol a osodwyd fel rhan o broses Pennu’r Gyllideb 2021/22*

**74** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ar: Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021 - 2026 i gynnwys adborth gan Drosolwg a Chraffu**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo’r Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
*Er mwyn cefnogi a gwella iechyd a lles hirdymor gweithwyr*

**75** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar: Sicrhau safle ar gyfer darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo bod yr Awdurdod Lleol yn derbyn rôl y Bancer Lleol mewn perthynas ag ymdrin â’r Cyllid Cyfalaf sy'n ymwneud â'r safle yn 25 Rhodfa’r Gogledd, Aberystwyth, ac yn derbyn y grant, os rhoddir ef.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
*Er mwyn cefnogi’r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn Aberystwyth.*

**76** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r ymateb, i gynnwys adborth gan Drosolwg a Chraffu**

**77**

**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
*Newid ffocws ein hadnoddau, cryfhau ein gwaith cynnal a chadw, a gwella ein gallu i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol statudol fel yr amlinellir yn Adran 41 Deddf Priffyrdd 1980 a darparu amddiffyniad yn rhinwedd Adran 58 Deddf Priffyrdd 1980 trwy ddull unedig Cymru gyfan, a chydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol, sef 'Cod Ymarfer Seilwaith Priffyrdd a Reolir yn Dda 2016'*

**77 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Bwriad i wahardd pario ar unrhyw adeg ar yr A482, Heol-y-Tywysog, Aberaeron, wrth safle'r hen ysbyty**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo hysbysebu'r cynnig i'r cyhoedd ac os na ddaw gwrthwynebiadau i law, gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol a chyhoeddi Hysbysiad o Wneud yn y wasg i'r perwyl hwn.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
*I sicrhau bod modd gweld yn briodol wrth fynedfa newydd a adeiladir ar y safle a thrwy hynny cyflawni Amod Cynllunio*

**78 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Cambrian Way, Aberporth**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu Cambrian Way drwy broses Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
I alluogi'r ffordd i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

**79 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Cwrt Dolffin, Ceinewydd**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu Cam 1 a cham 2, Cwrt Dolffin, Ceinewydd drwy broses Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
I alluogi'r ffordd i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

**80 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Ffordd Fynediad i Barc Busnes Horeb, Llandysul**

**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu’r Ffordd Fynediad i Barc Busnes Horeb drwy broses Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a’i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
I alluogi’r ffordd i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

**81 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 1**
Nodi’r adroddiad a’r perfformiad ariannol llwyddiannus

**82 Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Dim

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet neu'r Cyngor (dileer fel y bo'n briodol)** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **5 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Cymeradwyo fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Er mwyn i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru i'w chyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet:** | **Yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio** |

## 1. Crynodeb

1.1. Er mwyn i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo  fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru i'w chyflwyno i Lywodraeth y DU a  Llywodraeth Cymru, fel y'i hamlinellir yn yr atodiadau canlynol:

- Atodiad 1: Achos Busnes y Portffolio (fersiwn 1)
- Atodiad 2: Crynodeb o'r Rhaglen Amlinellol (fersiwn 1 - drafft)
- Atodiad 3: Crynodeb o'r Rhaglen Amlinellol (fersiwn 1 - drafft)
- Atodiad 4: Astudiaeth Ymchwil ac Arloesi (fersiwn 1 –terfynol)

1.2. Os cymeradwyir fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio, gofynnir hefyd i'r Cabinet am yr awdurdod i gyflwyno fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

- I'w hadolygu'n ffurfiol drwy Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu ar ran yBwrdd Gweithredu'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf (WCGIB) – bwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf.

- I'w defnyddio yn sail ar gyfer drafftio Cytundeb y Fargen Derfynol – a fydd yn cael ei drafod gyda'r ddwy Lywodraeth ac yn cael ei dwyn yn ôl at Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ac at Gabinetau'r ddau Awdurdod er mwyn iddynt ei adolygu a'i gymeradwyo'n derfynol.

1.3. Er mwyn rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a Swyddog 151 (ynghyd â'r swyddogion cyfatebol yng Nghyngor Sir Ceredigion) wneud unrhyw fân newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i Achos Busnes y Portffolio cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

1.4. Noder: cefnogwyd Achos Busnes y Portffolio a'r ddogfennaeth gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar 21/09/21 – a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth ar 01/10/21. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn ceisio cymeradwyaeth ac awdurdod adolygol yn ôl i 21/09/21.

## 2. Cefndir

2.1. Ar 19 Mawrth 2019, cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i sefydlu Cyd-Fwrdd gyda Cheredigion i ddatblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru a chytunwyd ar delerau Cytundeb Rhyng-Awdurdod ("IAA1") er mwyn darparu ar gyfer y trefniadau llywodraethu cynnar. Ar 13 Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Cabinet Gytundeb Awdurdod diwygiedig ("IAA2") i ymestyn y trefniadau llywodraethu hyd nes y ceir Cytundeb Terfynol y Fargen ("FDA"), gan gynnwys adolygiadau a fyddai'n cynnwys Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

2.2. Mae'r IAA2 yn sicrhau darpariaeth i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gymeradwyo ceisiadau am Gyllid a chyfeirio'r ceisiadau am Gyllid at yr Awdurdodau er cymeradwyaeth.

2.3. Ar 21 Medi 2021, ystyriodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yr adroddiad a amlinellwyd yn Atodiad 5, gan argymell i Gabinetau'r Awdurdodau y dylent gymeradwyo fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru fel y'i nodwyd yn Atodiadau 1-4 yr adroddiad hwn ar gyfer ei chyflwyno i Lywodraethau'r DU a Chymru.

## 3. Cynnig

3.1. Mae Achos Busnes y Portffolio wedi ei ddatblygu gan Swyddfa Rheoli'r Portffolio (The Portfolio Management Office (PoMO) gyda chefnogaeth gan Hatch Ltd a swyddogion Cynghorau Siroedd Powys a Cheredigion.

3.2. Diben Achos Busnes y Portffolio yw darparu trosolwg o gwmpas, swyddogaeth a threfniadau Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru – ar sail set gychwynnol o gynigion Rhaglenni a Phrosiectau. Bydd angen datblygu ac ystyried y rhain ymhellach ar amserau penderfynu allweddol.

3.3. Achos Busnes y Portffolio, fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, yw'r fersiwn ddiweddaraf – gwyddom fod angen datblygu rhai elfennau o'r manylion. Y rheswm am hyn yw nad yw lefel manylion y rhaglen a'r prosiect wedi ei datblygu'n llawn eto. Ar hyn o bryd, felly, mae'r Porffolio'n sefydlu'r egwyddorion a'r prif amcanion ar gyfer y Fargen – gydag ystod o fuddion a chostau wedi'u hamcangyfrif.

**3.4.** O ran statws mae'r Rhaglenni a'r Prosiectau sydd ar y rhestr fer yn opsiynau cychwynnol sy'n cael eu hystyried, cyn bod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn cynnal adolygiad ffurfiol ac yna'n dod i benderfyniad. **Nid yw cytuno ag Achos Busnes y Portffolio heddiw yn gwarantu cyllid ar gyfer y set cychwynnol hwn o raglenni/prosiectau. Mae'n golygu bod yr opsiynau hyn i gael eu datblygu ymhellach ar gost/risg y cynigwyr – ac y bydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn adolygu manylion y cynigion fel rhan o'u proses o ddatblygu achos busnes. Gellir ychwanegu prosiectau eraill at y Portffolio yn hwyrach.**

3.5. Bydd disgwyl i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru adolygu'r Portffolio'n rheolaidd. Os na fydd y cynigion ar y rhestr fer yn datblygu mewn modd a fydd yn bodloni'r Bwrdd (e.e am resymau megis dim capasiti/gallu i ddatblygu, problemau amserlen, gwyro oddi wrth yr amcanion a nodwyd, methu cael arian cyfatebol ayb) yna bydd y Bwrdd yn gallu ailystyried ac argymell camau gweithredu i fynd i'r afael â'r Porffolio ac ailosod blaenoriaethau. Bydd y broses hon yn cael ei harwain gan Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO) drwy

adrodd yn rheolaidd ynghylch cynnydd i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a'i is-grwpiau sefydliedig er mwyn ymgynghori ynglŷn â chyngor strategol (e.e. ESG/RSP).

3.6. Mae Achos Busnes y Portffolio yn ddogfen fyw, ailadroddol – a bydd angen ei hadolygu'n rheolaidd. Rhagwelir y bydd angen diweddaru Achos Busnes y Portffolio ymhellach yn dilyn Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu a'u gwireddu neu er mwyn cynllunio ar gyfer hynny – dylai hyn gyd-daro â Chytundeb y Fargen Derfynol.

3.7. Rhagwelir y bydd Achos Busnes y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol yn dilyn Cytundeb y Fargen Derfynol – i gyd-daro â'r trefniadau adrodd a chyllido blynyddol sydd wedi'u pennu gan Fwrdd Gweithredu'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf sy'n fwrdd ar y cyd o ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ar y dechrau, efallai y bydd yn cael ei ddiweddaru'n amlach gan Swyddfa Rheoli'r Portffolio, wrth i'r manylion gael eu datblygu.

3.8. Mae Achos Busnes y Portffolio yn dilyn strwythur y Model Achos Gwell (Model Pum Achos) ac egwyddorion Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO) wedi ymgynghori â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses o ddatblygu'r achos busnes – ac mae Joe Flanagan, awdur y Llyfr Gwyrdd a'r canllawiau i Drysorlys Ei Mawrhydi ar ddatblygu achos busnes, wedi bod yn cynnig cyngor i Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO) drwy gydol y broses. O ganlyniad, mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn datblygu yn gyson â'r Canllaw sydd wrthi'n cael ei lunio ar gyfer Trysorlys Ei Mawrhydi ar ddatblygu Achos Busnes Portffolio Strategol.

3.9. Mae Achos Busnes y Portffolio yn cynnwys pum achos:

- Achos Strategol: y rhesymeg dros fuddsoddiadau'r Fargen Dwf ac amcanion y buddsoddiadau ac mae'n cydweddu â'r polisi ehangach
- Achos Economaidd: y gwerth am arian a ddarperir gan y Fargen Dwf
- Achos Masnachol: yr ymagwedd sydd i'w chymryd yn gytundebol ac o ran caffael
- Achos Ariannol: y costau a'r proffil ariannu ar gyfer y Fargen Dwf
- Achos Rheolaethol: yr ymagwedd tuag at reoli'r Fargen Dwf

3.10. Mae Achos Busnes y Portffolio i'w weld yn **Atodiad 1**.

3.11. Mae Achos Busnes y Portffolio yn cael ei ategu gan set o ddogfennaeth sy'n darparu manylion pellach ynglŷn â'r ddau gynnig cynnar o ran rhaglenni a'r broses ddrafft o ran sicrwydd a chymeradwyaeth ar gyfer y Portffolio:

| **Dogfen Ategol** | **Disgrifiad** | **Statws** | **Atodiad** |
|---|---|---|---|
| Crynodeb o'r Rhaglen Amlinellol – Digidol | Amlinelliad o'r cynigion drafft sy'n cael eu datblygu ar gyfer y rhaglen ddigidol. I'w ystyried yn ffurfiol yn iteriad nesaf Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. | f.1 Drafft | 2 |
| Crynodeb o'r Rhaglen Amlinellol – Safleoedd ac Eiddo | Amlinelliad o'r cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer y rhaglen dir ac | f.1 Drafft | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | eiddo. I'w ystyried yn ffurfiol yn iteriad nesaf Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. | | |
| Astudiaeth ar Ymchwil ac Arloesi Cymhwysol (cyd-destun strategol) | Crynodeb o astudiaeth ar Ymchwil ac Arloesi cymhwysol – gan ddarparu'r cyd-destun strategol ar gyfer y thema. | f.1 terfynol | 4 |
| Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig (IAAP) | Fe'i diffinnir fel y gwaith o gynllunio, cydlynu a darparu gweithgareddau sicrwydd a phwyntiau cymeradwyo drwy gydol y cylch oes 'polisi hyd at gyflawni', yn gymesur â chost y prosiect a'r risg sydd ynghlwm wrtho. | Ar y gweill | Heb ei atodi |

**NODER:** Nid yw'r atodiadau hyn wedi'u darparu yma, ond gellir edrych arnynt fel rhan o bapurau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru 21 Medi 2021, yma.

## 4. Bargen Twf Canolbarth Cymru – Rhaglenni dan Ystyriaeth

4.1. Mae dwy raglen ffurfiol yn cael eu cynnwys ar gyfer ystyriaeth gychwynnol o fewn y Portffolio:

**Digidol**

- Nod Strategol: Manteisio ar y cyfleoedd economaidd y gellir eu datgloi drwy fuddsoddi mewn isadeiledd a sgiliau digidol, er mwyn mynd i'r afael â diffygion o ran cysylltedd digidol, symbylu busnesau'r rhanbarth i gychwyn defnyddio technolegau newydd a gwella'r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli.
- Mathau o Ymyrraeth: Defnyddio amrywiaeth o adnoddau sefydlog a di-wifr sy'n rhan o'r isadeiledd, ynghyd â phlatfformau blaengar, cymorth i fusnesau a diwygiadau i bolisïau sy'n darparu'r canlynol yn uniongyrchol neu yn eu hwyluso – mwy o fuddsoddi, symbylu angen a chyflymu adeiladwaith digidol ac ecsbloetio digidol ledled rhanbarth Canolbarth Cymru.

**Tir ac Eiddo**

- Nodau Strategol: Meithrin yr amgylchedd ar gyfer economi cryf, cydnerth ac amrywiol yng Nghanolbarth Cymru sy'n galluogi mentrau i gychwyn, tyfu a ffynnu gyda'r cymorth a'r isadeiledd cywir.
- Mathau o Ymyrraeth: Galluogi twf busnesau drwy ddatblygu buddsoddiad/menter penodol ar gyfer safleoedd ac eiddo.

4.2. Mae'r ddau faes wedi datblygu yn gynigion cynnar ar gyfer rhaglen, yn dilyn gwaith parhaus yn y rhanbarth ac yn dilyn gwaith manwl a wnaed gan swyddogion a rhanddeiliaid rhanbarthol ar ran bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, maent wedi eu nodi yn flaenoriaethau strategol.

4.3. Er nad yw Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru wedi derbyn cynigion y rhaglen yn ffurfiol hyd yma – mae'r gwaith o ymchwilio ar lefel-rhaglen wedi bod ar y gweill cyn i'r Portffolio gael ei ddatblygu – cawsant eu rhoi ar waith yn gynnar yn y

gwaith datblygu. Bydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn gallu ystyried Briff y Rhaglenni a gwybodaeth fanwl arall mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn penderfynu ar gwmpas ac amcanion y ddwy Raglen, er mwyn ystyried eu datblygiad pellach a rhoi mandad i'r datblygiad hwnnw.

## 5. Bargen Twf Canolbarth Cymru – Prosiectau Dan Ystyriaeth

5.1. Ar y cam hwn o'r broses, ni ddarperir unrhyw fanylion am gynigion prosiect a fydd yn ategu'r Portffolio. Mae cynigion amlinellol cynnar wedi'u hystyried ac wedi cyfrannu at y broses sydd dan arweiniad Joe Flanagan (ymgynghorydd Achosion Busnes ar ran y Llywodraeth) gyda chymorth Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO), Hatch Ltd a swyddogion Cynghorau Sir Powys a Cheredigion. Mae hyn yn ffurfio'r asesiad technegol sy'n rhan o strwythur y gweithdai, elfen angenrheidiol yn y canllaw ar gyfer Gwell Achos Busnes.

5.2. Mae manylion y broses asesu, y prosiectau a ystyriwyd – a'r canlyniad wedi eu hamlinellu yn Achos Economaidd Achos Busnes y Portffolio (adran 2.2 yr Achos Economaidd).

5.3. Mae'r berthynas rhwng Strategaeth, Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau wedi ei hamlinellu'n gyson i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a'i reolwyr. Mae'r ddelwedd isod wedi ei haddasu o ganllaw'r Lywodraeth[1]:




5.4. Casgliad yw portffolio. Casgliad o raglenni, prosiectau a gweithgareddau eraill sydd eu hangen ar y sefydliad i gyflawni ei genhadaeth, ei weledigaeth, ei nodau a'i amcanion strategol yn ystod y tymor byr, y tymor canolig a'r hir dymor yw portffolio strategol.

[1] Guide to developing the programme business case | GOV.WALES

5.5. Mae'r rhaglenni o fewn y portffolios strategol hyn, yn eu tro yn cychwyn, alinio a monitro'r prosiectau a'r gweithgareddau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflenwi'r allgynhyrchion angenrheidiol.

5.6. Gall prosiectau fodoli o fewn rhaglen neu'n uniongyrchol o fewn y portffolio.

5.7. Datblygir rhaglenni yn unig ar gyfer cyfres fwy o fesurau sydd wedi'u cynllunio, digwyddiadau cysylltiedig a gweithgareddau sydd wedi'u cydlynu wrth geisio rhai o nodau hirdymor sefydliad. Nid yw cyfres o brosiectau llac sydd â chysylltiad thematig yn golygu bod gennych rhaglen.

5.8. Mae angen proses alinio barhaus er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a'r prosiectau sydd o fewn y portffolio strategol yn parhau yn gysylltiedig â'r amcanion strategol, oherwydd hyd yn oed wrth i strategaethau gyflawni newidiadau a gwelliannau i weithrediadau busnes, efallai y bydd angen iddynt ymateb i newidiadau mewnol ac allanol ac addasu i fentrau a pholisïau newydd.

5.9. Mae hyn yn tanlinellu ymagwedd y Portffolio – a pham mae'r Fargen Dwf yn cael ei gweithredu drwy'r dull hwn. Bydd gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ddewisiadau heriol i'w gwneud ynghylch cyfuniad a chyflwyniad eu rhaglenni a'u prosiectau galluogi. Bydd yn rhaid i'r rhain gael eu hasesu a'u cynllunio'n gywir a bydd yn rhaid cyfiawnhau'r gost o'r dechrau'n deg.

5.10. Dyna pam mae Rhaglenni a Phrosiectau yn gynigion cynnar ar y cam hwn – wedi'u hasesu yn erbyn Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Nodau/Amcanion y Portffolio fel rhan o'r cam Darganfod[2]. Mae'n darparu fframwaith i Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO) ac i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer "meddwl strwythurol" a sicrwydd bod y rhaglenni a'r prosiectau o fewn y portffolio strategol: :

- Darparu ffit strategol ac wedi eu hategu gan achos cymhellol ar gyfer newid.
- Bydd yn cynyddu'r gwerth cyhoeddus i gymdeithas drwy ddethol y cyfuniad gorau o raglenni a phrosiectau a gweithgareddau cysylltiedig.
- Mae'n fasnachol hyfyw ac yn ddeniadol i'r ochr gyflenwi.
- Gellir ei fforddio a'i ariannu dros amser.
- Gall y sefydliad a'i bartneriaid eu cyflawni'n llwyddiannus.

5.11. Bydd Portffolio'r Fargen Dwf a'r Rhaglenni a'r Prosiectau sy'n rhan hanfodol ohono yn cael eu cyflwyno dros gyfnod bywyd o 10-15 mlynedd. Offeryn yw Achos Busnes y Portffolio, felly, i wneud cynnydd strwythuredig ar sail adolygiadau a phenderfyniadau rheolaidd.

## 6. Bargen Twf Canolbarth Cymru – Rhestr Fer y Portffolio (Rhaglenni a Phrosiectau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd)

6.1. Gan ystyried Adran 7, mae'r rhestr fer bresennol ar gyfer y Portffolio yn cynnwys yr opsiynau canlynol o ran Rhaglenni a Phrosiectau:

[2] Diffiniwyd yn Achos Busnes Strategol y Portffolio , cytunwyd arno gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn eu cyfarfod ar 11 Mawrth 2021 – cyngor gan yr ESG yn eu cyfarfod ar 3 Mawrth 2021.

| Blaenoriaeth Twf Strategol | Prosiect / Rhaglen | Crynodeb | Mynegai Aeddfeddrwydd Achos Busnes |
|---|---|---|---|
| **Ymchwil ac Arloesi Cymhwysol** | Parc Arloesi | Arweinir gan Brifysgol Aberystwyth. Bydd y Parc Arloesi yn galluogi diwydiant ac academia i adeiladu ar waith ArloesiAber gyda'r nod o glustnodi, datblygu ac arddangos y prosesau a'r technolegau galluogi sydd eu hangen i sicrhau ac ehangu'r gwerth a enillir ar gyfer y rhanbarth a chael y gwerth mwyaf allan ohono. Mae'r prosiect £30 miliwn yn ceisio darparu oddeutu 10,000m$^2$ o ofod swyddfa gyda'r holl wasanaethau, cyfleusterau wedi'u rhannu a gofod ar gyfer ymchwilio a datblygu. | Achos Amlinellol Strategol |
| | Canolfan Sbectrwm Genedlaethol | Arweinir gan Brifysgol Aberystwyth. Mae'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol yn ceisio sefydlu ased allweddol a fydd yn cael ei weithredu drwy fodel prif ganolfan a lloerennau a fydd yn elwa o amgylcheddau amrywiol y rhanbarth (arfordirol, ucheldirol, gwledig ayb), gan ddod â swyddi o ansawdd uchel a thyfiant cynyddol i'r rhanbarth. Mae'r Achos Amlinellol Strategol yn ceisio cymeradwyaeth i fuddsoddi oddeutu £17 miliwn yng Ngham 2 datblygiad y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol. | Achos Amlinellol Strategol |
| | Campws Gweithgynhyrchu Uwch Canolbarth Cymru | Nodwyd drwy Adroddiad Ymchwil ac Arloesi Cymhwysol diweddar gan SQW. Roedd y prosiect hwn yn ymyrraeth a gafodd ei argymell er mwyn darparu Campws Gweithgynhyrchu/Arloesi ar gyfer Canolbarth Cymru, gyda'r nod o wella'r cyflenwad sgiliau i ddiwydiant a darparu canolfan ar gyfer gweithgaredd ar y cyd a gweithgaredd ymchwil ac arloesi. Nid oes | Cysyniad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arweinydd wedi ei nodi i'r prosiect hwn eto. Ni wyddys faint yw cyfanswm y costau cyfalaf. | |
| **Amaethyddiaeth,Bwyd a Diod** | Hwb Arloesi a Chynhyrchu Bwyd | Arweinir gan Ganolfan Bwyd Cymru (rhan o Gyngor Sir Ceredigion). Mae'r Hwb Arloesi a Chynhyrchu Bwyd yn brosiect £4.4 miliwn er mwyn darparu canolfan o'r radd flaenaf a fydd yn arloesi a chynhyrchu bwyd yn Horeb, Llandysul, Ceredigion. Byddai'r prosiect yn darparu cyfleuster i alluogi cwmnïau i gymryd y camau nesaf o arbrofi a dadansoddi cynnyrch ar raddfa fach ac yn seiliedig ar ymchwil i gynhyrchu ar raddfa fwy er mwyn galluogi profi ar raddfa lawn o ran hyfywedd y farchnad a hyfywedd masnachol. | Achos Amlinellol Strategol |
| | Canolfan Tir Glas / Prifysgol Gastronomeg | Mae Prifysgol y Drindod Dewi Sant am sefydlu Canolfan Menter Wledig (Canolfan Tir Glas), endid a fydd yn hybu'r diwydiant bwyd lleol, cynialadwyedd, cydnerthedd a menter gwledig. Bydd y Ganolfan yn anelu at chwarae rhan yn y broses o gryfhau isadeiledd economaidd economi ehangach bwyd-amaeth Canolbarth Cymru o'r canol a'i waith maes yn enwedig drwy ganolbwyntio ar sgiliau a datblygiad gyrfa yn y sector lletygarwch a sectorau dargyfeirio gwledig eraill. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y costau cyfalaf yn £8 miliwn. | Achos Amlinellol Strategol |
| **Cynnig - Atgyfnerthu Twristiaeth** | Cynefin – Calon Werdd Cymru | Arweinir gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen. Y bwriad yw ceisio profiad dysgu pwerus gan ddefnyddio dulliau trochi, gan ddod â manteision ymarferol anferth i'r modd y cyflwynir y sgiliau ar gyfer y dyfodol mewn ynni adnewyddadwy, adeiladu | Achos Amlinellol Strategol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynaliadwy ac ôl-osod, bwyd, defnydd tir a thwristiaeth gynaliadwy. Mae elfen dwristiaeth y prosiect yn cynnwys: Canolfan Cyrraedd a Chroesawu, Stryd Werdd, Llety Elfennol a Llety Safle. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau cyfalaf yn £24.2 miliwn. | |
| | Dŵr Cymru-Cwm Elan | Arweinir gan 'Dŵr Cymru'. Mae Prosiect Llynnoedd Cwm Elan yn gobeithio cyflawni twf economaidd a chynaliadwyedd drwy ychwanegu profiad antur priodol ar lefel uchel, gweithgareddau chwaraeon a natur a gwell darpariaeth llety dros nos. Gobeithir y bydd hyn yn cynyddu faint y bydd ymwelwyr yn ei wario ac yn gwella ffrydiau incwm. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau cyfalaf yn £12.7 miliwn. | Achos Amlinellol Strategol |
| | Adfer Camlas Maldwyn, Cymru fel y gellir defnyddio badau arni | Arweinir gan Ymddiriedolaeth y Camlesi a'r Afonydd/Glandŵr Cymru. Gobeithir adfer Camlas Trefaldwyn yng Nghymru er mwyn hwyluso'r cysylltiad â'r rhwydwaith gamlesi ehangach o 2000 milltir a sicrhau mynediad i gychwyr pleser drwy Bowys a thu hwnt i'r Trallwng. Drwy wneud hyn, bydd mwy o gyfleoedd ar gyfer ystod o weithgareddau i ymwelwyr nad ydynt yn gychwyr. Bydd y gweithgareddau hyn yn gysylltiedig â chyfleoedd i wario a chyfleoedd ar gyfer busnesau ym maes twristiaeth a hamdden. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau cyfalaf yn £24.4 miliwn. | Achos Amlinellol Strategol |
| | Harbyrau Ceredigion | Arweinir gan Gyngor Sir Ceredigion. Cynnig amlinellol yw Harbyrau ar gyfer dau ddatblygiad marina/harbwr mawr (Aberystwyth ac | Cysyniad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Aberaeron). Yn y ddau achos, mae'r asedau i barhau yn rhai dan berchnogaeth gyhoeddus a byddant yn cyfuno buddsoddiad sydd wedi ei ei gynllunio ar hyn o bryd mewn amddiffynfeydd morol/llifogydd arfordirol, gan ychwanegu gwerth economaidd drwy ailgyflunio a datblygu'r asedau i gynhyrchu cyfleoedd economaidd newydd o ran mân werthu, hamdden a thwristiaeth. Yn Aberystwyth, mae'r cynigion hefyd yn ymgorffori'r gallu a atgyfnerthwyd i gefnogi'r sector pysgodfeydd. Amcangyfrifir bod cyfanswm ey costau cyfalaf rhwng £20 a £30 miliwn. | |
| **Digidol** | Cysylltedd Safleoedd Cyflogaeth Strategol. | Arweinir ar y cyd gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflymu'r broses o ddarparu gwasanaethau cysylltedd i safleoedd cyflogaeth strategol yn rhanbarth Canolbarth Cymru, a thrwy wneud hynny mae'n darparu gwell gwasanaethau i hwyluso twf economaidd mwy. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau cyfalaf yn £3.6 miliwn. | Achos Busnes y Rhaglen |
| **Cefnogi Menter** | Safleoedd ac Eiddo Canolbarth Cymru | Arweinir ar y cyd gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. Bydd yr ymyrraeth hon yn cyflenwi prosiect strategol o fuddsoddiad uniongyrchol, wedi'i flaenoriaethu i'r sector cyhoeddus mewn safleoedd ac eiddo cyflogi ac isadeiledd cysylltiedig ledled Canolbarth Cymru er mwyn cynorthwyo i ddiwallu angen presennol a symbylu twf economaidd yn y rhanbarth yn y dyfodol. Byddai hwn yn cael ei gyflenwi drwy Gronfa Fuddsoddi yn | Achos Busnes y Rhaglen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Isadeiledd Eiddo Canolbarth Cymru. Byddai'r cynnig yn cael ei gyfannu drwy ddatblygu anogaethau ariannol ehangach er mwyn cynorthwyo i symbylu buddsoddiad gan y sector preifat mewn safleoedd ac eiddo cyflogaeth a buddsoddiadau wedi'u targedu mewn safleoedd cyflogaeth strategol. | |

6.2. Wrth ystyried y rhestr fer – a'r hyn a olyga yn ymarferol, mae hi'n bwysig bod yn glir am nifer o brif egwyddorion:

- Yr opsiynau sydd ar y rhestr fer yw'r opsiynau gorau ar hyn o bryd. Mae Achos Busnes y Portffolio yn nodi bod gennym nifer o opsiynau ar y rhestr hir ar gyfer y Portffolio – nid yw pob opsiwn yn barod/wedi ei gyflwyno eto. Enghraifft allweddol o faes lle nad oes gennym brosiectau ar hyn o bryd yw 'Sgiliau' – fodd bynnag, mae'n debygol iawn y gall cynigion cyfalaf ddechrau ymddangos yn dilyn gwaith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Nid yw'r rhestr fer byth yn ddigyfnewid. Y camau nesaf ar gyfer Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yw ystyried manylion cynnar y rhaglenni a gynigiwyd ac yna ystyried y Prosiectau yn eu tro yn erbyn nodau ac amcanion y Fargen Dwf – fel y'u diffinnir yn Achos Busnes y Portffolio.
- Nid yw penderfyniad heddiw'n rhwymo Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru/y Cabinetau yn barhaol wrth y rhestr fer. Mae'r rhestr fer bresennol wedi ei thynnu er mwyn dangos yr opsiynau cryfaf ar hyn o bryd i gyflawni'r Fargen – yn awr mae angen datblygiad manylach pellach ar yr opsiynau hyn.
- Ni chytunwyd ar gyllid ac nid oes cyllid wedi ei warantu i unrhyw un o'r prosiectau hyn ar hyn o bryd. Mae cyllid yn cael ei sicrhau i'r Portffolio yn ei gyfanrwydd. Dim ond wedi i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ystyried ei achosion busnes ac yna eu cyflwyno i gael eu cymeradwyo, y daw penderfyniad ar ariannu rhaglenni/prosiectau.
- Cyn gynted ag y bydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru wedi cymeradwyo'r Rhaglen/Achosion Busnes, cyfrifoldeb a risg y sefydliadau sy'n cynnig yn unig fydd hi i ddatblygu manylion eu rhaglenni ac i fwrw ati gyda'u cynigion gwreiddiol. Mae rôl Swyddog Rheoli'r Portffolio (PoMO) wedi ei esbonio'n glir yn y ddogfennaeth – sef cydlynu a rheoli'r Fargen yn unig. Cyfrifoldeb y sefydliad arweiniol/sy'n noddi yw sicrhau adnoddau i ddatblygu/gyflenwi'r prosiect.
- Mae'r cynigion a ystyriwyd yn ddiweddar ond na chyrhaeddodd y rhestr fer wedi eu rhoi ar y rhestr hir. Mae hyn yn golygu eu bod yn dal yn yr ornest i gael cyfle arall drwy adolygiadau yn y dyfodol. Mae'r cyfrifoldeb ar y sefydliadau hynny sy'n cynnig i dalu sylw i'r adborth technegol manwl ac ystyried datblygu eu cynigion ymhellach fel y bo'n gynnig i'w ddatblygu ac y gellid ei ystyried yn y dyfodol.

**7. Opsiynau a Ystyriwyd/Ar Gael**

7.1. Opsiwn 1 – Cymeradwyo fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru iddi gael ei chymeradwyo ar gyfer ei chyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

7.2. Opsiwn 2 – Gwrthod fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru a gofyn i swyddogion wneud gwaith pellach gyda'r bwriad o adolygu fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio.

**8. Y Dewis a Ffefrir a'r Rhesymau dros ei ffafrio**

8.1. Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir, gan mai hwn yw'r unig opsiwn a allai arwain at Gytundeb Terfynol y Fargen o fewn blwyddyn galendr 2021 – amserlen a bennwyd gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a'i bartneriaid rhanbarthol ac sydd bellach yn amserlen y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ei disgwyl.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**<br>Dim ar gyfer y Portffolio. Bydd Asesiadau Effaith Integredig yn cael eu cyflwyno ynghyd ag unrhyw adroddiadau sy'n benodol i brosiectau Tyfu Canolbarth Cymru ayb.<br><br>***Crynodeb:*** Mae Achos Busnes y Portffolio yn amlinellu egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – ac yn disgwyl bod pob un o'r rhaglenni a'r prosiectau newydd yn glynu wrth yr egwyddorion neu'n cyfrannu at yr egwyddorion hynny. | |
| | **Hirdymor:** | Mae Achos Busnes y Portffolio yn amlinellu nodau ac amcanion Bargen Twf Canolbarth Cymru am y 10-15 mlynedd nesaf. |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Integreiddio:** | Mae Achos Busnes y Portffolio yn amlinellu'r egwyddorion a'r disgwyliadau ar gyfer y Fargen Dwf – gan sefydlu egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwyddo – bydd cyfle arwyddocaol i integreiddio a dylanwadu'n gadarnhaol ar ystod o weithgaredd ledled y rhanbarth. |
| | **Cydweithio:** | Gyda Chyngor Sir Powys, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y rhanbarth.. |
| | **Cynnwys:** | Mae achos busnes y Portffolio wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda rhanddeiliaid rhanbarthol ac mewn ymgynghoriad agos â rhanddeiliaid rhanbarthol dros flynyddoedd lawer. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer rhaglenni a phrosiectau, bydd yn rhaid cynnwys rhanddeiliaid perthnasol a'r cyhoedd a gan ymgynghori â'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd wrth gyflwyno datblygiadau. |

**Atal:** Sefydlu offeryn ar gyfer ariannu cyfalaf tymor canolig i dymor hir er mwyn dwyn gweithgaredd adfywio economaidd i'r rhanbarth, gan anelu at greu swyddi a chyfleoedd.

**Argymhelliad/Argymhellion:**

1. Argymhellir bod y Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru ac yn cymeradwyo iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, fel y'i hamlinellir yn yr atodiadau canlynol:

    - Atodiad 1: Achos Busnes y Portffolio (fersiwn1)
    - Atodiad 2: Crynodeb o'r Rhaglen Amlinellol (fersiwn 1 drafft)
    - Atodiad 3: Crynodeb o'r Rhaglen Amlinellol - Tir ac Eiddo (fersiwn 1 drafft)
    - Atodiad 4: Astudiaeth Ymchwil ac Arloesi (fersiwn 1 terfynol)

2. Os cymeradwyir fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio, gofynnir hefyd i'r Cabinet am awdurdod i gyflwyno fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:
    - I'w hadolygu'n ffurfiol drwy Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu ar ran Bwrdd Gweithredu'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf (WCGIB) – bwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n rheoli Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf.

    - I'w defnyddio yn sail ar gyfer drafftio Cytundeb y Fargen Derfynol – a fydd yn cael ei drafod gyda'r ddwy Lywodraeth ac yn cael ei ddwyn yn ôl at Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ac at Gabinet y ddau Awdurdod er mwyn iddynt ei adolygu a'i gymeradwyo'n derfynol.

    - Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a Swyddog 151 (gyda'r swyddogion cyfatebol yng Nghyngor Sir Ceredigion) wneud unrhyw fân newidiadau y gallai fod

angen eu gwneud i Achos Busnes y Portffolio cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**Rhesymau dros y penderfyniad :** Sicrhau bod Achos Busnes y Portffolio'n cael ei gyflwyno'n brydlon er mwyn cael Cytundeb y Fargen Derfynol o fewn blwyddyn galendr 2021.

**Trosolwg a Chraffu:** Mae Pwyllgor Craffu ar y cyd wedi ei sefydlu yn unol â'r darpariaethau a nodwyd yn y Cytundeb Rhyng-awdurdod diwygiedig (IAA2) – mae cyfarfodydd wedi'u hamserlennu drwy gydol misoedd Hydref a Thachwedd 2021.

**Fframwaith Polisi:** Strategaeth Gorfforaethol 2017 - 2022

**Blaenoriaethau Corfforaethol:**

- Hybu'r Economi
- Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl

**Goblygiadau Ariannol:**

1. Mae Achos Busnes y Portffolio'n nodi'r prif ffigyrau ar gyfer gwariant cyfalaf y mae'r ddau Awdurdod Lleol yn ei geisio oddi wrth Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru drwy Fargen Twf Canolbarth Cymru, cyfanswm o £110m o grant cyfalaf.
2. Ar hyn o bryd, ni wyddys beth yw proffil y gwariant a phrif fanylion cyllidol y rhaglenni a'r prosiectau cyfansoddol o fewn y Portffolio.
3. Felly, ar y cam hwn mae Achos Busnes y Portffolio wedi gwneud ystod o ragdybiaethau ac amcangyfrifon– bydd angen gwaith pellach sylweddol o du cyllid er mwyn cynnig proffil gwell o'r gwariant sy'n cael ei gynllunio yn erbyn proffil y grant. Disgwylir i'r proffil hwnnw fod yn wastad dros y 10-15 mlynedd.
4. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd Llywodraeth y DU yn cyfrannu £55m at y Fargen dros gyfnod o 10 mlynedd– yn dilyn y cyhoeddiad yn Adolygiad Gwariant 2020. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau/cyfathrebu beth yw ei bwriad – felly rydym yn ystyried dwy senario o ran grant cyfalaf. Un senario yw £55m dros 10 mlynedd, sef cyfraniad cyfatebol i gyfraniad Llywodraeth y DU, yr ail senario yw £55m dros y cyfnod gwreiddiol o 15 mlynedd.
5. Refeniw – mae adnoddau ar gael ar gyfer Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO) hyd at fis Gorffennaf 2023 drwy arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae'r rhain yn cael eu darparu drwy gytundebau grant ar wahân a chytundeb lefel gwasanaeth rhwng y partïon perthnasol. Nid yw'r gyllideb refeniw ar gyfer y Bwrdd a chyfraniadau blynyddol y partneriaid wedi eu pennu eto – ond byddant yn cael eu hystyried ar wahân.

| | |
|---|---|
| **Pwerau Statudol:** | Amherthnasol |
| **Papurau Cefndir:** | Adroddiad Cabinet -13 Gorffennaf 21<br>Adroddiad Cabinet -19 Mawrth 2019<br>Adroddiad Cabinet – 6 Tachwedd 2018;<br>Adroddiad Cabinet – 31 Gorffennaf 2018;<br>Adroddiad Cabinet – 27 Mawrth 2018;<br>Adroddiad Cabinet – 28 Tachwedd 2017;<br>Adroddiad Cabinet – 23 Gorffennaf 2015.<br>Adroddiad Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a Chofnodion Drafft 11 Mehefin 2021. |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1 – Achos Busnes y Portffolio (fersiwn 1) |
| **Swyddog Arweiniol:** | Eifion Evans, Prif Weithredwr |
| **Swyddog Adrodd:** | Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 5 Hydref 2021 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 10

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5 Hydref 2021 |
| **Teitl:** | Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 – 2027 a Chynllun Gweithredu |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | I'r Cabinet ystyried y Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 – 2027 i'w hargymell i'w chymeradwyo i'r Cyngor. |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** | Y Cynghorwyr Alun Williams a Catherine Hughes |

Cytunwyd yn 2017 y dylid cynnal adolygiad systematig o'r holl strwythurau a meysydd gwasanaeth i sicrhau bod gan wasanaethau ar draws y Cyngor y gallu a'r cynhwysedd i gyflawni blaenoriaethau'r Cynlluniau a'r Amcanion Corfforaethol.

Datblygodd y trawsnewid yn dda gyda'r prif newid terfynol sef integreiddio gofal cymdeithasol a dysgu gydol oes i'r tri gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Porth Cynnal ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid yn ffurfio'r 5 prif faes sy'n dod o fewn y raglen drawsnewid Gydol Oes a Lles.

Cychwynnodd ailstrwythuro ffurfiol y gwasanaethau hyn ddiwedd 2019 gyda chyflwyno strwythur Rheolwyr Corfforaethol ar draws y gwasanaethau. Gohiriwyd oherwydd cynnydd yn y pandemig yn ystod 2020 ond yna aethpwyd ymlaen â hyn ymhellach o fis Medi 2020 ymlaen. Cydnabuwyd bod angen strategaeth glir i yrru a chyfathrebu'r angen am newid a sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni.
Mae diweddariadau a gweithdai gydag aelodau wedi digwydd trwy gydol y cyfnod newid. Ymgynghorwyd â Staff ac Undebau Llafur yn ystod pob rhan o'r broses.

**STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHEDU**
Ar ddechrau'r rhaglen crëwyd gweledigaeth a oedd yn adlewyrchu'r rhaglen drawsnewid uchelgeisiol:

'Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn.. Sicrhau mynediad teg at wasanaeth rhagorol – rhai cyffredin a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a lesiant pob dinesydd.

Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd fyn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.'

Mae'r Strategaeth Gydol Oes a Lles yn egluro'r weledigaeth a'r cynlluniau ar gyfer ei gweithredu, yn gosod y weledigaeth a'r dulliau perthnasol a gymerir i drawsnewid sut mae lles a diogelwch pobl Ceredigion yn cael eu cefnogi. Rhoddir llinell amser o 2021-2027 i gyflawni'r newidiadau.

Mae'r strategaeth yn disgrifio'r siwrnai y bydd y Cyngor yn ei chymryd, ochr yn ochr â'i bartneriaid, i drawsnewid ei ffordd o weithio. Mae'n darparu'r cyd-destun strategol i yrru comisiynu yn y dyfodol, darparu gwasanaethau gweithredol, rheoli gofal a rôl u Cynghorau wrth integreiddio gwasanaethau. Mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn:

- Rhoid Model Cyflenwi Gydol Oes a Lles newydd ar waith
- Lleihau'r galw ar ofal a chymorth wedi'i reoli a chanolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd eu hangen fwyaf
- Cefnogi ein gweithlu i ddatblygu dulliau newydd o gefnogi unigolion yng Ngheredigion
- Canolbwyntio ar wasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol neu adennill yr annibyniaeth y maen nhw ei eisiau a'i werthfawrogi
- Darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu system iechyd, lles a gofal cymdeithasol mwy cyd-gysylltiedig

o bobl y gwyddys sydd wedi'u diagnosio â Dementia yn 2021, rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn codi i 2021 erbyn 2035.

Mae disgwyliad oes Ceredigion yn dda ar 80.5 oed i ddynion ac yn 84.1 oed i fenywod, y ddau ohonynt yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Cyd-destun Ceredigion – yr achos dros newid

- Galw sy’n cynyddu, cyflenwad sy’n lleihau (disgwyliad oes uchel)
- Nifer sy’n lleihau o blant a phobl ifanc (1-15 oed)
- Costau cynyddol yn y system
- System gymhleth i lywio drwyddi
- Yr angen am atebion integredig ar draws sectorau
- Tan-ddefnyddio ar asedau cymunedol
- Lefelau uchel o yfed alcohol
- Enillion cyfartalog isaf
- Nifer uchel o blant wedi’u haddysgu gartref yng Ngorllewin Cymru
- Cynnydd mewn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol mewn cymunedau gwledig a threfol
- Cost gynyddol llety
- Amodau tai o safon wael (yn effeithio ar les pobl hŷn)
- Cyfyngedig yw’r ddarpariaeth o ran tai cysgodol
- Y boblogaeth ymddeol sy’n buddsoddi mewn hunanddatblygiad
- Mae llawer o bobl yn derbyn gofal a chymorth gan deuluoedd
- Argaeledd y gweithlu (niferoedd yn cymudo i mewn ac allan)
- Nifer uwch na’r cyffredin o sefydliadau’r trydydd sector
- Gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus ar gyfer cyflogaeth




Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Sicrhau hawliau
Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd (oedolion)

Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol

Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol (Plant)

Addasrwydd llety preswyl




Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Yn gweithio (oedolion)

Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Y cyfraniad a wneir i gymdeithas

Addysg, hyfforddiant a hamdden

Perthnasau personol, teuluol a domestig.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# DYMA'R HYN RYDYM YN BWRIADU EI GYFLAWNI

**Dull ledled y Cyngor cyfan**

- mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anawsterau a bregusrwydd pobl a'r rhesymau y maent yn dod i gysylltiad â'r gwasanaeth (e.e. profiadau niweidiol yn ystod plentyndod)

***"byddwn yn datrys problemau nid eu cadw dan reolaeth"***

**Cydweithio cryf â phartneriaid**

**Cynyddu gwytnwch unigolion yn eu cymuned**

**Llai o ddyblygu adnoddau a chapasiti a gwneud y mwyaf o'r hyn sydd eisoes ar gael**

**Symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar yr unigolyn a'i heriau yn annibynnol ar bopeth arall**

a symud tuag at ddull mwy cyfannol sy'n cefnogi'r unigolyn a'i rwydwaith (e.e. rhwydweithiau cymorth teulu a chymuned) yn ogystal â'r unigolyn

**Llai o ddibyniaeth ar ofal a chymorth a reolir**

**Seilwaith ymyrryd ac atal sy'n gynnar ac yn gryf**

- i gefnogi pobl i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder i fyw'n dda

**Dulliau gweithredu poblogaeth gyfan**

- i gefnogi pobl o bob oed a'u gofalwyr i reoli eu llesiant

**Newid trawsnewidiol mewn diwylliant ac ymarfer**

**Dull o ddarparu gwasanaeth**

- sy'n gweld pob elfen o'r Model Gydol Oed yn rhoi'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn gan ddefnyddio dull Tîm o Amgylch y Teulu / yr Oedolyn



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y **daith** i ailddiffinio gofal a chymorth yng Ngheredigion

## GWEITHGARWCH

**Cynnydd** mewn cefnogaeth gyffredinol ac ataliol

**Gostyngiad** mewn gofal a chymorth a reolir

## Y GYLLIDEB

**Cynnydd** yn y gyllideb a ddyrannwyd i Porth Cymorth Cynnar

**Gostyngiad** yn y gyllideb a ddyrannwyd i Porth Cynnal


## BYDD LLWYDDIANT YN EDRYCH FEL HYN

- Diwallu anghenion pobl yn y ffordd fwyaf amserol wrth eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Llai o ddibyniaeth ar wasanaethau'r Cyngor
- Ailddyrannu adnoddau, a thystiolaeth i ddangos bod atal yn gweithio gan ein bod yn lleihau'r angen am ofal a chymorth a reolir
- Manteisio gymaint ag y bo modd ar rôl technoleg ar gyfer unigolion, staff a darparu gwasanaethau
- Gweithlu hynod fedrus, effeithiol ac ymroddedig
- Marchnad gref a pherthynas agos â darparwyr i'n helpu i gynllunio a chomisiynu yn effeithiol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y **weledigaeth** ar gyfer y Model Gydol Oed a Llesiant

- Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn.
- Sicrhau mynediad teg at wasanaethau rhagorol – rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd.
- Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.






Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Sut y byddwn yn **cyflawni** ein gweledigaeth

- Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn. Sicrhau mynediad teg at wasanaethau rhagorol – rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd. Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth rydym wedi datblygu model gweithredu Gydol Oed a Llesiant sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth o'r math a'r lefel gywir, ar yr adeg iawn, i atal, lleihau neu ohirio'r angen am gefnogaeth barhaus, ac i gael pobl i aros yn annibynnol am gyn hired ag y bo modd a chryfhau eu gallu i aros yn eu cartref eu hunain yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- cefnogi'r rhai sydd dan anfantais a'r rhai sy'n wynebu heriau,
- datblygu ymhellach wasanaethau sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- diogelu a meithrin y rhai mwyaf agored i niwed,
- anelu at fod y safon meincnod ar gyfer rhagoriaeth ac arloesedd yng Nghymru a thu hwnt,
- uwchsgilio ein gweithlu i gydweithio i wella'r arweiniad a'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion.

Byddwn bob amser yn ystyried barn yr unigolion, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid, yn ogystal â gweithlu ehangach Ceredigion yn natblygiad ac esblygiad y model a byddwn bob amser yn ceisio bod yn:

- Hygyrch
- Cyfeillgar
- Arloesol
- Hawdd gwneud â ni
- Anfeirniadol
- Effeithiol
- Cefnogol
- Mewn pryd
- Effeithlon

Mae'r model Gydol Oed a Llesiant yn fwy na dim yn fodel gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau integredig trwy bob oed a thrwy daith y Cleient yn hytrach na thrwy strategaeth systemau neu broses.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# YR HYN A WNAWN…

**POBL**: Byddwn yn cydweithio ar draws timau, a chyda'r holl bartneriaid Iechyd, Trydydd Sector a phartneriaid allanol, i sicrhau gwell canlyniadau i'n holl Gleientiaid a'u teuluoedd; i roi'r help iawn ar yr amser iawn.

**Y BROSES**: Byddwn wrthi'n barhaus yn ceisio gwella, gan fodloni gofynion deddfwriaethol a statudol a defnyddio egwyddorion a methodolegau cydweithredol ym mhopeth a wnawn, gan rannu arfer gorau ar draws Timau a sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth gadarn.

**TECHNOLEG**: Byddwn yn defnyddio technoleg er mwyn bod yn effeithlon wrth ddyrannu gwaith, i symleiddio gwaith sy'n digwydd dro ar ôl tro, ac i ddarparu cymorth. Byddwn yn bwrw ymlaen â strategaeth systemau sy'n arolygu data i sicrhau y caiff data ei rannu'n awtomataidd rhwng systemau a sicrhau defnydd effeithlon o brosesau data a chofnodi.

## YR EGWYDDORION SY'N SAIL I'N MODEL

**RHEOLAETHAU**: Byddwn yn amddiffyn yr Awdurdod Lleol rhag Risg Gweithredol a byddwn yn anelu at wella proffil cyffredinol ein holl bartneriaid.

**SICRHAU ANSAWDD:** Byddwn yn gwneud mwy o waith sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr ein bod yn wrthi'n gyson yn adolygu budd pennaf defnyddwyr gwasanaethau ac yn sicrhau y darperir cefnogaeth i safon uchel

**CYNALIADWYEDD:** Byddwn yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd sydd nid yn unig yn addas at y diben i ddiwallu angen dinasyddion Ceredigion, ond hefyd yn effeithlon ac yn gynaliadwy ar gyfer gofynion yr Awdurdod yn y dyfodol.



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# YR EGWYDDORION SY'N SAIL I'N MODEL

Dylai profiadau deimlo fel rhai sy'n canolbwyntio ar y cleient ac mae'r Model Gydol Oed a Llesiant yn mynd ati i roi parhad a diogelwch mewn perthynas â:

- Mynediad at adnoddau cymorth hyblyg
- Osgoi rhwystrau i gydweithredu, e.e. byddai pasio atgyfeiriadau yn ôl ac ymlaen yn wastraffus a ddim yn gleient-ganolog
- Atal dyblygu
- Atal y model rhag datblygu ymdeimlad o 'brosesu' ac yn lle hynny gadw'r ffocws ar yr unigolyn, eu llesiant a'u hanghenion gofal a chymorth

# Taith yr unigolyn drwy'r Model Gydol Oed a Llesiant …erbyn 2027

Ein nod yw sicrhau datrysiad ar y cysylltiad cyntaf o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fo hynny'n briodol.

Asesiadau Cymesur a chyfeirio – bydd hyn yn rhyddhau capasiti ac amser ar gyfer gofal mwy cymhleth wedi'i gynllunio a gwasanaethau arbenigol gydol oedran pan nodir anghenion gofal a chymorth cymwys.

## 70%

- Atal
- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Cyffredinol

- Hunangymorth a broceriaeth
- Sgyrsiau sy'n grymuso
- Canolfannau llesiant
- Cysylltu pobl ag atebion lleol a hunangymorth dan arweiniad

## 20%

- Cymorth tymor byr

- Wedi'i arwain yn broffesiynol a'i gefnogi gan wirfoddolwyr
- Lleoliadau cymunedol
- Amlddisgyblaethol gan gynnwys y sector gwirfoddol a phartneriaid


## 10%

- Cymorth hirdymor

- Wedi'i arwain yn broffesiynol
- Ymyriadau statudol
- Amlddisgyblaethol
- Cefnogaeth gwaith cymdeithasol arbenigol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Dyma sut byddwn yn cynnig dull di-dor a chymesur o roi gofal a chymorth




Darparu neu drefnu gofal a chymorth a reolir sy'n benodol i'r unigolyn pan na all pobl ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain a chadw eu hunain yn ddiogel

Cymorth tymor byr dros dro a chefnogaeth ddwys i helpu unigolion i gryfhau eu gwytnwch ac adennill annibyniaeth

Cymorth lefel isel am y tymor byr wedi'i ddarparu'n uniongyrchol neu'n hunanreoledig i helpu pobl i ddatrys pryderon sy'n codi mor gynnar â phosibl. Cefnogaeth ar-lein lle bynnag y bo modd. Rhywun i helpu os oes angen hynny.

Gwasanaethau cyffredinol hygyrch a chyflym sy'n cysylltu pobl â'u cymunedau (e.e. ysgolion, ffyrdd, llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden)
Gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol, partneriaid a sefydliadau gwirfoddol i gynnig ystod o gefnogaeth

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Sut bydd ymarfer yn newid yng Ngheredigion

| SYMUD O DDULL GWEITHIO SY'N… | I DDULL GWEITHIO SY'N… |
|---|---|
| Gwneud pethau i bobl a throstynt ac yn creu dibyniaeth | Canolbwyntio ar alluogi pobl i wneud pethau drostynt eu hunain, gan hyrwyddo annibyniaeth |
| Yn ystyried yr unigolyn ar ei ben ei hun, ar wahân i eraill | Yn cefnogi'r teulu a'r rhwydwaith cymdeithasol |
| Yn ymateb i'r hyn nad yw pobl yn gallu ei wneud | Yn galluogi pobl i adeiladu ar yr hyn y gallant ei wneud a'r gefnogaeth sydd ganddynt o'u cwmpas |
| Yn cael ei arwain gan yr ymatebion gwasanaethau traddodiadol | Yn cael ei arwain gan sgwrs gadarn ar beth sy'n bwysig' er mwyn nodi'r pethau sydd o bwys i'r unigolyn |
| Yn seiliedig ar 'yr un peth i bawb' | Yn greadigol ac yn arloesol ac wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn a'i rwydwaith |
| Yn osgoi risg ac yn uwchgyfeirio achosion i ofal a chymorth a reolir ar y pen uchaf | Yn hyrwyddo cymryd risg yn gadarnhaol ac yn galluogi pobl i wneud dewis o ran sut mae eu hanghenion yn cael eu diwallu<br>Yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio |

Byddwn yn alinio gwasanaethau er mwyn i ni gael 'un person/un pwynt cyswllt' yn gweithio/cydlynu gyda'r teulu, yn hytrach na sawl person o wasanaethau gwahanol ar draws y model er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau a chefnogaeth.




Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio

Dyma'r model ymarfer y byddwn yn ei fabwysiadu ar draws ein harweinyddiaeth, prosesau a systemau, ymarfer, comisiynu a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'r holl bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi.

**Llais, dewis a rheolaeth**

**Yn seiliedig ar gryfderau**

**Cymryd risgiau cadarnhaol**

**Cydgynhyrchu**

**Ffocws ar ganlyniadau (yr hyn sy'n bwysig)**

**Yn gymesur**

## Arwyddion diogelwch

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio – dyma sut bydd yn edrych

## Llais, dewis a rheolaeth

**Bydd POBL**

- yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau sy'n ystyrlon iddyn nhw.
- yn gallu mynegi pwy ydyn nhw a beth maen nhw eisiau i fod yn wahanol yn eu bywydau.

**Bydd STAFF**

- yn ystyried barn a phrofiadau'r bobl y maent yn eu cefnogi er mwyn iddynt gael 'dewis' a 'rheolaeth' mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- yn cynllunio, gweithredu ac yn gwerthuso'r dewisiadau y mae'r unigolyn wedi'u gwneud, gan wneud hynny gyda'r unigolyn a'i rwydwaith.

**Bydd ARWEINWYR**

- yn sicrhau bod ymarferwyr yn datblygu perthynas ryngbersonol rhwng pobl, eu teuluoedd, gofalwyr a rhwydweithiau a'r staff sy'n gweithio gyda nhw.
- yn gwrando'n astud ac yn ymateb i brofiadau staff wrth weithio yn y ffordd hon.

## Yn seiliedig ar gryfderau

**Bydd POBL**

- yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o ran eu hannibyniaeth, eu gwytnwch, eu gallu i wneud dewisiadau a'u lles.
- yn gallu pwyso ar eu hadnoddau, galluoedd, sgiliau, gwybodaeth a'u potensial personol, ac ati.

**Bydd STAFF**

- yn gwerthfawrogi capasiti, sgiliau, gwybodaeth, cysylltiadau a photensial y bobl y maent yn eu cefnogi, eu rhwydweithiau a'u cymunedau.
- yn cydweithio â'r bobl y maent yn eu cefnogi i'w helpu i wneud pethau drostynt eu hunain.

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiant ac effaith y gwaith a wneir gan staff.
- yn blaenoriaethu datblygiad sgiliau a hyder ymarferwyr

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio – dyma sut bydd yn edrych

## Cymryd risgiau cadarnhaol

**Bydd POBL**

- yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u galluogi i gael y rhyddid i ddewis a'r hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ar bopeth o sut maen nhw am gael gofal, i sut maen nhw am dreulio eu hamser rhydd.

**Bydd STAFF**

yn gweithio gyda'r unigolyn a'i rwydwaith ac asiantaethau eraill i:

- bwyso a mesur buddion posibl dewis un ffordd o weithredu yn hytrach nag un arall
- nodi'r risgiau posibl dan sylw
- edrych y tu hwnt i effeithiau corfforol posibl risg i ystyried agweddau meddyliol risg, megis yr effeithiau ar les neu hunaniaeth
- datblygu cynlluniau a chamau gweithredu sy'n adlewyrchu canlyniadau'r unigolyn

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cefnogi risgiau rhesymol ac yn rhoi caniatâd i ymarferwyr weithio fel hyn
- yn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael i helpu unigolion i sicrhau eu canlyniadau ac i gwtogi gymaint ag y bo modd ar ganlyniadau a allai fod yn niweidiol.

## Cydgynhyrchu

**Bydd POBL**

yn teimlo eu bod yn cael rhan weithredol wrth:

- reoli eu lles a gweithio tuag at eu hamcanion personol;
- gwneud penderfyniadau am y gofal a'r gefnogaeth a gânt, mewn perthynas â'r hyn sy'n bwysig i'w bywydau;
- ymgysylltu â gwasanaethau a chefnogaeth a'u mowldio.

**Bydd STAFF**

- yn gweithio tuag at berthynas gyfartal â'r unigolyn a'i rwydwaith er mwyn iddynt fod yn rhan o'r broses gyfan

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cydweithio ag asiantaethau partner i ddylunio a darparu gwasanaethau, gan wneud hynny mewn ffordd integredig lle bynnag y bo modd.
- yn dwyn partneriaid i gyfrif i sicrhau eu bod yn arddel cyfrifoldeb am gefnogi lles unigolion.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio – dyma sut bydd yn edrych

## Ffocws ar ganlyniadau (yr hyn sy'n bwysig)

**Bydd POBL**

- yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw yn eu bywydau

**Bydd STAFF**

- yn cydnabod cryfderau'r unigolyn a'i rwydwaith ac yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy ac yn gweithio tuag at sefydlu ymdeimlad cyffredin o bwrpas y gall pawb gyfrannu ato.
- yn symud i ffwrdd o nodi anghenion a phroblemau yn unig a chyfateb y rheini ag atebion gwasanaeth

**Bydd ARWEINWYR**

- yn ymddiried yn ymarferwyr i wneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys penderfyniadau yn ymwneud ag adnoddau a chymryd risg er mwyn cefnogi sicrhau canlyniadau i unigolion.

## Yn gymesur

**Bydd POBL**

- yn teimlo nad yw'r broses a'r dull o'u cefnogi yn ddiangen o ymwthiol a busneslyd
- yn derbyn cefnogaeth mewn da bryd a dim ond gydag agweddau ar eu bywyd lle mae angen hynny

**Bydd STAFF**

- yn darparu'r ymateb lleiaf ymwthiol sy'n briodol i'r risg a gyflwynir.
- yn ystyried ac yn mynd i'r afael â phob risg fel na cheir unrhyw niwed pellach.

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cymryd agwedd lawer llai gwrthwynebus, a bydd ymwneud yn gymesurol a pherthynas â pharch wrth wraidd eu hymarfer

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y WELEDIGAETH AC AMCANION

Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn. Sicrhau mynediad teg at wasanaethau rhagorol – rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd. Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.

- Hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol a chefnogi pobl i helpu eu hunain
- Cryfhau teuluoedd er mwyn i blant a phobl ifanc gael aros gyda'u teulu
- Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain
- Mynd ati'n gymesurol wrth gynnig gofal a chymorth a reolir
- Amddiffyn unigolion a'u cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

01

AMCAN

# HYRWYDDO IECHYD A LLESIANT CADARNHAOL A CHEFNOGI POBL I HELPU EU HUNAIN

**CYFLAWNIR HYN DRWY DDATBLYGU:**

- model newydd ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth
- dull haenog o atal
- rhychwant gadarn o gefnogaeth i ofalwyr
- gwneud y gorau o botensial asedau cymunedol

**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Bydd proses ddigidol hawdd ei defnyddio a phroses hunanasesu ar-lein er mwyn i bobl ddod o hyd i atebion drostynt eu hunain
- Bydd dull cydgysylltiedig o roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n rhwydd cael mynediad atynt, er enghraifft trwy ein Canolfannau Lles
- Bydd dull integredig a chymunedol o gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol ac iach
- Cefnogir unigolion i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain gan ddefnyddio adnoddau sydd ganddynt eu hunain ac o'u cwmpas



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Ceredigion

Atgyfeiriadau asiantaethau allanol ar gyfer gofal a chymorth ac adroddiadau diogelu

Llyfrgelloedd CLIC

Porth Cymorth Cynnar
Porth Gofal
Porth Cynnal

**Hunangymorth a hunanwasanaeth ar-lein**

- Gwybodaeth
- Cyngor
- Gwasanaethau ac asesiadau gweithrediadol

**Mynediad â chymorth**

- Gwybodaeth
- Cyngor
- Dechrau sgwrs 'beth sy'n bwysig'
- Cyfeirio at wasanaethau eraill

**Canolfannau Llesiant/ Gwasanaethau yn seiliedig ar leoliad**

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Sgwrs 'Beth sy'n bwysig'
- Hunanreoli â chefnogaeth
- Cyfeirio ac/neu atgyfeiriadau at wasanaethau eraill

**Cefnogaeth ddwys ac arbenigol**

- Wedi'i arwain yn broffesiynol
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth trwy asesiad strwythuredig
- Atgyfeiriadau at wasanaethau eraill

Ymyrraeth yn gynnar ac atal ...... Llesiant ...... Diogelu

## 02

## AMCAN

# CRYFHAU TEULUOEDD ER MWYN I BLANT A PHOBL IFANC GAEL AROS GYDA'U TEULU

**CYFLAWNIR HYN DRWY:**

- cyflwyno dull teulu-cyfan i gael ystod eang o wahanol asiantaethau statudol a gwirfoddol i weithio gyda theulu. Mae'r dull partneriaeth, cydgysylltiedig hwn yn helpu i adeiladu ar gryfderau teuluoedd a sicrhau newid cynaliadwy yn y meysydd pryder a nodwyd ar gyfer y teulu cyfan
- cydweithio gyda'n partneriaid i ddatrys yr achosion dros broblemau teuluol a ffactorau risg fel cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau a phrofiadau niweidiol ehangach

**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Cefnogir unedau teulu (pob cenhedlaeth) i aros gyda'i gilydd a chefnogi ei gilydd
- Pan fydd teuluoedd yn cyrraedd neu'n agos at gyrraedd adeg o argyfwng byddant yn gallu cael gafael ar gymorth i ymateb i heriau a meithrin eu gwytnwch ar ôl i'r argyfwng fynd heibio



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

03

AMCAN

# GALLUOGI UNIGOLION I FYW'N ANNIBYNNOL YN EU CYMUNEDAU EU HUNAIN

**CYFLAWNIR HYN DRWY DDATBLYGU:**

- Tîm Amlddisgyblaethol a phrif fodel gweithio sy'n gydgysylltiedig ac sy'n dwyn ynghyd ystod o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol eraill i ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol trwy ddarparu'r gofal cywir gartref neu yn y gymuned.
- ystod y ddarpariaeth offer a defnyddio technoleg gynorthwyol
- amrywiaeth o opsiynau gwasanaeth sy'n cynnwys adsefydlu, ailalluogi, taliadau uniongyrchol, gwasanaethau dydd a gwell darpariaeth gofal yn y cartref
- dull holistig o gefnogi pobl ifanc wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion
- dull system gyfan o gynorthwyo pobl i fyw gyda chyflyrau tymor hir (gan fod â ffocws penodol ar gymorth dementia)

**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Bydd gan unigolion fynediad at gymorth amserol i'w helpu i gadw neu adennill eu hannibyniaeth
- Bydd technoleg gynorthwyol yn allweddol wrth gynorthwyo unigolion i gadw eu hannibyniaeth
- Bydd unigolion yn gallu aros yn eu cymunedau lleol gyda chefnogaeth eu rhwydweithiau lle bynnag y bo modd
- Bydd anghenion unigolion yn cael eu diwallu trwy wasanaethau integredig ond gyda'r person mwyaf priodol yn cydlynu eu gofal



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

04

AMCAN

# MYND ATI'N GYMESUROL WRTH GYNNIG GOFAL A CHYMORTH A REOLIR

**CYFLAWNIR HYN DRWY DDATBLYGU:**

- cynnig gofal helaeth sy'n ganolraddol a chydgysylltiedig
- dull gweithredu sy'n rhoi gofal a chymorth mewn da bryd ac sy'n canolbwyntio ar adferiad
- ystod o opsiynau llety i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth yn y tymor byr, canolig a hir
- cymorth cydlynol i fynd i'r afael ag effaith camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a phroblemau ariannol

**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Bydd unigolion sydd fwyaf bregus yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth gywir i'w helpu i fyw eu bywyd yn y ffordd y maent eisiau gwneud, a hynny wrth sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, eu canlyniadau'n cael eu cyflawni ac unrhyw risgiau yn cael eu rheoli
- Bydd anghenion unigolion yn cael eu diwallu trwy wasanaethau integredig ond gyda'r person mwyaf priodol yn cydlynu eu gofal
- Bydd gan unigolion fynediad at gymorth mewn da bryd sy'n addas iddyn nhw wrth i'w hanghenion newid ac amrywio



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

05

AMCAN

# AMDDIFFYN UNIGOLION A'U CADW'N DDIOGEL RHAG CAMDRINIAETH, NIWED AC ESGEULUSTOD

**CAIFF HYN EI GYFLAWNI DRWY:**

- arwain ar raglen bwrpasol i sicrhau bod diogelu yn cael ei fabwysiadu i fod yn gyfrifoldeb ar bawb
- datblygu trefniadau diogelu cydgysylltiedig a chymesur ar gyfer oedolion a phlant – o fewn y Cyngor a chydag asiantaethau partner
- canolbwyntio'n benodol ar achosion ac effeithiau cam-drin domestig (e.e. camddefnyddio sylweddau / iechyd meddwl / pwysau ariannol)


**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Cefnogir unigolion ar y pwynt cynharaf i'w hatal rhag dioddef camdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- Mae teuluoedd i dderbyn cefnogaeth gyson a chydgysylltiedig pan fydd pryderon diogelu yn effeithio ar fwy nag un person yn y teulu
- Bydd llesiant ehangach unigolion yn cael ei hyrwyddo'n weithredol nid y meysydd sy'n destun pryder yn unig

# Y Sylfeini

- Dyrannu adnoddau yn gymesur
- Sicrhau ansawdd a monitro gwariant i sicrhau gwerth am arian (yn fewnol ac yn allanol)
- Archwilio opsiynau ar gyfer codi tâl fel y galluogwyd gan Ran 5 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Gwneud y mwyaf o’r holl ffrydiau cyllido i gefnogi teuluoedd cyfan ac nid targedu at unigolion cymwys yn unig
- Deall a chydnabod enillion ar fuddsoddiad

- Proffil manwl o anghenion a chanlyniadau’r boblogaeth
- Deall patrymau galw a chyflenwad
- Gwybodaeth gyfoes am yr hyn y mae’r farchnad yn ei gyflenwi a’r hyn sy’n gweithio
- Perthynas gref â darparwyr er mwyn gallu datblygu’r farchnad
- Mwy o fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal





- Arweinyddiaeth drawsnewidiol gref
- Datblygu staff i fod â’r profiad, yr wybodaeth a’r sgiliau cywir
- Dull rheoli ac amgylchedd gwaith sy’n gefnogol
- Cefnogi staff i gydweithio â phartneriaid

- Technoleg gynorthwyol i unigolion
- Systemau data deallus ac integredig
- Defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu ag unigolion
- Mynediad ar-lein i wasanaethau’r Cyngor
- Technoleg ddigidol symudol i staff

Cyngor Sir CEREDIGION County Council


# Y seilwaith ar gyfer gweithredu






Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y seilwaith ar gyfer gweithredu... **yn ymarferol**




- Strategaethau Comisiynu
- Fframwaith Sicrhau Ansawdd
- Strategaeth y Gweithlu
- Strategaeth Atal
- Strategaeth Dementia


Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y seilwaith ar gyfer gweithredu

- Monitro cyllid o ran ansawdd
- Comisiynu a chaffael ar sail canlyniadau
- Cydgasglu a gwneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael (e.e. grantiau)

- Ystyried y teulu cyfan wrth gefnogi plant
- Defnyddio safleoedd ysgolion ac adeiladau cymunedol fel adnoddau cymunedol
- Ysgolion yn cefnogi gwytnwch cymunedau

- Cyd-ddibyniaethau rhwng partneriaethau strategol
- Sicrhau cysylltiadau â'r strategaeth gorfforaethol




- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy Strategaethau Uchelgais Economaidd
- Gwasanaethau gwladol yn cefnogi addasiadau i adeiladau (e.e. hybiau lles)

- Mannau parcio ceir sy'n hygyrch ac ar gael i gael mynediad at adnoddau cymunedol
- Seilwaith trafnidiaeth sy'n hygyrch ac ar gael

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y dull pontio i gyflawni'r weledigaeth

## Blwyddyn 1

- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Atal
- Datblygu'r gweithlu

## Blwyddyn 2

- Adsefydlu ac Ailuno
- Comisiynu gwasanaethau

## Blwyddyn 3

- Sicrhau cydbwysedd rhwng gofal a chymorth tymor hir



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# CYNGOR SIR CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** **Cabinet**

**DYDDIAD:** **05 10 2021**

**LLEOLIAD:** **Dros y we**

**TEITL:** **Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021–2027 a'r Cynllun Gweithredu**

**DIBEN YR ADRODDIAD:** **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 – roedd Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn bresennol hefyd yn y cyfarfod**

**CEFNDIR:**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Medi 2021, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021–2027 a'r Cynllun Gweithredu.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Caroline Lewis, i gyflwyno'r adroddiad.

Yn 2017 cytunwyd i gynnal adolygiad systematig o'r holl strwythurau a'r meysydd gwasanaeth i sicrhau bod gan wasanaethau'r Cyngor y gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Cynlluniau a'r Amcanion Corfforaethol. Mae hyn wedi mynd rhagddo'n dda. Gohiriodd y pandemig y cynnydd yn ystod 2020 ond bwrwyd ymlaen ymhellach â'r gwaith o fis Medi 2020 ymlaen. Mae'r Strategaeth yn ddogfen allweddol sy'n cysylltu â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r blaenoriaethau corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

**ARGYMHELLIAD:**

- Argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021–2027 a'r Cynllun Gweithredu.

Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021–2027 a'r Cynllun Gweithredu, yn ddibynnol ar ystyried yr argymhelliad canlynol:

- Bod gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a gwasanaeth CLIC yn y dyfodol. Noder bod eitem agenda y bwriedir ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 14 Hydref 2021 - diweddariad am Wasanaethau Cwsmeriaid CLIC. Cytunodd yr Aelodau y dylid canmol holl staff CLIC am eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am fod yn bresennol ac am gyflwyno yn eglur a chryno.

**Y Cynghorydd Bryan Davies**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

# CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Drafft ar Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Drafft ar yr Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21** |
| **Er:** | **Cymeradwyaeth** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Arweinydd y Cyngor) - Polisi a Pherfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd** |

**Cyflwyniad**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod rhwymedigaeth ar Gyngor Sir Ceredigion i gyhoeddi Cynllun Gwella er mwyn nodi ein hamcanion a'n perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf (2020-21). Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau gwelliannau ar draws ystod o swyddogaethau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar Gynghorau i nodi a chyhoeddi Amcanion Llesiant sy'n cael eu llunio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan greu'r Gymru yr ydym am fyw ynddi yn awr ac yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni gymryd yr holl gamau rhesymol tuag at gyflawni'r Amcanion Llesiant, ac mae'n rhaid inni gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu cynnydd y Cyngor wrth gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r canllawiau ar y ddogfen yma yn nodi y dylid cynnwys hefyd adolygiad o'r Amcanion Llesiant yn yr adroddiad.

Mae'r Cyngor yn cyfuno'r gofynion hyn mewn un adroddiad – yr "Adroddiad Blynyddol ar Amcanion Llesiant a Gwella" y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn 31ain Hydref 2021. Er gwaethaf pandemig Covid-19, mae'r gofyniad i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn parhau ar waith. Fodd bynnag, hwn fydd yr Adroddiad Blynyddol olaf yn y fformat hwn gan fod y Mesur Llywodraeth Leol yn cael ei ddisodli gan Ran 6 y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau sy'n cyflwyno'r drefn berfformiad Hunanasesu newydd o 2021 ymlaen.

**Y Sefyllfa ar hyn o bryd**

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant ym mis Mehefin 2021, gan ystyried effaith barhaus pandemig COVID-19 ar ddarparu gwasanaethau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y set bresennol o Amcanion yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn rhoi ymateb â mwy o ffocws i COVID-19 i ddiogelu a gwella llesiant pawb nawr ac yn y tymor hwy.

Cymeradwywyd y dull gweithredu hwn gan y Grŵp Arweiniol ar 16eg Mehefin a bydd yn parhau yn 2022/23. (Mae'r rhestr o Amcanion Llesiant i'w gweld yn Atodiad A).

Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft wedi'i atodi fel Atodiad B. Mae fformat yr adroddiad wedi'i ddiwygio yn dilyn adborth o'r llynedd a diweddarwyd ei ddiwyg. Mae'r ddogfen yn adolygu perfformiad yn ystod y flwyddyn 2020-21 ac o ganlyniad mae ganddi thema Covid-19 gref sy'n rhedeg drwyddi draw ac wrth asesu perfformiad am y flwyddyn.

Mae'n bwysig nodi, er y bydd Archwilio Cymru yn gwirio hyn i weld a yw'n cydymffurfio ac yn cyhoeddi Tystysgrif Cydymffurfiaeth, ni fyddant yn ei archwilio'n fanwl eleni oherwydd diwedd y gofyniad statudol i gynhyrchu'r adroddiad.

**Amserlen**
Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 21 Hydref 2021. Ar ôl cytuno arno, bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Does dim newid o ran polisi. |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** | Datblygwyd yr Amcanion Llesiant yn unol â'r Egwyddor Cynaliadwyedd. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | Bod Cabinet yn ystyried ac yn cytuno ar yr Adroddiad Blynyddol ar Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21. |
| **Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** | Symud ymlaen â chyhoeddi yr Adroddiad Blynyddol ar Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 15 Medi 2021. |
| **Fframwaith Polisi:** | |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Papurau Cefndir:** | Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 |
| **Atodiadau:** | Atodiad A: Adolygiad o Amcanion Llesiant<br>Atodiad B: Adroddiad Blynyddol Drafft ar Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams |
| **Swyddog Adrodd:** | Rob Starr (Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil) |
| **Dyddiad:** | 11 Medi 2021 |

# Atodiad A: Adolygiad o’r Amcanion Llesiant

Mae'r Amcanion Lles yn canolbwyntio ar ymateb sy'n cynnwys mwy o ffocws yn y tymor byr ac adfer yn dilyn pandemig COVID-19 er mwyn diogelu a gwella lles pawb nawr ac yn y dyfodol. Fe'u nodwyd ac maent yn parhau i gyd-fynd â'n holl Flaenoriaethau Corfforaethol, ac maent yn ystyried y Cynllun Llesiant ac Asesiad Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym wedi adolygu'r Amcanion Lles presennol, gan ddod i'r casgliad y dylent barhau i fod mewn grym er mwyn cynorthwyo gwaith adfer parhaus y Cyngor a'i bartneriaid.

Felly, ar gyfer blwyddyn 2022/23, byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar gynorthwyo anghenion dinasyddion wrth iddynt adfer o'r pandemig, gan gyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor ar yr un pryd.

| Amcan | Blaenoriaethau Corfforaethol | 2020/21 Amcanion Llesiant | Amcanion Llesiant 2021/22 & 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus<br>Cymru sy’n fwy cyfartal<br>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 1. Hybu’r Economi | 1.1 Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19 | 1.1 Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19 |
| Cymru lewyrchus<br>Cymru iachach<br>Cymru sy’n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl | 2.1 Cynorthwyo dysgwyr o bob oedran a chefndir i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant, a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth.<br>2.2 Diogelu pobl rhag tlodi<br>2.3 Hybu a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion | 2.1 Cynorthwyo dysgwyr o bob oedran a chefndir i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant, a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth.<br>2.2 Diogelu pobl rhag tlodi<br>2.3 Hybu a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion |
| Cymru iachach<br>Cymru sy’n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 3. Galluogi cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | 3.1 Cynorthwyo dinasyddion sydd wedi’u heffeithio’n anghymesur gan COVID-19 i wella’u lles corfforol ac emosiynol<br>3.2 Hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch | 3.1 Cynorthwyo dinasyddion sydd wedi’u heffeithio’n anghymesur gan COVID-19 i wella’u lles corfforol ac emosiynol<br>3.2 Hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch |
| Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy’n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 4. Hyrwyddo cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol | 4.1 Cefnogi teithio llesol, dulliau eraill o deithio, a ffyrdd o weithio sy’n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon.<br>4.2 Cefnogi’n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, er mwyn iddyn nhw allu ffynnu er gwaethaf COVID-19 | 4.1 Cefnogi teithio llesol, dulliau eraill o deithio, a ffyrdd o weithio sy’n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon.<br>4.2 Cefnogi’n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, er mwyn iddyn nhw allu ffynnu er gwaethaf COVID-19 |

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2020-21



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Adroddiad Blynyddol o Amcanion Perfformiad a Llesiant**







Caru·Love
Ceredigion

## Cysylltwch â ni

**Trwy'r Post:**

Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Dros y ffôn :**

01545 570881

Mae **fersiwn Testun Plaen** neu **ferwsin Hawdd ei ddarllen** o'r ddogfen hon ar gael gan Gyngor Sir Ceredigion

**Statws:** Fersiwn Derfynol
**Cymeradwyo gan y Cabinet:**
**Cymeradwyo gan y Cyngor:**
**Dyddiad Cyhoeddi:**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

**Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion 2020-21**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Crynodeb Gweithredol | 5 |
| Ein Sir mewn Rhifau | 6 |
| Ein Blaenoriaethau | 7 |
| Cyflawni'r Blaenoriaethau | 8 |
| Ble mae'r Arian yn Mynd? | 9 |
| Hybu'r Economi | 10 |
| Buddsoddi yn Nyfodol Pobl | 14 |
| Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | 18 |
| Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylchedd a Chymunedol | 22 |
| Themâu Trawsbynciol | 26 |
| Gwreiddio'r Hadau Newid | 28 |
| Adolygiad o'r Amcanion Llesiant | 32 |
| Meincnodi ein Perfformiad | 36 |

# Rhagair

## Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2020/21. Mae'r ddogfen hon yn dangos ein llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan nodi ein hymrwymiadau i breswylwyr lleol dros y deuddeg mis nesaf.  Rydym yn ei defnyddio i fonitro ein perfformiad a hysbysu preswylwyr o'n cynnydd.

Wrth i ni fynd i'r wasg, mae Ceredigion, fel gweddill Cymru, yn parhau i adfer yn dilyn pandemig iechyd Covid-19.  Mae'n anochel bod hyn wedi effeithio ar ran fwyaf y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, gan amlygu rhai ohonynt.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon, mae'r Cyngor wedi cael cyswllt agosach nag erioed o'r blaen gyda'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu – mae Cynghorwyr, staff, grwpiau cymunedol a'n partneriaid oll wedi cyd-dynnu er mwyn cynorthwyo ein cymunedau a'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rydym yn falch ac yn ddiolchgar am yr ymateb gan ein gwasanaethau rheng flaen, staff y Cyngor a'r gwirfoddolwyr niferus sydd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor er mwyn sicrhau bod preswylwyr Ceredigion yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt.

O ystyried y sialensiau hyn, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cadarn a chydnerth sy'n wirioneddol ymateb i anghenion ein preswylwyr a busnesau lleol.  Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar adfer o bandemig COVID-19, a byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda preswylwyr a busnesau ar draws y Sir a'u cynorthwyo.  Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau adferiad economaidd a llwyddiant i Geredigion, gan gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed, gan sicrhau hefyd bod popeth a wnawn yn cael ei seilio ar y newid yn yr hinsawdd wrth i ni geisio diogelu ein hamgylchedd prydferth.

Er gwaethaf effaith arwyddocaol COVID-19, mae'n bwysig ein bod yn myfyrio am ein perfformiad ar ran ein preswylwyr, ac yn ei werthuso.  Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymhlith yr awdurdodau sy'n sicrhau'r perfformiad gorau yng Nghymru.  Er enghraifft, yn ystod 2020/21:

- Rhannwyd ein gweledigaeth ar gyfer economi Canolbarth Cymru ac er mwyn symud Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ei blaen gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn cynorthwyo buddsoddiad y mae cryn angen ei wneud yng nghymunedau'r rhanbarth.
- Gweinyddwyd 18,835 o daliadau Grant Busnes a oedd yn werth £49m at ei gilydd, er mwyn cynorthwyo busnesau lleol yn ystod y pandemig.
- Dosbarthwyd dros 15,000 o barseli bwyd i drigolion a oedd yn fregus yn feddygol, gan sicrhau eu bod yn cael cyflenwadau hanfodol.
- Cynorthwywyd ysgolion Ceredigion i ailagor yn llwyddiannus trwy gyfrwng ymweliadau safle, canllawiau gweithredol, asesiadau risg a chyflenwadau PPE.
- Cafodd Strategaeth Economaidd a Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi newydd i'w cyhoeddi yn ystod y flwyddyn.

Yn 2021/22, mae ein Blaenoriaethau Corfforaethol yr un fath sef Rhoi Hwb i'r Economi, Buddsoddi yn Nyfodol Pobl, Galluogi Cydnerthedd Unigol a Theuluol a Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. Byddwn yn cyfeirio ein hadnoddau i'r meysydd hyn er mwyn adfywio'r economi leol a chynnig amgylchedd ffyniannus, iach, diogel a fforddiadwy lle y gall dinasyddion Ceredigion fyw a gweithio, ac a fydd yn ceisio cadw ein pobl ifanc mewn swyddi sy'n talu'n dda.  Trwy wneud hyn, byddwn yn parhau i weithredu ac ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfrannu at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol.



Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am y rhain ac am weithgareddau eraill yn yr adroddiad hwn.

***Cynghorydd Ellen ap Gwynn***

Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion

# Crynodeb Gweithredol

## Crynodeb Gweithredol




1. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus lunio adroddiad am y cynnydd a wnaed ganddynt o ran eu hamcanion llesiant.

2. Yn eu hadroddiadau, mae Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud bod disgwyl i gyrff cyhoeddus roi newidiadau ar waith mewn saith maes craidd i wireddu newid ar hyd a lled eu sefydliadau. Mae’r adran ‘Hau Hadau Newid’ yn dangos sut yr ydym yn rhoi’r newidiadau hyn ar waith.

3. Rydym bellach ym mlwyddyn olaf y Strategaeth Gorfforaethol sy'n amlinellu ein Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2017-2022. Y rhain yw Hybu'r Economi, Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl, Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd, a Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. Asesir bod y cynnydd ym mhob un o'r pedair blaenoriaeth yn "Wyrdd". (Gwyrdd = wedi dechrau ac yn unol â’r targed; Amber = wedi dechrau ond ar ei hôl hi o ran y targed; Coch = heb ddechrau). Mae gwybodaeth lawn am y cynnydd a wneir gyda blaenoriaethau'r Cyngor i’w chael ar dudalennau 10-25.

4. Rydym hefyd yn asesu cynnydd gan ddefnyddio ‘Gwiriwr Taith’ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n nodi ar ba gam y mae’r cynnydd - Asesir bod Hybu'r Economi a Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl ar gam "Perchnogi ein Huchelgais", ac asesir bod Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd a Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol yn "Arwain y Ffordd".

5. Asesir bod y cynnydd a wneir mewn saith allan o wyth Blaenoriaeth Llesiant y Cyngor yn "Wyrdd", hynny yw, wedi dechrau ac yn unol â’r targed. (Gwyrdd = wedi dechrau ac yn unol â’r targed; Amber = wedi dechrau ond ar ei hôl hi o ran y targed; Coch = heb ddechrau).

6. Arweiniodd adolygiad o'r Amcanion Llesiant yn 2020 at gyfres ddiwygiedig a oedd yn canolbwyntio ar ymateb ac adfer yn y tymor byr yn sgil pandemig COVID-19. Roedd hyn er mwyn diogelu a gwella lles pawb ar y pryd ac yn y dyfodol, yn enwedig trigolion mwyaf bregus Ceredigion.

7. Roedd yr adolygiad diwethaf o’r Amcanion Llesiant, ym mis Mehefin 2021, wedi dod i’r casgliad y byddai’r Amcanion hyn yn parhau i mewn i 2022/23 wrth i Geredigion, ynghyd â gweddill Cymru, barhau i gael ei gwynt ati yn dilyn y pandemig. Mae adolygiad llawn o’r Amcanion Llesiant i’w gael ar dudalennau 32-33.

# Ein Sir mewn Rhifau

## EIN POBLOGAETH

**72,895**
Pobl

**25.6%**
65+ oed

**4%**
Poblogaeth BAME*

**10%**
Gydag Anabledd

**7,700**
Myfyrwyr Prifysgol

**46.8 Years**
Oedran Cyfartalog

**47%**
Siaradwyr Cymraeg

**31,246**
Cartref

*BAME = Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

**33,434**
Annedd

**2,835**
Menterau Actif

**8,800**
Pobl hu-nangyflogedig

**42**
Cynghorwyr a 40 gwarchodaeth

**43**
Ysgol a 9,590 disgybl

**6**
Canolfan Hamdden

6 llyfrgell ac 1 ysbyty cyffredin

**2,265km**
o ffyrdd a 2,500km o lwybrau ceffylau a llwybrau cerdded

**74**
Man chwarae awyr agored gydag offer

## TWRISTIAETH YNG NGHEREDIGION

**96km**
o arfordir

**£403m**
cyfraniad i'r economi

**2.94m**
ymwelwyr blynyddol


**5,854**
swydd

# Ein Blaenoriaethau

Mae'r Cyngor wedi sefydlu meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella drwy brosesau hunanwerthuso parhaus, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ymgynghori, ffurfiol ac anffurfiol.  Mae polisïau a blaenoriaethau cenedlaethol hefyd yn sail i'w ddealltwriaeth.

Mae'r Asesiad o Lesiant Lleol hefyd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Blaenoriaethau Corfforaethol y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt hyd at 2022.

Bydd y Blaenoriaethau'n caniatáu inni ddarparu gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Ceredigion.







# Cyflawni'r Blaenoriaethau

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys Cynllun Gweithredu a llinell amser i gyflawni'r Blaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r perfformiad o ran ein Blaenoriaethau a'n Hamcanion Llesiant gan ddefnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed gennym hyd yma.

Mae'r diagram isod yn darlunio'r strwythurau llywodraethu sydd ar waith.




## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

STRWYTHUR RHEOLI:

**EIFION EVANS**
Prif Weithredwr

**BARRY REES**
Cyfarwyddwr Corfforaethol

**MEINIR EBBSWORTH**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Ysgolion

**ELIN PRYSOR**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Corfforaethol & Llywodraethu

**STEVE JOHNSON**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Cyllid & Chaffael

**ALUN WILLIAMS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Polisi, Perfformiad & Diogelu'r Cyhoedd

**RHODRI LLWYD**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

**RUSSELL HUGHES-PICKERING**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Economi ac Adfywio

# Ble mae'r Arian yn mynd?


Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ei gyllideb bob blwyddyn a thros y tair blynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r camau cyffredinol i reoli prif adnoddau'r Cyngor er mwyn iddo gyflawni ei amcanion.

Mae gwariant y Cyngor yn cefnogi cyflawni ei Strategaeth Gorfforaethol a'i Amcanion Llesiant. Er gwaethaf pandemig Covid-19 yn ystod 2020, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddangos awydd agored i wella gwasanaethau a buddsoddi mewn gwell adnoddau a chyfleusterau.

Er mwyn cwrdd â'r heriau cyllidebol mae'n wynebu, mae'r Cyngor yn parhau i weithredu effeithlonrwydd wrth gefn, datblygu dulliau cyflenwi amgen tra hefyd yn cynnal gwasanaethau.

Mae'r siart a ganlyn yn nodi'r gwariant a ragwelir ar wasanaethau yn 2020/21:

## Gwariant Gwasanaethau 2020/21



| | | |
|---|---|---|
| Ysgolion | **32%** | £48.86m |
| Porth Cynnal | **15%** | £21.95m |
| Cyllid a Chaffael | **14%** | £20.86m |
| Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | **11%** | £16.31m |
| Porth Gofal | **7%** | £10.24m |
| Grŵp Arweiniol | **5%** | £6.94m |
| Cyswllt Cwsmer | **4%** | £5.45m |
| Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn | **3%** | £4.48m |
| Gwasanaethau Democrataidd | **3%** | £3.96m |
| Economi ac Adfywio | **2%** | £3.28m |
| Porth Cymorth Cynnar | **2%** | £3.16m |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | **1%** | £2.18m |
| Pobl a Threfniadaeth | **1%** | £2.01m |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | **1%** | £1.48m |

**CAROLINE LEWIS**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro**

**DONNA PRITCHARD**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Gofal

**ELEN JAMES**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Cymorth

**SIAN HOWYS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Cynnal

**ARWYN MORRIS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Cyswllt Cwsmer

**LOWRI EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Democrataidd

**GERAINT EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Pobl & Threfnidiaeth

# Hybu’r Economi

Mae Ceredigion yn sir hyderus, ddeniadol, lle mae llawer o’n pobl yn ffynnu ac yn datblygu, lle mae nifer wedi sefydlu busnesau llewyrchus a llwyddiannus, a lle sy’n denu nifer fawr o ymwelwyr. Mae gennym aer glân, lefelau gwych o fioamrywiaeth, a thirwedd naturiol sy’n destun edmygedd.

Mae ein maint a’n lleoliad yn golygu ein bod yn wynebu heriau o ran tyfu’r economi leol, ond ar yr un pryd, mae llawer o gyfleoedd y gallwn fanteisio’n llawn arnynt o ran rhoi’r sir mewn sefyllfa i addasu i ddyfodol carbon isel a digideiddio cynyddol.

Un o’r heriau hyn yw’r nifer o bobl ifanc sy’n gadael y sir, yn rhannol oherwydd y gostyngiad yn y nifer o swyddi sector cyhoeddus, sydd bob amser wedi bod yn rhan bwysig o economi Ceredigion.

Oherwydd hyn, her arall yw cynyddu maint, amrywiaeth a chydnerthedd y sector preifat yng Ngheredigion. Mae angen inni weld mwy o fusnesau’n cael eu sefydlu, a mwy o’n busnesau micro a bychan yn tyfu.

Ar ben hynny, mae angen i economi Ceredigion addasu i heriau allweddol yng ngoleuni penderfyniad y DU i adael yr UE, ac yn dilyn hynny, pandemig COVID-19 sy'n parhau i gael effaith sylweddol ar ein heconomi ac effaith ariannol ar ein dinasyddion. Wrth i'n hymdrechion adfer i gefnogi busnesau barhau, bydd ein hamcan Llesiant ar gyfer y Flaenoriaeth Gorfforaethol hon am weddill 2021/22 ac i mewn i 2022/23 yn parhau i fod:

> “ ***Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19*** ”

## Gweledigaeth ar y Cyd Tyfu Canolbarth Cymru


Llwyddodd Bargen Twf Canolbarth Cymru, a ddatblygwyd o'r Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, i gyflawni carreg filltir arwyddocaol ym mis Rhagfyr 2020 wrth i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chynghorau Ceredigion a Phowys lofnodi Penawdau'r Telerau. Cytunodd y ddwy lywodraeth ddarparu £55m yr un dros gyfnod o 15 mlynedd ar gyfer rhanbarth cyfan Tyfu Canolbarth Cymru.

Bydd partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn symud ymlaen i'r cynigion manylach nawr ar ffurf Achos Busnes Portffolio, a gaiff ei gwmpasu o wyth maes blaenoriaeth: Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod, Cysylltedd Digidol, Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi, Ynni, Hunaniaeth Twristiaeth wedi'i Chryfhau, Cefnogi Menter, Trafnidiaeth, Sgiliau a Chyflogaeth. Mae'r Fargen Twf yn cynnig cyfle allweddol er mwyn helpu i roi Hwb i Economi Ceredigion.

Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan y Cyngor dros y 15 mlynedd, a disgwylir elw o'r buddsoddiad hwnnw. Mae gan y Fargen Twf y potensial i gyflawni rôl sylfaenol yn adferiad economaidd rhanbarth Canolbarth Cymru ar ôl COVID, a llwyddwyd i sicrhau cynnydd da tuag at gyflawni hyn yn ystod 2020/21, ac ynghyd â datblygiad prosiect i greu swyddi a thwf economaidd yn ein Sir, bydd yn amser cyffroes i ddatblygiad economeg y rhanbarth.

| Hirdymor | Atal | Cydweithio | Cynnwys | Integreiddio |
|---|---|---|---|---|
<tr><td>Cam Gweithredu 1.4</td><td>Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd (sy'n croesawu ceisiadau gan bobl anabl ac yn ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle).</td><td>Swyddog Arweiniol<br><br>Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth</td><td>BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd<br><br>GWYRDD</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniadau: Mwy o benodiadau wedi eu cofnodi fel rhai sydd ag anabledd.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnydd hyd yma: Mae'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd wedi cael ei weithredu ac yn rhan sefydledig o weithdrefnau recriwtio'r Cyngor ac wedi'i gynnwys ym modiwl gorfodol Hyfforddiant Rheolwyr Ceredigion - Recriwtio a Dethol.</td></tr>
<tr><td>Cam Gweithredu 1.5</td><td>Byddwn yn cefnogi gweithwyr sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth trwy fabwysiadu'r chwe maes gweithredu o dan yr adroddiad 'Gwahaniaethu yn erbyn Beichiogrwydd a Mamolaeth yn y Gweithlu: Argymhellion ar gyfer Newid.'</td><td>Swyddog Arweiniol<br><br>Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth</td><td>BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd<br><br>OREN</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniadau: 6 maes gweithredu wedi eu mabwysiadu.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnydd hyd yma: Gwnaethpwyd cynnydd cyfyngedig ar y cam gweithredu hwn o ganlyniad i bandemig Covid-19.<br><br>Mae asesiad risg diwygiedig wedi cael ei gyflwyno i adlewyrchu canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fenywod beichiog a'r gweithle.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.6** | Byddwn yn cynnig, lle y bo'n briodol, gweithio'n hyblyg a rhan-amser i gefnogi rhieni a gofalwyr. Byddwn yn diwygio ein polisïau ar weithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Polisïau gweithio'n hyblyg a gweithio ystwyth diwygiedig wedi eu gweithredu.

**Cynnydd hyd yma:**

- Addasiadau dros dro wedi cael eu gwneud i'r cynllun gweithio'n hyblyg o ganlyniad i'r orfodaeth i weithio gartref yn ystod pandemig Coivd-19 i gefnogi rhieni a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Ymgynghorwyd â'r undebau llafur ar Bolisi Gofalwyr a chaiff y polisi ei gyflwyno i'w gymeradwyo ar ddechrau 2021/22.
- Bydd gwaith ar y Polisi Gweithio Ystwyth a dadgyfuno Polisi Cydbwysedd Rhwng Bywyd a Gwaith yn dechrau fel rhan o'r rhaglen dychwelyd i'r swyddfa ar ôl Covid.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.7** | Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda'n contractwyr i gynnwys buddion cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Mark Gleeson Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**Oren** |

**Canlyniadau:** Llai o wahaniaethu rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau. Mwy o brentisiaid Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac anabl.

Draft

**Cynnydd hyd yma:** Mae polisi'r Cyngor ar fuddion cymunedol a chanllawiau i dendrwyr ar gyfer nodi buddion cymunedol yn eu cynigion yn datgan, "Wrth ddewis prentisiaethau/lleoliadau gwaith neu gyflenwi cynlluniau Buddion Cymunedol rhaid i gontractwyr beidio â gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, sipsiwn a theithwyr, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil neu anabledd. At hynny, rhaid i gontractwyr roi sylw dyledus i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r bobl a'r cynlluniau hyn.'

**Buddion cymunedol ehangach** (lle gall contractwyr gynnig darparu buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol yn uniongyrchol i'r gymuned lle mae eu prosiect yn gweithredu). Mae'r rhain wedi eu categoreiddio fel:

- Cymuned
- Addysg
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (h.y. cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sy'n targedu grwpiau anodd eu cyrraedd (NEET hirdymor, anabl, lleiafrifoedd ethnig)
- Amgylcheddol

Gweler y gwerthusiadau tendro canlynol:

- Contract safle Gwastraff Cartrefi Cilmaenllwyd (Penparc, Aberteifi) - contract wedi dechrau 01/03/21 - contract wedi ei lunio gyda chyswllt Buddion Cymunedol. Y prif gynnig yw ar gyfer lleoliadau profiad gwaith sydd wedi eu hatal dros dro ar hyn o bryd oherwydd Covid.
- Fframwaith Ymgynghoriaeth Peirianneg Rhanbarthol (wedi ei gadeirio gan Gyngor Sir Caerfyrddin).
- Contract safle Gwastraff Cartrefi Glan Yr Afon (i ddechrau 01/05/21).
- Contract Gwastraff Deunyddiau Eildro Sych Cymysg (i ddechrau 01/06/21 yn amodol ar osod contract)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.8** | Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol a Thryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi, er enghraifft, gwarchod yn erbyn contractau cyflogaeth ansicr a sicrhau hawliau gweithwyr. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Debbie Ayriss Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mwy o Sesiynau Caethwasiaeth Fodern wedi cael eu darparu, mwy o staff wedi eu mynychu.

Mwy o sesiynau Masnachu Plant a Phobl wedi cael eu darparu.

**Cynnydd hyd yma:** Cafodd hyfforddiant ei atal dros dro oherwydd Covid.

**Amcan 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn.**

**Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.1** | Byddwn yn gweithio gyda'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gefnogi Ceredigion gyda chymunedau cydlynus. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Kay Howells Cydlyniant Cymunedol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Fframwaith Cydlyniant Cymunedol i'w ddatblygu a'r canlyniadau i'w cyflawni.

**Cynnydd hyd yma:**

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn un o 8 tîm rhanbarthol ar draws Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Y nod yw cynnig dull cyson ar gyfer cydlyniant ar draws Cymru. Mae'r tîm yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu blynyddol ac wedi cwblhau'n foddhaol y camau gweithredu a sefydlwyd ar gyfer 2020/21. | | | |
| **Cam Gweithredu 2.2** | Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau adrodd a chymorth. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Naomi McDonagh Polisi a Pherfformiad a Kay Howells Cydlyniant Cymunedol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:** Mwy o sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb wedi cael eu darparu.<br><br>Mwy o staff wedi eu mynychu. | | | |

**Cynnydd hyd yma:**

**Mae'r tîm yn parhau i weithio gyda phartneriaid i annog pobl i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac adrodd amdanynt.**

Cafodd Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ei chynnal rhwng 10 a 17 Hydref 2020. Nod yr wythnos oedd codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ac annog pobl i adrodd am hyn os ydynt yn ei weld neu'n dyst iddo. Roedd y Tîm Cydlyniant yn rhan o weithgor rhanbarthol i sicrhau bod mentrau yn cael eu cydlynu a'u mapio ar galendr lleol. Roedd partneriaid yn cynnwys OPCC, Heddlu Dyfed Powys, Cymorth i Droseddwyr, Cyngor Hil Cymru a'r Tîm Cydlyniant. Cymerodd y Tîm Cydlyniant yr awenau ar sawl menter ranbarthol.

- Cystadleuaeth Celf ar gyfer Plant Ysgol Gynradd. Mae ysgolion ar draws y rhanbarth yn cael eu gwahodd i ddylunio baner yn dathlu amrywiaeth. Cafodd y manylion eu rhannu ar yr Hyb fel rhan o adnodd dysgu ar-lein wedi ei baratoi gan Gymorth i Ddioddefwyr.
- Ffilm Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb un funud. Cafodd y ffilm ei rhannu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd aelodau'r cyhoedd eu gwahodd i wylio'r ffilm ac yna cymryd rhan mewn cwis byr ar droseddau casineb gyda chyfle i ennill iPad a thalebau siopa. Cafodd y prosiect ei ddatblygu gan dîm Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i gyflwyno ar draws Cymru gan yr holl dimau Cydlyniant. Ymatebodd 516 o

Draft

bobl i'r cwis, a nododd 72 ohonynt eu bod yn dod o Geredigion. Roedd OPCC wedi rhedeg fforwm ieuenctid ar 13 Hydref, a chafodd ffilm y tîm Cydlyniant ei dangos yno hefyd. Cynhaliodd Cyngor Hil Cymru ddigwyddiad lansio ar ddydd Sadwrn 10 Hydref. Siaradodd y Cydlynydd am y gwaith sy'n cael ei wneud ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn Nyfed Powys gan fanteisio ar y cyfle i ddangos y ffilm un funud.

Hyrwyddodd y tîm ymgyrch *Mae Casineb yn Brifo Cymru* Llywodraeth Cymru i helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o droseddau casineb ac annog pobl i adrodd amdano. Mae'r ymgyrch wedi cael ei datblygu gyda mewnbwn gan randdeiliaid a phrofiadau go iawn o achosion o droseddau casineb a gafodd eu herlyn i ddangos yr effaith niweidiol y mae troseddau casineb yn ei chael ar unigolion ac ar ein cymdeithas yn gyffredinol. Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbysebu ar y teledu yn ogystal â'r sianeli digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Gweler gov.wales/hate-hurts-wales i gael rhagor o wybodaeth.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r tîm cydlyniad Cymunedol gydweithio â'r 4 awdurdod lleol a gefnogwn i ystyried ymuno ag Ymgyrch Dim Goddefgarwch tuag at Hiliaeth Cyngor Hil Cymru. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymuno a chynhaliwyd digwyddiad lansio ar ddydd Sul 21 Mawrth 2021 i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar sail Hil.

**Hyfforddiant Troseddau Casineb i Ysgolion**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyflwyno hyfforddiant wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ysgolion. Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu ar draws Cymru er mwyn i ysgolion ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol mewn perthynas â Throseddau Casineb. Ar ôl y saib oherwydd Covid bydd yr hyfforddiant bellach yn digwydd rhwng Mawrth 2021 - Mawrth 2022. Mae 6 ysgol wedi cael eu nodi yng Ngheredigion fel rhai a fydd yn derbyn yr hyfforddiant hwn gyda'r posibilrwydd y bydd 2 ysgol arall yn ymuno yn dilyn yr adnoddau ychwanegol a dderbyniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Hyfforddiant Troseddau Casineb**

1 sesiwn wedi ei chanslo oherwydd amgylchiadau arbennig (Covid).

Cysylltu Cyngor Ceredigion a hyfforddiant Troseddau Casineb/Troseddau Cyfeillio sy'n cael ei ddarparu gan Gymorth i Ddioddefwyr. 27 aelod o staff wedi mynychu Hyfforddiant Troseddau Casineb/Troseddau Cyfeillio yn ystod y cyfnod hwn.

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.3** | Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith i gynyddu adroddiadau am gam-drin domestig i'r gwasanaeth Goleudy (Cymorth i Ddioddefwyr), | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Sian Howys Porth Cynnal / Amy Taylor Cydlynydd Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o staff wedi cwblhau e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br><br>Mwy o sesiynau Gofyn a Gweithredu wedi eu cwblhau. | | | |
| **Cynnydd hyd yma: 290 o aelodau staff wedi cael hyfforddiant Gofyn a Gweithredu.** | | | |
| **Cam Gweithredu 2.4** | Byddwn yn monitro ac yn ymateb i densiynau cymunedol sy'n gysylltiedig â phroses Brexit. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Timothy Bray Polisi a Pherfformiad a Kay Howells Cydlyniant Cymunedol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o ymyraethau a leihau gwrthdaro. | | | |

| |
|---|
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Rydym yn monitro tensiynau cymunedol yn gyffredinol ac mewn perthynas â phroses Brexit mewn sawl ffordd:<br><br>**Monitro Tensiynau** - Mae monitro tensiynau wythnosol yn parhau gyda phartneriaid yn ymuno â'r galwad gan Heddlu Dyfed Powys, Prifysgol Aberystwyth, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, Cyngor Hil Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, adrannau gwahanol o fewn yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Rheolwr Diogelwch Cymunedol, tai a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r tîm Cydlyniant a phartneriaid wedi nodi a lleddfu'n llwyddiannus amrywiaeth o densiynau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cyfathrebu'n berthnasol ynghylch tanau gwyllt, rhannu cuddwybodaeth ynghylch symudiadau protestio a llunio datganiad i'r wasg ar y cynnydd mewn graffiti asgell dde/hiliol yn Aberystwyth.<br><br>**Ymchwil Cydlyniant Cymunedol -** Yn 2020 roedd y tîm wedi rhoi tendr i gwmni ymchwil gwblhau prosiect ymchwil wedi ei anelu i gychwyn ar yr effaith y gallai Brexit a Covid ei chael ar gymunedau yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Pwrpas hyn oedd darparu sylfaen dystiolaeth, gan nodi'r mannau problemus posibl yn y gymuned, tensiynau a phroblemau yn arbennig y rhai yn codi o refferendwm Brexit yn 2016 a'i effaith ddilyniannol ar gydlyniant cymunedol yn y blynyddoedd dilynol. Roedd y fethodoleg yn cynnwys adolygu llenyddiaeth a data, arolwg ar-lein gyda sefydliadau ac asiantaethau allweddol, cyfweliadau ffôn manwl â rhanddeiliaid allweddol, grwpiau ffocws gyda chymunedau â diddordeb megis BAME, Ffoaduriaid, LGBQT+, pobl ag anableddau, y gymuned sipsiwn a theithwyr, Dinasyddion yr UE, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a rhai grwpiau cymysg. Mae'r argymhellion yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol ar gyfer 2021-22.<br><br>Mae'r tîm Cydlyniant yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd chwarterol grŵp llywio'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE o fewn Cyngor Sir Ceredigion, CSP/CONTEST/SVOC, cyfarfod Adsefydlu Ffoaduriaid Ceredigion a chyfarfod o Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr. |

| **Cam Gweithredu 2.5** | Byddwn yn cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yng Ngheredigion at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd y Swyddfa Gartref a darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Kay Howells Cydlyniad Cymunedol ac Arwyn Morris Cyswllt Cwsmeriaid** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
|---|---|---|---|

Tudalen 170

**Canlyniadau:** Mwy o ddinasyddion yr UE sy'n preswylio yng Ngheredigion ac yn gwneud cais i'r cynllun.

**Cynnydd hyd yma:**

Grŵp Cynllun Adsefydlu UE Ceredigion yn cydlynu'r gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod cynifer o Ddinasyddion yr UE â phosibl yng Ngheredigion yn gwneud cais i'r cynllun. Hyd at Fawrth 2021, cafodd 2,110 o geisiadau eu derbyn a'u cwblhau gan unigolion sy'n gweithio ac yn byw yng Ngheredigion, i fyny dros 500 ers y diweddariad chwarterol blaenorol.

Mae'r gwaith a sefydlwyd gan y tîm Cydlyniant yn cynnwys:

- Ymgyrchoedd radio naw mis ar draws 4 gorsaf radio
- Mae'r tîm wedi cael cyfarfodydd rheolaidd dros Skype â phartneriaid trydydd sector sy'n ymwneud â hyrwyddo a chefnogi EUSS. O hyn, cafodd hyfforddiant ar-lein ei ddatblygu i hyrwyddo'r cynllun (ei redeg yn rhithiol o Dachwedd 2020 - Mawrth 2021). Mae'r hyfforddiant wedi ei anelu at staff rheng-flaen sy'n gallu cyfeirio ymgeiswyr at gymorth trwy'r cynllun. O leiaf 15 o aelodau staff o Gyngor Ceredigion wedi mynychu.
- Neges fisol ar y cyfryngau cymdeithasol gan yr Awdurdod Lleol.
- Datganiad i'r wasg gan yr Awdurdod Lleol
- Cyswllt uniongyrchol trwy'r ebost â chyflogwyr lleol (cartrefi gofal, manwerthu, twristiaeth, amaethyddiaeth ac ati).
- Gohebiaeth â'r ysgolion (rhieni) trwy offer megis Parent Mail.
- Cyflwyniadau i grwpiau allweddol megis Rheolwyr Cartrefi Gofal a Chynghorau Cymuned.
- Swyddogion wedi gweithio gyda'r Tîm Troseddau Gwledig yn darparu sesiynau briffio EUSS trwy Skype, gan arwain at negeseuon allweddol yn cael eu hanfon trwy eu rhwydweithiau Facebook a Twitter i gymunedau ffermio penodol sy'n cyflogi gweithwyr o'r UE.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.6** | Byddwn yn parhau i weithredu'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus flynyddol yn y cyfryngau. Gallai enghreifftiau gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, a Diwrnod Cofio'r Holocost. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Tîm Cyfathrebu / Kay Howells** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd** |

Draft

| | | | GWYRDD |
|---|---|---|---|

**Canlyniadau:** Mwy o ymgyrchoedd wedi eu cynnal.

**Cynnydd hyd yma:**

Mae'r tîm Cyfathrebu wedi cynnal ystod eang o ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn. Cafodd dros 30 o ymgyrchoedd eu cefnogi mewn amrywiaeth o feysydd trwy ddatganiadau i'r wasg a Chynghorwyr, rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, a hefyd y tîm adnoddau dynol i'w rhannu'n fewnol gyda staff. Cafodd nifer yr ymgyrchoedd a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ei effeithio gan bandemig y coronafeirws.

Mae'r tîm Cydlyniant yn cefnogi calendr blynyddol o ddiwrnodau ac ymgyrchoedd cenedlaethol, gan gydweithio'n agos â'r tîm Cyfathrebu i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth a nodi digwyddiadau hanesyddol penodol. Yn ystod 2020/21 hyrwyddodd a chefnogodd y tîm nifer o ymgyrchoedd gan gynnwys:

- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (gweler 2.2).
- Mis Hanes Pobl Dduon - rhannu cyfryngau cymdeithasol ar raglen ddogfen ITV yn archwilio sut beth yw hi i fod yn Gymro/Gymraes ac yn ddu.
- Diwrnod Cofio'r Holocost - negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor.
- Mis Hanes LGBT - postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor.
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod - rhannu cyfryngau cymdeithasol ar brosiect wedi ei ariannu gan y tîm Cydlyniant o'r enw Wynebau a Lleoedd.
- Wythnos Ffoaduriaid - cyfryngau cymdeithasol.

Mis Hanes Sipsiwn a Theithwyr - cystadleuaeth ffotograffiaeth yn edrych ar fywyd yn ystod y cyfnod clo (ar y cyd â Travelling Ahead).

**Amcan 3: Ymgysylltu a Chyfranogi**

**Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.**

Draft

<table>
<tr><td>Cam Gweithredu 3.1</td><td>Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.</td><td>Prif Swyddogion<br><br>Michael Smith Polisi a Pherfformiad a'r holl feysydd gwasanaeth i'w weithredu</td><td>BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd<br><br>OREN</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniadau: Yr ymgysylltu yn ystyrlon. Pobl yn cymryd rhan ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau - Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnydd hyd yma: Roedd yn flwyddyn anodd o ran ymgysylltu gydag amrywiaeth o fesurau Covid-19 yn eu lle oedd wedi effeithio ar ymgysylltu. Fodd bynnag, cafodd nifer o ymarferion ymgysylltu eu cynnal, gan gynnwys Parthau Diogel Canol Trefi, ymgynghori ar y Strategaeth Economaidd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Harbwr Aberaeron.<br><br>Mae'n bosib y bydd adroddiadau blynyddol ymgysylltu yn dechrau'r flwyddyn nesaf os yw'r Polisi Ymgysylltu yn cael ei fabwysiadu.</td></tr>
<tr><td>Cam Gweithredu 3.2</td><td>Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu ein Polisi Ymgysylltu.</td><td>Swyddog Arweiniol<br><br>Michael Smith Polisi a Pherfformiad</td><td>BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd<br><br>GWYRDD</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniadau: Y Polisi Ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi a'i weithredu. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnydd hyd yma: Disgwylir i'r Polisi Ymgysylltu drafft, 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd' fynd trwy'r broses wleidyddol yn ystod 2021-22. Mae dogfen ddrafft gyntaf wedi cael ei gynhyrchu</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.3** | Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Nia Jones Gwasanaethau Democrataidd/ Gwion Bowen Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Targedau penodol wedi eu cyhoeddi mewn Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc 2018-21. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.<br><br>Rhaglen e-ddysgu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei datblygu, a disgwylir ei lansio i'r staff yn 2020 | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i weithredu'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc ac e-ddysgu. Mae cynnydd wedi cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.4** | Byddwn yn cefnogi'r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn arbennig i fenywod, pobl anabl neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Glynis Davies Gwasanaethau Etholiadol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Mwy o fenywod, pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli. | | | |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i gefnogi rhaglenni a chynlluniau cenedlaethol i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.5** | Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed os yw'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru. | **Arweiniol Swyddogion**<br><br>**Glynis Davies Gwasanaethau Etholiadau / Gwion Bowen Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Dull wedi ei dargedu at hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio Cyngor Ieuenctid Ceredigion, Chweched Dosbarth Ysgolion Uwchradd, sefydliadau Addysg Bellach, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Fforymau Plant a Phobl Ifanc a Chyfryngau Cymdeithasol Gwasanaethau Ieuenctid. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth leol i bobl ifanc, gan gysylltu â rhaglenni cenedlaethol. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.6** | Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |



Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:** 4 cyfarfod agored y flwyddyn a 4 cyfarfod â CSC. Mae llais pobl anabl yn cael ei glywed ac yn ddylanwadol. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cafodd cyfarfodydd eu heffeithio gan bandemig y coronafeirws ac maent wedi symud erbyn hyn i fideo-gynadledda ar-lein. Cyfarfu'r Fforwm Anabledd bedair gwaith i drafod Parthau Diogel Canol Trefi. Rhoddodd aelodau'r Fforwm adborth dylanwadol ar y Parthau Diogel. Cynhaliwyd un cyfarfod cyffredinol o'r Fforwm hefyd. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.7** | Byddwn yn cynnal y dudalen cydraddoldeb ar wefan y Cyngor i gyfeirio at wybodaeth berthnasol a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adroddiadau. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Tudalen Cydraddoldeb wedi ei diweddaru ar wefan CSC. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cafodd y dudalen Cydraddoldeb ei diweddaru gan gynnwys cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.8** | Byddwn yn monitro cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad a'r holl feysydd gwasanaeth i'w weithredu** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Nifer y camau gweithredu glas a gwyrdd yn erbyn cyfanswm y camau gweithredu.

**Cynnydd hyd yma:** 2020/21 oedd blwyddyn gyntaf *'Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24'.* Adlewyrchir hyn yng ngweithrediad y cynllun, gyda'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu ar y gweill ac ar y trywydd iawn (39 o gamau gweithredu gwyrdd). Mae 14 o gamau gweithredu yn oren ac ychydig ar eu hôl hi, yn rhannol oherwydd effeithiau pandemig Covid-19, ond y nod yw eu cyflenwi dros gyfnod pedair blynedd y cynllun. Mae un cam gweithredu yn las ac wedi ei gwblhau. Nid oes unrhyw gamau gweithredu coch sydd heb eu dechrau neu gyda phryderon na chânt eu cyflawni.

Camau gweithredu glas a gwyrdd = 1 +30

Cyfanswm camau gweithredu = 54.

Cynnydd = 40 / 54 x 100 = 74%

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.9** | Byddwn yn adolygu'r broses Asesiad Effaith Integredig. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Proses Asesiad Effaith Integredig ddiwygiedig wedi ei gweithredu.

**Cynnydd hyd yma:** Cafodd diwygiad dros dro i'r Asesiadau Effaith Integredig ei wneud er mwyn darparu ar gyfer dechrau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Disgwylir gwneud diwygiad cyffredinol yn 2021-22.

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.10** | Byddwn yn monitro ac yn cynghori ar Asesiadau Effaith Integredig. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**Oren** |

**Canlyniadau:** Nifer yr Asesiadau Effaith Integredig ar y safon ofynnol a gyflwynwyd gyda Phapurau Cabinet / cyfanswm yr Asesiadau Effaith Integredig sy'n ofynnol x 100 = A%.

**Cynnydd hyd yma:** Roedd llai o Asesiadau Effaith Integredig y flwyddyn hon oherwydd lleihad yn nifer y cynigion sy'n mynd i'r Cabinet oherwydd pandemig y coronafeirws. Cafodd 29 o Asesiadau Effaith Integredig eu cyflwyno, ac o'r rhain roedd 41% ar y safon ofynnol. Rhoddwyd adborth ar 59% o'r Asesiadau Effaith Integredig yr oedd angen rhoi sylw iddynt er mwyn i ddiwygiadau gael eu gwneud.

12 / 29 x 100 = 41%

Canlyniadau 2020-21: 41%

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.11** | Darparu cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau’r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, a chynyddu argaeledd a safon y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Carys Morgan Gwasanaethau Democrataidd** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg.

**Cynnydd hyd yma:** Wedi darparu cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau’r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg trwy fonitro a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.12** | Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anableddau Dysgu Dream Team. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Pob un** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Canlyniadau gwell i bobl ag anableddau dysgu. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mabwysiadu'r Siarter yn parhau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 4: Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau.**<br><br>**Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.** | | | |
| **Cam Gweithredu 4.1** | Byddwn yn hwyluso mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth trwy'r Porth Cymorth Cynnar, gan gynnwys Dewis a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddwn hefyd yn darparu sesiynau technoleg hygyrch a chymunedau sy'n deall dementia. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Cyra Shimell / Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

**Canlyniadau:** Mwy o bobl yn cael eu cynorthwyo.

Mwy o sesiynau deall dementia yn cael eu darparu.

**Cynnydd hyd yma:** Dim sesiynau deall dementia wedi eu cynnal ers y cyfnod clo cyntaf, fodd bynnag, rydym wedi cynnal nifer o sesiynau Cysylltu â Charedigrwydd ar-lein.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.2** | Byddwn yn darparu cymorth wedi ei dargedu megis y prosiectau "Cynllun Cyfeirio" ac "Ymuno" er mwyn i blant ag anghenion ychwanegol allu mynychu gweithgareddau prif ffrwd. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Porth Cymorth Cynnar / Cathryn Morgan** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Cynnal y gyfradd dychwelyd holiaduron ar 50%, a chynnal cyfradd gwasanaeth da neu uwch ar 84%.

**Cynnydd hyd yma:** Rydym yn talu am hyfforddiant, cymorth a staff ychwanegol er mwyn i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol allu mynychu lleoliadau plant prif ffrwd. Mae'r 'Cynllun Cyfeirio' yn cefnogi plant cyn-ysgol ac mae 'Ymuno' ar gyfer plant oedran ysgol. Gwelwyd lleihad yn nifer y ceisiadau am gymorth, yn rhannol oherwydd nad oedd pob lleoliad ar agor ac yn rhannol oherwydd bod rhieni am leihau'r cysylltiad yr oedd y plant mwy agored i niwed hyn yn ei gael ag eraill.

Cafodd 131 o blant cyn-ysgol eu cefnogi gan y Cynllun Cyfeirio y flwyddyn hon. Gadawodd 61 o blant y cynllun yn ystod y flwyddyn, gadawodd nifer yn sydyn yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym Mawrth 2020 ac yna aethant i'r ysgol ym mis Medi; ni chafodd ffurflen werthuso ei hanfon atynt. Roedd y darparwr (Mudiad Meithrin) wedi llwyddo i anfon y ffurflen trwy'r e-bost at 13 o rieni; dim ond 4 (31%) oedd wedi ymateb. Dywedodd 100% o'r rhain bod y cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plant/teulu a bod y cynllun yn cynnig modd i'r lleoliad gynnwys eu plentyn ym

mhob agwedd ar y Cylch. Fodd bynnag, dywedodd 25% nad oedd digon o gyfle ganddynt i drafod anghenion y plentyn gyda'r gweithwyr proffesiynol, ac nid oeddent yn teimlo bod yr wybodaeth a gawsant am ddatblygiad eu plentyn yn ddigonol.

Dim ond 1 plentyn gafodd cymorth gan gynllun Ymuno i fynychu lleoliad prif ffrwd y tu allan i'r ysgol. Dychwelodd y rhiant hwn yr holiadur (ymateb 100%) gan ddweud bod y ddarpariaeth wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r teulu, a bod ei blentyn wedi elwa o'i fynychu, ac ni fyddai wedi gallu mynychu heb y cymorth. Gweithiodd y darparwr (DASH Ceredigion) gyda'r Tîm Plant Anabl i ddarparu cymorth 1:1 a chynllun chwarae arbenigol i blant anabl sydd ag anghenion cymhleth. Roeddent wedi gweithio gyda'r Uned Gofal Plant hefyd i gynnig hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o anabledd cudd i staff mewn lleoliadau gofal plant prif ffrwd.

**Adborth gan rieni:**

Cael cymorth ychwanegol ar gyfer fy mhlentyn sydd â phroblemau ymddygiad, mae'r bobl hyn yn gallu rhoi yr hyn y mae ei angen ar fy mhlentyn ac maen nhw yn brofiadol. Mae ei addysg a'i ymddygiad wedi gwella ychydig bach ac rwy'n credu bod hyn oherwydd y cymorth ychwanegol y mae'n ei gael trwy'r feithrinfa. *(Cynllun Cyfeirio)*

Bues i'n ffodus iawn i ddewis y feithrinfa y mae fy mhlentyn yn mynd iddi, roedd yr Arweinydd wedi sylwi ar ymddygiad fy mhlentyn yn gyflym iawn ac wedi bod yn gefn i'r ddau ohonom, ond i'm plentyn yn bennaf. Mae'n cael yr addysg y mae'n haeddu ei chael ac sydd ei hangen arno. Rwy'n ddiolchgar iawn yn arbennig i Ms Jones am ei phrofiad a'r ffordd y mae wedi helpu fy nheulu. (*Cynllun Cyfeirio*)

Allwn ni ond diolch i chi am y cariad, y cymorth a'r anogaeth rydych wedi eu rhoi i'n plentyn. Rydym wedi teimlo ei bod yn cael y gofal gorau, yn enwedig gyda'i halergeddau a'i chroen, ac mae hyn i'w weld yn ei hapusrwydd yn yr Ysgol Feithrin. Mae wedi gwneud cymaint o gynnydd ac mae ei Chymraeg yn wych *(Cynllun Cyfeirio).*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.3** | Byddwn yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd sy'n ateb eu hanghenion (Cyfathrebu Cyflawn, Creative Lifestyle Solutions, Llond Bol a Chanolfan Cymorth Cymunedol). | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Nerys Lewis Porth Gofal a Gillian Evans Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:** Mwy o bobl wedi cael mynediad i'r gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae carfan gyntaf Camu 'Mlaen wrthi'n cwblhau eu blwyddyn gyntaf. Bydd adolygiad partneriaeth o'r flwyddyn yn cael ei gwblhau a bydd hyn yn cynnwys archwilio ymhellach mynediad a'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth gyda chynllun wedi ei ddatblygu i wella eiriolaeth ble a phan fydd ei angen. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.4** | Byddwn yn datblygu manyleb a thendr ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth newydd ar gyfer anableddau dysgu, iechyd meddwl a phobl hŷn. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**George Ryley a DSS Contracts and Commissioning Porth Cynnal** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o bobl wedi cael mynediad i'r gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cytunwyd y bydd contract rhanbarthol newydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar baratoi'r tendr. Mae Cyngor Sir Penfro yn arwain y prosiect ac mae cynrychiolwyr o Gynghorau Sir Ceredigion a Chaerfyrddin hefyd ar y Grŵp Prosiect, ac yn rhoi mewnbwn ar ddatblygu'r fanyleb a dogfennau tendro eraill. Disgwylir i'r contract newydd fod yn ei le o Ionawr 2022. Yn ystod 2020/21 derbyniodd 48 o bobl newydd yng Ngheredigion wasanaethau eiriolaeth trwy drefniadau contract presennol Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol Ceredigion, gan gynnwys 8 yn ystod y chwarter diwethaf. Gall y ffigur hwn gael ei ddefnyddio fel mesur ar gyfer y flwyddyn nesaf a disgwylir i ffigurau'r chwarter olaf adlewyrchu'r contract rhanbarthol newydd. | | | |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.5** | Byddwn yn darparu amrywiaeth ddwyieithog o ddosbarthiadau ymyrraeth iechyd ym mhob ardal yn y sir, gan gynnwys cyflyrau cronig cymhleth ar gyfer clefydau'r galon, iechyd meddwl, rheoli poen, canser, atal cwymp, gan gynnwys y rhaglen hyfforddiant sadrwydd osgo o dan y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Dros 200 o ddosbarthiadau ymyrraeth iechyd wedi eu cynnal bob mis, pob un o fewn amser teithio 20 munud i bob cleient.

36,000 o Unedau Gweithgareddau y flwyddyn

Y rhaglen wedi ei seilio ar y cleient er mwyn meithrin arferion newid bywyd o ran cadw'n actif a llesiant iechyd meddwl.

**Cynnydd hyd yma:**

Oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo, mae'r Tîm Ymyrraeth Iechyd wedi bod yn cynnig cymorth trwy'r gwasanaeth Ffonio a Sgwrsio i fwy na 600 o gleientiaid sydd â phroblemau iechyd.

Mae dosbarthiadau rhithiol er mwyn i bobl barhau'n actif trwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, yn fyw ac wedi eu recordio ymlaen llawn, wedi cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn gyda nifer da yn cymryd rhan.

Prosiectau Cerdded er budd Lles rhithiol wedi cael eu cynnal yn ystod y cyfnod clo gyda chyfranogwyr yn cerdded cannoedd ar filoedd o filltiroedd lle maen nhw'n byw.

Llwyddiannus iawn

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.6** | Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned er mwyn ateb anghenion iechyd a thai sy'n addas i'r diben. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Nerys Lewis Porth Gofal** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Nodi nifer y gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o Brosiect Cylch Caron. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae prosiect Cylch Caron yn parhau ar gam datblygu Achos Busnes Llawn. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.7** | Byddwn yn datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ac yn gweithio ar sicrhau bod cyngor a gwasanaethau Opsiynau Tai yn hygyrch. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Llyr Hughes / Cerys Purches-Phillips Porth Gofal** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Lefelau boddhad gwell ymysg pobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Mae'r Gofrestr Tai Hygyrch a'r Polisi Tai Hygyrch wedi bod yn eu lle ers Mehefin 2016. O ganlyniad, mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gofrestr tai hygyrch ac yn derbyn cynigion yn dilyn hynny yn parhau i gynyddu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafodd nifer o dai eu rhoi i unigolion a theuluoedd sydd angen cartrefi hygyrch, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, y datblygiad newydd Maes Arthur lle roedd 3 o'r 33 o fflatiau newydd yn | | | |

Draft

hygyrch i gadeiriau olwyn.  Mae gwaith ar y gweill bellach i neilltuo 56 o fflatiau yng Nghynllun Gofal Maes y Môr a fydd hefyd yn gwbl hygyrch. Mae'r adroddiadau diweddaraf yn nodi bod 15% o geisiadau i'r Gofrestr Tai yn gofyn am ryw fath o eiddo hygyrch.  Y categorïau a gafodd eu cynnwys yw: cadair olwyn lawn/cadair olwyn rannol/angen llawr gwaelod/cartrefi am oes/uchafswm 3 gris/dim grisiau.

Mae mynediad i'r Gwasanaeth Opsiynau Tai ar gael yn ddwyieithog ac er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i gwblhau ffurflenni cais ar-lein, mae cyfleusterau ar gael i dderbyn ceisiadau dros y ffôn.  Mae gwefan Opsiynau Tai hefyd yn cynnig ieithoedd heblaw’r Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd ag opsiynau hygyrchedd ychwanegol megis testun yn unig/ffurf graffigol/darllen yn uchel a'r dewis i gynyddu maint y testun. Dros yr wythnosau diweddar, mae gwaith wedi cael ei wneud gan y tîm i sicrhau bod gwefan Opsiynau Tai yn hollol gydnaws ac yn bodloni gofynion newydd Canllawiau Hygyrchedd WCAG 2.1 AA, sef cyfres o argymhellion a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n diffinio sut i wneud cynnwys gwe yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau.

Er gwaethaf heriau Covid-19, mae gwasanaethau'r Gofrestr Tai a Digartrefedd wedi sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i weithredu'n ddiogel gyda chyngor priodol yn cael ei ddarparu o bell, a sicrhau nad yw unrhyw unigolion yn cael eu cosbi gan y newid yn y dull gweithredu.

Er na all y gwasanaeth gofnodi adborth trwy'r system TG ar hyn o bryd, mae adborth llafar yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, nid yw hwn yn gyfleuster adroddadwy.  Bydd cyfle yn y dyfodol i ddatblygu proses er mwyn monitro lefelau boddhad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.8** | Byddwn yn ystyried darparu mynediad i'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd sydd â phlant ifanc fel ran o unrhyw waith cynnal a chadw neu wella a wneir. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Gerwyn Jones Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella cysodfannau ac arosfannau bysiau ar hyd y llwybr T2/T5.

Rydym yn parhau i gefnogi a hwyluso menter Llywodraeth Cymru sy'n cynnig teithio am ddim i bawb ar y penwythnos ar rwydwaith TrawsCymru.

Draft

| |
|---|
| Mae'r ddwy fenter yn gwella hygyrchedd trwy gyfrwng gwella'r seilwaith a'r gwasanaeth. |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae pandemig byd-eang Covid-19 wedi cael effaith fawr ar y rhan fwyaf o agweddau ar fywyd. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yn achos y gofynion a'r galw am deithio sy'n cynnwys yr effeithiau sy'n codi o gyfyngiadau teithio a ffyrdd newydd neu wahanol o weithio a byw yn gyffredinol. Mae'r effeithiau hyn yn dilyn ac yn gysylltiedig â theithio rhyngwladol i deithio ar lefel leol.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi cydweithio'n agos â gweithredwyr bysiau llesol trwy gydol pandemig Covid-19 i gefnogi'r diwydiant a chynnal lefel graidd o wasanaethau gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yr un pryd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu asesiadau risg Covid-19 a gweithredu mesurau lleddfu rheolaeth gysylltiedig. Mae natur integredig rhwydweithiau bysiau yng Ngheredigion yn golygu bod y dull gweithredu hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer cludiant dysgwyr yn ogystal â'r gwasanaethau a'r cyfleoedd teithio sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol. Bu angen bod yn ddeinamig ac yn hyblyg yn ein hymateb i'r sefyllfa sy'n newid yn gyflym oherwydd Covid-19. Mewn hinsawdd gweithredu heriol o'r fath mae manteision mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu wedi dod i'r amlwg ac yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n gyffredinol.<br><br>Mae gwaith wedi parhau ar welliannau i gysodfannau ac arosfannau bysiau ar hyd llwybr T2/T5, gan gynnwys yr wybodaeth a ddarperir mewn cyfnewidfeydd allweddol gan gynnwys Porth Aberystwyth, Sgwâr Alban Aberaeron a Sgwâr Finch Aberteifi.<br><br>Mae'r Cyngor Sir yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r gweithredwyr bysiau i weinyddu a rheoli'r cyllid Cynllun Brys ar gyfer Bysiau sy'n esblygu. Cafodd hyn ei roi ar waith i gefnogi gweithredwyr a gwasanaethau yn ystod y pandemig ond hefyd wrth i ni symud tuag at fodel newydd ar gyfer y modd y darperir ac y rheolir gwasanaethau bysiau yng Nghymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi dechrau adolygu ac ailwampio rhwydweithiau bysiau Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.9** | Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella troetffyrdd a cherbytffyrdd (er enghraifft, cyrbiau is). | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Phil Jones Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mwy o welliannau i droetffyrdd sy'n rhoi sylw i faterion hygyrchedd.

**Cynnydd hyd yma:**

Mae hwn yn weithgarwch blynyddol parhaus. Mae mynediad i'r anabl (neu ddiffyg mynediad i'r anabl) yn faen prawf ar gyfer sgorio/asesu gwaith wrth lunio'r rhestr wedi ei blaenoriaethu o gynlluniau cynnal a chadw a/neu wella.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.10** | Byddwn yn parhau i weithredu ymgyrch Cymhennu Ceredigion i godi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y rhwystrau ar droetffyrdd yn ein trefi megis byrddau hysbysebu ffrâm A biniau ar olwynion. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Gerwyn Jones Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a phartneriaid** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

**Canlyniadau:** Mae Cyhoeddiadau Ceredigion Dim Sbwriel yn cael eu rhannu/eu cyhoeddi ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn rheolaidd sy'n darparu ar gyfer codi ymwybyddiaeth barhaus.

**Cynnydd hyd yma:**

Byddai sbwriel 'preifat' anghyfreithlon (nid dodrefn stryd) yn cael ei ystyried yn drosedd rhwystro oni bai ei fod wedi ei drwyddedu/ei gymeradwyo.

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.11** | Byddwn yn cynnal archwiliadau hygyrchedd i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Lyndon Griffiths Economi ac Adfywio** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o adolygiadau hygyrchedd wedi eu cwblhau a gwelliannau a argymhellir yn cael sylw. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i gynnal archwiliadau hygyrchedd ar gyfer adeiladau'r Cyngor a datblygiadau mawr. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Strategaeth Toiledau o ran hygyrchedd a gwaith parhaus i gynyddu nifer y toiledau gyda lleoedd newid yn y sir. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.12** | Rydym wedi ennill safon hygyrchedd AA ar gyfer ein gwefan a byddwn yn gweithio tuag at ennill safon AAA, gan gynnwys darparu bar offer darllenadwyedd. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Arwyn Morris Cyswllt Cwsmeriaid** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GLAS** |
| **Canlyniadau:** Cynyddu lefelau boddhad cwsmeriaid. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Bydd y cam gweithredu hwn yn un parhaus er mwyn bodloni unrhyw safonau newydd - rydym wedi bodloni'r holl safonau sylfaen angenrheidiol ar gyfer hygyrchedd. Mae'r cam gweithredu hwn yn las - wedi ei gyflawni ond bydd yn parhau i esblygu wrth i dechnoleg newid. | | | |

Draft

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.13** | Byddwn yn parhau i reoli llwybr yr arfordir i sicrhau bod y llwybr yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, gan gynnwys parhau i ddilyn egwyddorion *'Mynediad Lleiaf Rhwystrol'* lle y bo'n bosibl. Byddwn yn ystyried anghenion pobl ag anableddau wrth gynnal a chadw neu wella hawliau tramwy cyhoeddus. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Eifion Jones Economi ac Adfywio** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

**Cynnydd hyd yma:**

Cafwyd £45k o gyllid cyfalaf y Cyngor i newid pontydd troed sy'n helpu i gydymffurfio â lled 1.2m sydd wedi eu cynnwys o fewn y canllawiau "trwy bob dull rhesymol" ar fynediad lleiaf rhwystrol.

Mae nodi'r rhwystrau i fynediad wedi ei gynnwys bellach ym mhob taflen llwybrau a hyrwyddir, h.y. camfeydd, gatiau, gosod wyneb a graddiant llwybrau ac ati.

Cafwyd grant o £160k gan Lywodraeth Cymru i greu llwybrau pren i bob gallu ar hyd afon Teifi yng Nghenarth (prosiect 3 blynedd)

Cafwyd £25k i uwchraddio wyneb llwybr troed yn Aberaeron - llenyddiaeth hyrwyddo llwybr mynediad i bob gallu wedi ei baratoi fel rhan o'r prosiect.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.14** | Byddwn yn rhoi sylw i fynediad cyfartal i fannau chwarae gan gefnogi'r cynllun gweithredu cyfleoedd chwarae digonol. | **Swyddog Arweiniol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

Tudalen 189

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Cathryn Morgan Polisi a Pherfformiad** | |

**Canlyniadau:** Mwy o geisiadau grant i CSC ar gyfer gwelliannau i fannau chwarae a gefnogir gan bolisi/cynllluniau i ddarparu lleoedd chwarae hygyrch.

**Cynnydd hyd yma:** Erbyn hyn mae ffurflen gais Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Ceredigion yn gofyn i'r grwpiau amlinellu eu cynllluniau neu bolisi i sicrhau fod y man chwarae yn hygyrch i blant ac oedolion anabl. 9 cais grant wedi eu derbyn, 100% wedi ateb y cwestiwn penodol hwn (rhai atebion wedi eu dangos isod). Mae'n ymddangos y byddai peth hyfforddiant ychwanegol yn ddefnyddiol. Bydd gweminar 'man chwarae cynhwysol' ar-lein yn cael ei ddatblygu a'i gynnig yn ystod 2021/22. Ymatebion

1. Mae polisi darpariaeth chwarae gan y Cyngor Cymuned ac mae'n ymwybodol o sicrhau bod meysydd chwarae yn hygyrch er nad oes llawer o offer chwarae arbenigol ar gael, ac mae'n cael ei ystyried wrth brynu offer newydd.
2. Y bwriad yw edrych ar hyn yn fwy manwl, i gychwyn trwy ddarganfod beth yw'r galw am barc chwarae hygyrch yn yr ardal hon. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar anghenion y gymuned ac yn ceisio rhoi sylw i unrhyw rwystrau.
3. Wedi ei gynnwys yn y dyfynbris hwn yw siglen fasged sy'n addas i blant anabl. Nid oes unrhyw risiau ym mynedfa'r maes chwarae ac mae'r gât yn addas i gadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Mae maes parcio ceir am ddim wrth ochr y safle.
4. Mae'r maes chwarae wedi cael ei gynllunio i'w wneud mor hygyrch â phosibl yn wyneb y ffaith bod y safle ar lethr. Ceir llwybrau igam-ogam yn agos at y maes chwarae ac ar y safle yn hwyluso mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Bydd ramp mynediad concrid a mynedfa newydd ar gyfer y Pafiliwn Pren i'w darparu erbyn gwanwyn 2021.
5. Ceir mynediad rhwydd i'r parc o'r ffordd sy'n rhedeg trwy'r pentref; mae cilfan eithaf mawr (lle parcio i 2-3 car) a gallwch agor y gât fetel pum bar a gyrru trwyddo i gael mynediad agosach i'r cyfleusterau (os oes angen). Mae arwyneb solet rhwng y gilfan a'r maes chwarae ac o ymyl y maes chwarae ceir llwybr tarmac (tua 1.5m ar led) sy'n arwain at y maes chwarae. Nid oes unrhyw lwybrau rhwng ardal yr offer chwarae ar hyn o bryd ond mae'r porfa yn cael ei gadw'n fyr a'i gynnal yn dda. Mae'r holl offer chwarae wedi eu hamgylchynu gan fatiau diogelwch a fyddai'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ar wahân i'r sleid. Nid oes unrhyw gyfleusterau toiledau cyhoeddus yn y parc

Tudalen 190

neu yn y pentref. Rydym yn gobeithio gwneud y parc yn fwy hygyrch a chynhwysol yn y dyfodol i bobl â galluoedd gwahanol trwy ychwanegu offer chwarae priodol gan ei bod hi'n bwysig bod pob plentyn ac oedolyn yn gallu mwynhau chwarae beth bynnag fo'i allu.

Rydym wedi gweithio â thîm Iaith a Lleferydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gael 15 x Bwrdd Cyfathrebu wedi eu gosod mewn 15 o feysydd chwarae cymunedol.  Bydd y rhain yn gwella'r profiad chwarae ar gyfer plant nad ydynt yn cyfathrebu ac yn helpu i gynyddu sgiliau iaith a chyfathrebu.

Draft


Bwrdd cyfathrebu
Communication board
Pwyntiwch at y symbol wrth ddweud y gair e.e. "Wyt ti eisiau bwyd?"
Cofiwch hefyd roi cyfle i'r plentyn bwyntio at yr hyn mae eisiau dweud.
Point to the symbol as you say the word to the child e.g. "Do you want food?"
Give the child opportunities to point to what they want too.
fi I
eisiau want
cyflym fast
da good
i ffwrdd off
wedi blino tired
hapus happy
dail leaves
ti you
dere come
araf slow
drwg bad
ar ben on
trist sad
cyffrous excited
brigau sticks
mwy more
gweld see
hoffi like
gorffen finish
rhedeg run
tŷ bach toilet
diod drink
aderyn bird
mynd go
chwarae play
help help
aros wait
adref home
bwyd food
blodyn flower
ddim not
siglen swing
cylchdro roundabout
si-so see-saw
mainc bench
llithren slide
car car

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.15** | Byddwn yn sicrhau bod ein polisi caffael a manyleb contract yn cynnwys cydraddoldeb a'r Gymraeg fel gwybodaeth safonol. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**George Ryley Cyllid a Chaffael a Carys Morgan Gwasanaethau Democrataidd** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Canran y manylebau contract a gyhoeddwyd gyda gofynion ar gyfer Cydraddoldeb a'r Gymraeg. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae'r holl gontractau mawr yn cael eu tendro trwy ddefnyddio system e-dendro-Cymru ac mae gan 100% o'r rhain gwestiynau ynghylch gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi eu cynnwys ynddynt fel rhan o broses safonedig. Roedd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd wedi eu cynnwys yn y tendrau hynny fel gwybodaeth safonol. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.16** | Byddwn yn parhau i helpu clybiau chwaraeon cymunedol i ennill Gwobr Anabledd Insport. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Mwy o wirfoddolwyr/prosiectau cymunedol i hyfforddi ac addysgu pobl i fod yn fwy hyderus a datblygu cyfleoedd mwy cynhwysol yn ein cymunedau. | | | |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Mae Clybiau Chwaraeon yn cael eu hannog i gwblhau Achrediad Insport. Mae'r clwb beicio addasedig Wheel Together yn Aberystwyth wedi ennill statws Rhuban eleni.<br><br>Oherwydd y pandemig a newidiadau staff, nid yw rhaglen achredu Insport wedi bod yn weithredol. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.17** | Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill safon Aur Insport. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Dysgu Gydol Oes a Diwylliant** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Parhau â'r daith a'r broses ddysgu i staff, partneriaid a gwasanaethau o statws Rhuban i Aur.<br><br>Bod yn wasanaeth cynhwysol sydd â gweledigaeth ar gyfer pob safon. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Mae ymrwymiad i gyflawni Achrediad Aur Insport wedi ei gynnwys yng Nghynllun Busnes Gwasanaeth Canolfan Llesiant L2 ar gyfer 2021-22. Mae gwaith ar y gweill i fynychu Panel Cyn Dyfarnu Statws Aur Insport Chwaraeon Anabl Cymru ym Mehefin 2021. | | | |

Draft

| **Amcan 5: Addysg Deg a Chynhwysol.**<br><br>**Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.1** | Byddwn yn helpu ysgolion i sicrhau eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Nia James Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Pob ysgol yn adrodd ac yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau cynlluniau cydraddoldeb strategol unigol yn ystod Tymor yr Haf yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu.<br><br>Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ei le yn yr ysgolion. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Pob ysgol wedi cwblhau ei Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn ystod tymor yr haf. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.2** | Byddwn yn helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth a gweithredu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Gwrth-fwlio arfaethedig Llywodraeth Cymru pan gânt eu lansio yng ngwanwyn 2020. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Laurie Hughes / Kizzie Garner-Hughes Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mae pob ysgol wedi adolygu ei pholisi gwrth-fwlio.

Polisi drafft wedi ei greu ar gyfer ysgolion o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd. Copi drafft wedi ei anfon i'w ymgynghori arno a cheisio cymeradwyaeth uwch staff addysg cyn cael ei gylchredeg i'r ysgolion.

**Cynnydd hyd yma:**

Mae ysgolion wedi cael canllawiau gwrth-fwlio. Cymeradwyaeth wedi ei cheisio gan uwch staff addysg; canllawiau wedi eu cyflwyno i'r Cabinet ar 18/05/21 a chael eu cymeradwyo fel polisi.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.3** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd ag ADY | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Gillian Evans Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Pob disgybl ag ADY wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'u hanghenion.

Hyn wedi ei dystio gan ddata ar gyflawniad plant ag ADY ym mhob cyfnod allweddol.

- **Cynnydd hyd yma:** Mae perfformiad disgyblion AAA Ceredigion yn dda. Ceir cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ddifrifol yn y blynyddoedd cynnar. Mae Ceredigion wedi parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i gynyddu gallu'r gweithlu i ateb anghenion disgyblion prif ffrwd. Mae hyn yn cynnwys ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn adlewyrchu anghenion y Cod ADY newydd, hyfforddiant awtistiaeth, hyfforddiant Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol a hyfforddiant iechyd meddwl. Mae 70% o

Drafft

ysgolion Ceredigion wedi cael eu hachredu bellach fel ysgolion sy'n deall awtistiaeth. Mae 79% o'n hysgolion hefyd wedi cael cynorthwyydd addysgu wedi ei hyfforddi fel hyrwyddwr awtistiaeth. Mae 451 o bobl wedi cwblhau modiwl e-ddysgu ar gydnabod anawsterau iechyd meddwl mewn pobl ifanc. Darpariaeth Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol yn parhau i ddatblygu'n dda ac ysgolion wedi gwneud cais am hyfforddiant pellach ar gyfer staff. Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol wedi cael hyfforddiant pellach cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym Mehefin 2020. Ysgolion wedi gwneud defnydd da o'r grant iechyd meddwl i ddarparu sesiynau Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol ychwanegol i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae 49 o gynorthwywyd addysgu wedi ennill cymhwyster Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion agored i niwed yng Ngheredigion yn parhau i gael ei monitro. Oherwydd Covid-19 ni chaiff data diwedd cyfnod allweddol eu casglu yn ystod tymor yr haf. Bydd data ysgol mewnol yn cael eu monitro i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd adeg mynediad.

Mae tystiolaeth o'r nifer ar y gofrestr AAA/ADY yn dangos effaith yr ymyrraeth o fewn ysgolion. Dros amser mae'r nifer ar y gofrestr wedi newid yn sylweddol. Mae'r symud rheolaidd rhwng cyfnodau AAA / ADY yn dangos bod ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol. Cafwyd lleihad yn nifer y datganiadau a nifer y disgyblion ar y gofrestr ADY. Ceir cynnydd yn nifer y disgyblion ar y cam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/Cytundeb Adnoddau Gweithredol gan yr Ysgol a Mwy (SAP/SAPRA) sy'n adlewyrchu nifer y disgyblion sydd ag anghenion dwysach a mwy cymhleth sy'n dechrau yn ein hysgolion, a hefyd effaith Covid ar allu ysgolion i sicrhau ymateb graddedig ac ymyrraeth a darpariaeth AAA lawn yn ystod y flwyddyn.

| | Gweithredu gan yr Ysgol | | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy / Cytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | | Datganiad | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd | 0-6 | 7-11 | 0-6 | 7-11 | 0-6 | 7-11 |
| 2021 | 849 | 739 | 473 | 289 | 7 | 71 |
| | 1588 | | 762 | | 78 | |
| 2020 | 792 | 839 | 274 | 176 | 7 | 62 |
| | 1788 | | 717 | | 72 | |
| 2019 | 940 | 861 | 384 | 229 | 21 | 68 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1,801 | | 613 | | 89 | |
| 2018 | 1,078 | 850 | 360 | 195 | 25 | 77 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.4** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau'r bylchau a nodwyd mewn cyrhaeddiad. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Catrin Petche Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Pob plentyn sy'n Derbyn Gofal wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'i anghenion.

Hyn wedi ei dystio gan ddata ar gyflawniad plant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol.

**Cynnydd hyd yma:** At ei gilydd, mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion yn dda. Mae tystiolaeth monitro fewnol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd o ran eu mynediad.
Ni fydd unrhyw adrodd ar ddata diwedd Cyfnod Allweddol oherwydd Covid-19.

Ar hyn o bryd mae 91 o blant mewn gofal ar y gofrestr, ac mae gan 55% o'r rhain ADY, ac mae gan 36% ohonynt Gytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ddatganiad. Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal y tu allan i'r sir a leolir yng Ngheredigion o awdurdodau eraill wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae 42% o ddisgyblion Ceredigion sydd mewn gofal yn dod o'r tu allan i'r Awdurdod, mae gan 58% o'r rhain ADY sy'n golygu bod angen lefel ychwanegol o gymorth arnynt. Caiff y disgyblion eu haddysgu o fewn ein hysgolion prif ffrwd, fodd bynnag mewn rhai achosion mae angen darparu pecyn cwricwlwm amgen er mwyn ateb anghenion y disgybl. Bu hon yn her fawr dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd rheoliadau Covid.

Mae hyfforddiant chwarae'n seiliedig ar ymlyniad a pherthnasoedd ac ymarferion seiliedig ar drawma wedi cael eu datblygu ymhellach. Bu ffocws ychwanegol hefyd ar lesiant disgyblion. Mae pob ysgol wedi cael holiadur llesiant yr Awdurdod Lleol a phecyn cymorth llesiant. Mae hyn wedi

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| cynyddu gallu staff ysgol i ddeall ac ateb anghenion nifer fwy o ddisgyblion. Caiff effaith hyn ei monitro dros y flwyddyn nesaf. Mae hyfforddiant pellach wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2021. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.5** | Byddwn yn helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig i gael mynediad i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial ac yn gwella eu cyrhaeddiad. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Carole Price Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Darparu cymorth peripatetig parhaus a/neu ymyrraeth ar gyfer ysgolion a dargedwyd a gweithredu wedi ei gydlynu rhwng rhanddeiliaid o fewn yr Awdurdod Lleol.<br><br>5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel o ran cynnydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol, gydag 1% yn gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy.<br><br>64% o ddisgyblion ar god C-E, ac o'r rhain mae 61% yn (D) cymwys neu (E) rhugl. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** | | | |
| **Cam Gweithredu 5.6** | Byddwn yn datblygu ymyraethau wedi eu targedu i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Vanessa Bowen / Gwion Dafydd Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:** Hyfforddiant a dargedwyd wedi ei ddarparu ar gyfer ymyraethau e.e. rhifedd, iaith, ADY, sgiliau meddwl. Hyfforddiant hefyd yn cefnogi'r defnydd effeithiol o Hafan a Phrydau Ysgol Am Ddim o fewn Asesiad Proffil.<br><br>Cynadleddau yn hyrwyddo dealltwriaeth ac ymyrraeth ar Fwlio, Llais y Plentyn, Iechyd a Llesiant. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar-lein, bydd mwy i ddilyn gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru Mehefin-Medi 2021. Hyfforddiant ADY yn cael ei ddiweddaru oherwydd newidiadau cyson i'r Mesur newydd. Hafan ar gau hyd yn hyn, gobeithio ail agor y ddarpariaeth ar ôl Mehefin 7fed. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.7** | Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Nia James Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Dim diweddariadau wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd oherwydd ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau yn y cynlluniau hygyrchedd ysgolion. | | | |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.8** | Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Silyn Roberts Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ei le ac yn parhau tan 2021 hyd nes y cyhoeddir Cynllun Strategol 2021-2031.<br><br>Cynllun wedi ei weithredu a'r canlyniadau wedi eu monitro. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br>O ganlyniad i Covid-19 a'r oedi a fu yn ei sgil, caiff Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 ei gyflwyno bellach i Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2022 ac os caiff ei gymeradwyo, bydd yn weithredol ym Medi 2022. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol yn weithredol dros dro a chaiff cynnydd ar hwnnw ei adrodd arno yn Rhagfyr bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru ar draws y saith canlyniad disgwyliedig. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.9** | NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) – byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen.<br><br>NEET – byddwn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu cynnwys fel gofyniad craidd mewn pob contract caffael y Cyngor a bod canran y cyfleoedd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a grëir yn cynyddu o'r flwyddyn flaenorol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Mark Gleeson Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mae dau gwrs newydd wedi cael eu hychwanegu at y ddarpariaeth cwricwlwm amgen ers Medi 2019.<br><br>Mae cynnydd da yn cael ei wneud, mae holl gontractau caffael CSC yn cynnwys buddion cymunedol fel gofyniad craidd. | | | |

| |
|---|
| Caiff cynnydd ei fesur pan fydd data blynyddol NEET ar gael. |
| **Cynnydd hyd yma:** Ar yr adeg hon o'r flwyddyn rydym yn canolbwyntio ar gasglu data ar ymadawyr Blwyddyn 11. Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gweithio ar y cyd â Gyrfa Cymru, ysgolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid i dargedu ymadawyr sydd heb benderfynu ar yrfa. Bydd HCT yn rhedeg nifer o sesiynau blasu ar gyfer dysgwyr cwricwlwm amgen ar ôl hanner tymor. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau i gynnal diwrnodau blasu ar gyfer ymadawyr Blwyddyn 11.<br><br>Mae polisi'r Cyngor ar fuddion cymunedol a chanllawiau i dendrwyr ar gyfer nodi buddion cymunedol yn eu cynigion yn datgan, "Wrth ddewis prentisiaethau/lleoliadau gwaith neu gyflenwi cynlluniau Buddion Cymunedol rhaid i gontractwyr beidio â gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, sipsiwn a theithwyr, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil neu anabledd. At hynny, rhaid i gontractwyr roi sylw dyledus i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r bobl a'r cynlluniau hyn.'<br><br>**Buddion cymunedol ehangach** (lle mae contractwyr yn gallu cynnig darparu buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol yn uniongyrchol i'r Gymuned lle mae eu prosiect yn gweithredu). Mae'r rhain wedi eu categoreiddio fel:<br><br>• Cymuned<br>• Addysg<br>• Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (h.y. cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sy'n targedu grwpiau anodd eu cyrraedd (NEET hirdymor, anabl, lleiafrifoedd ethnig)<br>• Amgylcheddol<br><br>Gweler y gwerthusiadau tendro canlynol:<br><br>• Contract safle Gwastraff Cartrefi Cilmaenllwyd (Penparc, Aberteifi) - contract wedi dechrau 01/03/21 - contract wedi ei arwyddo gyda chyswllt Buddion Cymunedol. Y prif gynnig yw ar gyfer lleoliadau profiad gwaith sydd wedi eu hatal dros dro ar hyn o bryd oherwydd Covid.<br>• Fframwaith Ymgynghoriaeth Peirianneg Rhanbarthol (wedi ei gadeirio gan Gyngor Sir Caerfyrddin)<br>• Contract safle Gwastraff Cartrefi Glan Yr Afon (i ddechrau 01/05/21)<br>• Contract Gwastraff Deunyddiau Eildro Sych Cymysg (disgwylir iddo ddechrau 01/06/21, yn aros i gontract gael ei ddyfarnu) |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.10** | Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol a chydnabod buddion bod ar-lein. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Denise Owen Dysgu gydol Oes Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Cynnydd yn nifer y cofrestriadau Dysgu Bro dros 50 oed.<br><br>Mwy o bobl dros 50 oed wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol.<br><br>Mwy o bobl dros 50 oed wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol gydag anabledd neu Anghenion Dysgu Ychwanegol. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Gyda dyfodiad y pandemig a chyfyngiadau'r cyfnod clo yn effeithio ar ddosbarthiadau, ni chyrhaeddwyd y targedau hyn. Yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clo rydym wedi darparu dosbarthiadau ar-lein i bobl, gan gynnwys dosbarth o bobl dros 65 oed. Lle nad yw dysgwyr wedi cael mynediad i brofiad digidol, rydym wedi gallu darparu gliniaduron ar eu cyfer i'w defnyddio gartref, ac mae hyn wedi bod o fantais i nifer o ddysgwyr ar draws amrywiaeth o bynciau, ac rydym hefyd wedi rhoi sesiynau i nifer o ddysgwyr ar sut i ddefnyddio Zoom neu Teams er mwyn cael mynediad i'r dosbarthiadau. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.11** | Byddwn yn cynnig cyrsiau 'Chwarae Gyda'n Gilydd' (Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd) i ddisgyblion ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o namau a sut i gynnwys ffrindiau mewn gweithgareddau corfforol cynhwysol. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mewn partneriaeth ag AYP a Chwaraeon Cymru byddwn yn hyfforddi disgyblion ysgol a gwirfoddolwyr i ddysgu sut i addasu/cynnwys eraill mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol.

**Cynnydd hyd yma:**

Mae modiwl Mini DIT (Chwarae Gyda'n Gilydd) wedi cael ei gynnwys yn hyfforddiant pob Llysgennad Ifanc. Rydym wedi hyfforddi dros 100 o Lysgenhadon Ifanc Efydd eleni gyda'r uned hon wedi ei chynnwys.

Draft

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** **Cabinet**

**DYDDIAD:** **5$^{ed}$ Hydref 2021**

**LLEOLIAD:** **cynhelir o bell trwy gynhadledd fideo**

**TEITL:** **Adborth gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 'Ceredigion Teg a Chyfartal'. Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2021**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Rhoi adborth gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 15$^{fed}$ Medi 2021**

Ystyriodd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r adroddiad ar 'Ceredigion Teg a Chyfartal' Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2021 yn ei gyfarfod ar 15$^{fed}$ Medi.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor gael a chymeradwyo Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2020 i Fawrth 2021 a gwneud argymhellion fel y bo'n briodol pan gyflwynir yr adroddiad i'r Cabinet ar 5ed Hydref 2021.

Cytunodd yr aelodau i gael ac awgrymasant y dylai'r Cabinet gymeradwyo Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2020 i Fawrth 2021 fel y'i cyflwynwyd.

**Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans**
***Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu***

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR Ceredigion**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **05.10.2021** |
| **Teitl:** | **Papur sefyllfa ar ffosffadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Hysbysu'r Cabinet ynghylch y goblygiadau o ran lefelau ffosffadau yn nalgylch ardal cadwraeth arbennig Afon Teifi ar gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.** |
| **I:** | **BENDERFYNU ARNO** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Rhodri Evans, Economi ac Adfywio** |

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth am lefelau ffosffadau mewn ardaloedd cadwraeth arbennig afonol yng Nghymru (gan gynnwys Afon Teifi yng Ngheredigion) ynghyd â datganiad sefyllfa/canllawiau cynllunio interim a ddiweddarwyd ym mis Mai 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r goblygiadau o ran y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol, a'r un newydd. Mae'n amlinellu rhai opsiynau pwysig i'r Cabinet eu hystyried gyda golwg ar ddod o hyd i'r ffordd ymlaen gan gofio y bydd goblygiadau i'r amserlen wrth baratoi'r Cynllun. Mae goblygiadau posibl i'r sefyllfa yn gorfforaethol ac o ran polisi ar gyfer datblygiad gofodol ac effeithiau posibl ar ardaloedd trefol a gwledig Ceredigion.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno 'cyngor cynllunio interim' i osgoi dirywiad pellach mewn capasiti amgylcheddol sy'n ymwneud â dalgylch Afon Teifi. Y Cyngor, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yw'r awdurdod cymwys fel a ddiffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n ofynnol ei fod yn ystyried y cyngor a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (ymgynghorai statudol) wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar ddatblygiadau unigol a'r Cynllun Datblygu Lleol fel ei gilydd. Dylai pob Cynllun Datblygu Lleol gael ei sgrinio i bennu a yw unrhyw bolisi yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr ardaloedd cadwraeth arbennig.

Mae'r goblygiadau o ran y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol fel a ganlyn:

- Mae ffosffadau'n effeithio ar 50% o Ganolfannau Gwasanaethau Trefol a 14% o Ganolfannau Gwasanaethau Gwledig.
- Cyfanswm arwynebedd y tir yr effeithir arno - 806km$^2$ neu 44.6% o Geredigion.
- Mae 14 safle a neilltuwyd ar gyfer tai / 24% o'r holl ddyraniadau tai sy'n cyfateb i 572 o dai, y disgwylir i 114.4 ohonynt fod yn fforddiadwy, wedi'u cyfyngu.
- Effeithir ar 44 o aneddiadau cyswllt.

- 5 dyraniad cyflogaeth (28% o'r holl ddyraniadau cyflogaeth yng Ngheredigion) a 2 ddyraniad defnydd cymysg (20% o'r cyfanswm).

Mae'r goblygiadau o ran y Cynllun Datblygu Lleol newydd fel a ganlyn:

- Mae effaith bosib ar 89 o blith 293 safle ymgeisiol (30% o'r holl safleoedd a gyflwynwyd).
- Bydd 3ydd galwad yn angenrheidiol yn achos safleoedd ymgeisiol a gall fod angen arnynt gynnwys tir ar gyfer mesurau lliniaru ffosffadau pan, a phryd, y bydd y mathau o dir a'r mesurau lliniaru yn hysbys.
- Bydd angen adolygu hierarchiaeth aneddiadau arfaethedig y Cynllun Datblygu Lleol newydd gan y bydd sefyllfa'r ffosffadau yn effeithio ar nifer o'r aneddiadau arfaethedig.
- Bydd angen adolygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn ystyried y goblygiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn sgil effeithiau'r ffosffadau ar ddalgylch Afon Teifi.
- Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn destun sgrinio pellach mewn perthynas â'r effaith y gallai ei gael ar yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, a gallai fod yn angenrheidiol i bob dyraniad datblygu ymgymryd ag Asesiad Priodol llawn a allai arwain at effeithio ar gorff dŵr yr ardal cadwraeth arbennig.
- Bydd newidiadau gofodol a strategol i'r Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarnau allweddol o dystiolaeth fynd drwy adolygiad gan gynnwys rôl a swyddogaeth aneddiadau, opsiynau gofodol, cyflenwad tai, hyfywedd ac asesiad effaith y Gymraeg.
- Yn *Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040*, dynodwyd Dyffryn Teifi yn barth twf rhanbarthol. Mae'r ardal hon wedi'i chyfyngu'n llwyr gan ffosffadau yn awr ac felly bydd angen ystyried yr anallu i fodloni'r Polisi Cenedlaethol yn yr adolygiad o'r cynllun.

Bydd angen ffactora rhyw fath o oedi yn yr amserlen wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, waeth beth fo'r opsiwn a ffefrir, oherwydd effeithiau'r sefyllfa gyda ffosffadau.

Arfarnu'r Opsiynau:

1. Cynllun 6 thref - parhau i baratoi'r cynllun, gyda'r Strategaeth a Ffefrir ddiwygiedig yn adlewyrchu'r dull 6 thref y cytunwyd arno'n flaenorol. Byddai risgiau arwyddocaol wrth ddyrannu mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan ffosffadau - ni fyddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn medru dangos y gallu i gyflenwi mewn archwiliad, a byddai'n debygol o fethu profion cadernid.
2. Dull goddefol - oedi dros dro y gwaith paratoi ar y Cynllun Datblygu Lleol hyd nes y cytunir ar wybodaeth bellach, tystiolaeth a mesurau lliniaru. Mae'r Cynllun Mabwysiedig yn ei le ac nid oes dyddiad pendant ar ei gyfer sy'n caniatáu i ystyriaeth gael ei rhoi i gynigion datblygu mewn ardaloedd nas effeithir arnynt gan ffosffadau. Mabwysiadwyd y dull hwn gan Awdurdodau Sir Benfro, Sir Gâr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
3. Aildrefnu Gofodol - Cychwyn ar Gynllun Datblygu Lleol newydd i ddisodli'r un blaenorol gyda Chytundeb Cyflenwi newydd a rhoi ailystyriaeth lawn i'r cynllun gan gynnwys strategaeth ofodol nad oedd yn cynnwys yr ardaloedd

hynny yr effeithiwyd arnynt gan ffosffadau. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir o ran Llywodraeth Cymru. Byddai'n golygu, fodd bynnag, na allem yn y tymor canol ddyrannu unrhyw dir cyflogaeth neu ar gyfer tai yn y dyfodol yn nalgylch Afon Teifi.

Mewn gwirionedd, mae risgiau'n gysylltiedig â phob opsiwn ac mae'r adroddiad yn archwilio'r rhain yn fanylach. Fodd bynnag, byddai'n wastraff tebygol ar adnoddau'r Cyngor i barhau gydag opsiwn 1 - cynllun yn ôl pob golwg a fyddai'n methu mewn archwiliad gan na fyddem yn gallu dangos bod modd ei gyflenwi ac yn codi cwestiynau ynghylch ei gadernid. Ymddengys mai opsiwn 2 yw'r dewis a ffefrir yn rhanbarthol gan ei fod yn caniatáu amser i archwilio'r data a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac ailystyried ein hopsiynau wrth i ni ddeall mwy am ddulliau lliniaru. Byddai hefyd yn caniatáu amser i ddatblygu Bwrdd Rheoli Maethynnau a Chynllun Rheoli Maethynnau cysylltiedig ar gyfer Afon Teifi. Er y byddai opsiwn 3 yn cyflwyno cynllun mewn modd amserol, byddai'n cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf angenrheidiol ledled y sir i nifer llawer llai o ganolfannau gwasanaethau a byddai cwestiynau o hyd ynghylch cadernid y cynllun os nad yw'n bodloni anghenion cyfran sylweddol o boblogaeth y sir. Gallai hefyd gael ymraniadau gwleidyddol yn lleol gan y byddai'n mabwysiadu dull gwahanol i'n model traddodiadol o 6 thref. Felly, argymhellir bod oedi amhenodol yn cael ei roi ar ddewis 2 i ganiatáu amser i wyddoniaeth a thystiolaeth gryfhau, i ddulliau lliniaru ddatblygu ac i geisio cael datrysiadau lleol.

| | |
|---|---|
| **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** | Do.<br>Fersiwn Gymraeg i ddilyn |

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Crynodeb:**

**Hirdymor:**

**Cydweithio:**

**Cynnwys:**

**Atal:**

**Integreiddio:**

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad/Argymhellion:** | **Fod Cabinet yn argymell fod y Cyngor cytuno ar oedi dros dro, am gyfnod amhenodol am nawr, ar gyfer mabwysiadu'r cynllun datblygu lleol newydd.** |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | **Caniatáu i fwy o waith gael ei wneud ar y sefyllfa ffosffadau i gasglu data a thystiolaeth ac i lunio datrysiadau lliniaru.**<br><br>**Sicrhau bod y cynllun newydd yn bodloni'r profion cadernid, bod modd ei gyflenwi a'i fod yn addas i'r diben.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoli Datblygu a chytunwyd yn unfrydol yn y ddau grŵp mai opsiwn 2 oedd yr unig ddewis realistig. |
| **Fframwaith Polisi:** | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 a Chynllun Datblygu Lleol Ceredigion Newydd 2018-2033. |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Blaenoriaeth Gorfforaethol 1 - Hybu'r Economi<br>1.1 Hyrwyddo a darparu cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Ceredigion.<br>1.3 Datblygu Seilweithiau ar gyfer yr 21ain Ganrif ar draws y sir.<br>Blaenoriaeth Gorfforaethol 2 - Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl<br>2.4 Hybu a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion.<br>Blaenoriaeth Gorfforaethol 3 - Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd<br>3.1 Hyrwyddo llesiant unigolion a theuluoedd o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch.<br>Blaenoriaeth Gorfforaethol 4 - Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol<br>4.1 Ymgysylltu'n weithredol mewn rhaglenni i ddelio ag effeithiau newid hinsawdd.<br>4.2 Gwella'r seilwaith i hwyluso datblygiadau yn y dyfodol er mwyn ateb anghenion cymunedau<br>4.3 Helpu a chynorthwyo cymunedau i fod yn fwy hunangydnerth. |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn gostus i'w cynhyrchu felly byddai goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â pharhau â chynllun a fyddai'n debygol o fethu mewn archwiliad. Bydd goblygiadau ariannol hefyd yn gysylltiedig ag oedi'r cynllun gan y byddai'n ymestyn yr amser y byddai'n cymryd i gyflenwi cynllun. |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Mae dyletswydd ar yr awdurdod i baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â cheisio cael datrysiadau i'r mater ac wedi cefnogi awdurdodau cyfagos gan bennu mai oedi amhenodol yw'r datrysiad mwyaf synhwyrol. |
| **Goblygiadau Staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau Eiddo/Asedau:** | Dim |
| **Risg/Risgiau:** | Fel a amlinellir yn yr adroddiad |
| **Pwerau Statudol:** | |
| **Papurau Cefndir:** | Papur Sefyllfa ar Ffosffadau |
| **Atodiadau:** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Russell Hughes-Pickering |
| **Swyddog Adrodd:** | Sarah Groves- Phillips |
| Dyddiad: | 10-09-2021 |

# Papur Sefyllfa - Ffosffadau



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Cynnwys

**Cyflwyniad a Diben .......... 4**

Proses a Llinell Amser .......... 4

**Crynodeb o'r Materion Presennol .......... 5**

Cyngor interim Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ceisiadau cynllunio o fewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd) afon (cyhoeddwyd Ionawr 2021). .......... 5

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) .......... 7

**Goblygiadau ar gyfer y CDLl Cyfredol .......... 9**

Yr Hierarchaeth Aneddiadau .......... 9

Preswyl: Neilltuadau .......... 10

Preswyl: Cydrannau eraill y cyflenwad tai .......... 13

Neilltuadau Cyflogaeth .......... 14

Neilltuadau Defnydd Cymysg .......... 15

**Goblygiadau ar gyfer y CDLl Amnewid .......... 16**

Safleoedd Ymgeisiol .......... 16

Yr Hierarchaeth Aneddiadau .......... 16

Arfarniad Cynaladwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol .......... 20

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd .......... 21

Lliniaru a Datrysiadau eraill .......... 21

**Arfarniad o'r Dewisiadau .......... 23**

Trosolwg .......... 23

Amserlenni .......... 23

**Datrysiadau Technegol Posibl a Dulliau Gweithredu sy'n Seiliedig ar Bolisi .. 30**

Pwysigrwydd nodi datrysiadau .......... 30

Datrysiadau Technegol .......... 33

**Camau Nesaf .......... 36**

Tymor Byr/Canolig .......... 36

Tymor Hwy .......... 37

# Cyflwyniad a Diben

## Proses a Llinell Amser

Mae paratoi'r CDLl Amnewid (CDLla) yn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol y Cyngor dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 – gan nodi polisïau a chynigion ynghylch datblygiad a defnydd tir ar gyfer Ceredigion yn ystod y cyfnod tan 2033. Cymeradwywyd Cytundeb Cyflenwi (CC) diwygiedig mewn perthynas â'r CDLla gan Weinidogion Cymru ym mis Mawrth 2020, yn union cyn y cyfnod clo cenedlaethol. O ganlyniad i'r amseriad a'r hysbysiad dilynol gan Lywodraeth Cymru i stopio ymgynghoriadau ffurfiol am y CDLla ac i ganolbwyntio ar dystiolaeth gefndirol, mae'r CC cymeradwy cyfredol yn afraid a bydd gofyn cael CC amnewid pan fydd y gwaith yn ailgychwyn yn ffurfiol.

Yn ystod mis Ionawr 2021, roedd swyddogion yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith ar dystiolaeth gefndirol – sef y gwaith o baratoi tystiolaeth ynghylch newidiadau a welwyd yn ddiweddar i brisiau tai a'r effaith ar newidiadau poblogaeth yn y sir. Fodd bynnag, ar 21 Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) dystiolaeth ynghylch lefelau ffosffadau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd) afonol yng Nghymru (gan gynnwys afon Teifi). Roedd canllawiau/datganiadau sefyllfa cynllunio yn cyd-fynd â'r dystiolaeth hon[1]. Ni ddylid drysu rhwng hyn a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, er y cynghorir partïon y mae ganddynt ddiddordeb i ystyried y rhain hefyd er mwyn datblygu darlun cyflawn y tu hwnt i'r CDLl ei hun (gweler Adran 5 y Papur hwn).

Mae'r Papur hwn yn cynnig trosolwg o ganllawiau NRW a'u goblygiadau ar gyfer y CDLla. Mae'n cyflwyno rhai dewisiadau ar lefel uchel y bydd Aelodau yn dymuno cymeradwyo'r cam o'u harchwilio ymhellach gan swyddogion, gyda'r nod o geisio sicrhau ffordd ymlaen. Yr unig beth sy'n sicr ar yr adeg hon yw y bydd goblygiadau ar gyfer yr amserlen er mwyn paratoi'r Cynllun. Dylid darllen y Papur hwn gyda'r wybodaeth bod y sefyllfa yn esblygu yn gyson wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg. Ystyrir bod gofyn adrodd am y mater oherwydd ei oblygiadau y gallent fod yn rhai arwyddocaol ar gyfer

---

1

Sylwer: Cyhoeddodd NRW ddiweddariad i'w ganllawiau interim ar 11 Mai 2021, y bydd cynnwys y rhain ac unrhyw ailadroddiadau yn y dyfodol yn fframio ystyriaethau parhaus.

polisi ac ar lefel gorfforaethol – yn fwyaf nodedig o ran goblygiadau gofodol a'r effaith bosibl yng nghefn gwlad Ceredigion.

## Crynodeb o'r Materion Presennol


### Cyngor interim Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ceisiadau cynllunio o fewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd) afon (cyhoeddwyd Ionawr2021).

Nodweddir Ceredigion gan ei nodweddion amgylcheddol cyfoethog ac mae'n gartref i nifer o ardaloedd a nodweddion sy'n rhai dynodedig oherwydd eu pwysigrwydd amgylcheddol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol Afon Teifi.

Yn dilyn tystiolaeth newydd am effeithiau amgylcheddol ffosffadau mewn cyrsiau dŵr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) wedi asesu'r 9 SAC afonol yng Nghymru. Cadarnhaodd yr asesiad hwn a oedd yn seiliedig ar dargedau llymach ar gyfer ansawdd dŵr cyrsiau dŵr bod achosion o dorri amodau ynghylch lefelau ffosfforws yn eang o fewn ACA afonydd yng Nghymru, a bod dros 60% o gyrff dŵr yn methu cyflawni'r targedau heriol.

O ganlyniad i'r methiant hwn, mae NRW wedi cyhoeddi 'cyngor cynllunio interim' er mwyn osgoi gwaethygu pellach o ran y capasiti amgylcheddol. Mae'r 'cyngor' hwn yn ymwneud â phob ACA Afonol y mae eu dalgylchoedd yn ymestyn i Geredigion, sef Afon Teifi. Fel Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), mae gofyn i'r Cyngor ystyried y cyngor a roddir gan NRW wrth wneud penderfyniadau cynllunio (ar gyfer datblygiadau unigol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl)). O ganlyniad, bydd angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn nalgylch yr afon a allai gynyddu lefelau ffosffadau ddangos tystiolaeth glir o'r ffaith y gall y datblygiad ddangos niwtraledd neu welliant ffosffadau yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i'r corff dŵr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gallu i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, a bydd gofyn darganfod datrysiad amgen. Bydd y gofyniad hwn o ran ystyriaethau draenio yn effeithio ar yr holl ddatblygiad sy'n cynyddu cyfanswm neu grynodiad dŵr gwastraff.

Mae Ffigwr 1 yn cynnwys map sy'n dangos dalgylchoedd yr afonydd yng Ngheredigion.




**Ffigwr 1: Ardal Dalgylch ACA Afon Teifi yng Ngheredigion**

Mae gofyn rhoi ystyriaeth arwyddocaol i gynigion draenio ar gyfer datblygiadau yn y dalgylchoedd hyn.

Mae NRW wedi darparu cyngor cynllunio interim i ddatblygwyr. Mae'r canllawiau yn cynnwys amlinelliad o'r math o ddatblygiad sy'n annhebygol o gael effaith ar lefelau ffosffadau yn y cyrsiau dŵr.

Gellir gweld gwybodaeth bellach a manylach hefyd ar wefan NRW yn uniongyrchol.

Mae nodyn cyngor NRW yn amlinellu, pan nad yw cais cynllunio sydd o fewn dalgylchoedd Afon Teifi yn gallu dangos tystiolaeth o'r ffaith y byddai'r cynnig ar gyfer datblygiad yn arwain at niwtraledd neu welliant o ran ffosffadau, yn anffodus, ni fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu cefnogi'r cais. Mae hyn yn adlewyrchu'r effaith annerbyniol ar ansawdd dŵr yr afonydd a ddynodir yn ACA mewn ffordd sensitif. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol hefyd (gan gynnwys safleoedd a neilltuwyd).

Mae swyddogion yn gweithio ar ddeall goblygiadau llawn canllawiau NRW ar gyfer ceisiadau cynllunio cyfredol a chynnydd y CDLla. Rhaid i'r Cyngor sicrhau na fydd cynigion datblygu yn niweidio capasiti amgylcheddol ein cyrsiau dŵr. Yn ogystal, mae swyddogion yn cydweithio gydag NRW i ddeall y materion ehangach a nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer yr holl gynigion, er mwyn darganfod datrysiadau sy'n cydymffurfio gyda gofynion y cyngor cynllunio interim newydd.

## Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG)

Mae'r sefyllfa o ran hawlenni ffosffadau GTDG fel a ganlyn.

Ceir hawlenni ffosffadau cyfredol yn: Llanddewi Brefi.

Nid yw Cynllun Rheoli Asedau 2020-2025 (AMP7) Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn cynnwys unrhyw welliannau Ffosffadau a gynlluniwyd yng Ngheredigion.

O ran rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol, mae gan DCWW raglen dau AMP y cytunwyd arnynt (h.y., AMP7 ac AMP8) gydag NRW. Fodd bynnag, er bod cynnwys AMP7 yn hysbys, nid yw'r cynlluniau i'w cynnwys yn AMP8 wedi cael eu cwblhau eto. Fodd bynnag, deallir bod posibilrwydd y caiff hawlen ffosffadau ei chyflwyno yn Nhregaron. Deallir bod Rhaglenni Amgylchedd

Cenedlaethol (NEP) NRW yn llywio lleoliad GTDGs lle y bydd gofyn cyflwyno neu dynhau hawlenni ffosffadau.

Gosodir terfyn hawlen ffosffadau ar wahanol GTDG DCWW gan y Rheolydd Amgylcheddol (NRW yng Nghymru) ac yn ei hanfod, mae'n mynnu bod DCWW yn sicrhau eu bod yn tynnu ffosffadau o ddŵr gwastraff er mwyn bodloni'r terfyn hwnnw.  Asesir hawlenni ffosffadau ar sail cyfartaledd o'r holl ganlyniadau ffosffadau yn ystod cyfnod treigl o 12 mis.  Y dull nodweddiadol er mwyn tynnu ffosfforws o GTDG yw cyflwyno dosio fferig (haearn) a 'stripio'r' ffosffadau – mae'r fferig yn adweithio gyda'r ffosffadau ac yn ffurfio gwaddodion solet, y byddant yn cael eu gwaredu wedi hynny trwy danc gwaelodi.

Gellir dod i'r casgliad bod y materion a wynebir yn rhai sy'n ymwneud â seilwaith yn ogystal â rhai amgylcheddol yn hyn o beth.  Mae'n fframio'r drafodaeth hefyd gydag ymwybyddiaeth o rôl ehangach sefydliadau aml-asiantaeth – e.e., DCWW ac NRW ac yn hyn o beth, ni fydd y Cyngor yn gallu rhoi sylw i'r mater hwn ar ei ben ei hun.

# Goblygiadau ar gyfer y CDLl Cyfredol

## Yr Hierarchaeth Aneddiadau

Ar hyn o bryd, effeithir ar yr aneddiadau canlynol gan Ffosffadau:

**Tabl 1: Aneddiadau CDLl yr effeithir arnynt yn ôl GTDG (statws Coch Melyn Gwyrdd):**

| Categori / Hierarchaeth Anheddiad CDLl | GTDG gyda gweithgarwch stripio ffosffadau yn ei le yn barod a thrwydded gyfredol | GTDG gyda gwelliannau stripio ffosffadau wedi'u cynllunio yn CRhA 7 (2020-2025) | GTDG gyda gwelliannau stripio ffosffadau wedi'u cynllunio yn CRhA 8 (2026-2030) | GTDG heb weithgarwch Stripio Ffosffadau yn ei le nac wedi cael ei gynllunio |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfannau Gwasanaeth Trefol** | | | Tregaron | Llandysul<br>Llanbedr Pont Steffan<br>Castellnewydd Emlyn (Adpar) |
| **Canolfannau Gwasanaeth Gwledig** | | | | Cenarth<br>Pontrhydfendigaid |
| **Aneddiadau Cysylltiedig** | Llanddewi Brefi | | | Aber-banc<br>Alltyblaca<br>Betws Bledrws<br>Betws Ifan<br>Beulah<br>Blaenannerch<br>Blaen-porth<br>Brongest<br>Bronant<br>Bryn-gwyn<br>Brynhoffnant<br>Capel Dewi (DE)<br>Cellan/Fishers Arms<br>Coed-y-bryn<br>Cribyn<br>Croes-lan<br>Cwm-cou<br>Cwrtnewydd<br>Dre-fach<br>Ffostrasol<br>Gors-goch<br>Henllan/Trebedw<br>Highmead<br>Horeb<br>Llandyfrïog<br>Llandygwydd<br>Llangybi<br>Llanwnnen<br>Llechryd |

| Categori / Hierarchaeth Anheddiad CDLl | GTDG gyda gweithgarwch stripio ffosffadau yn ei le yn barod a thrwydded gyfredol | GTDG gyda gwelliannau stripio ffosffadau wedi'u cynllunio yn CRhA 7 (2020-2025) | GTDG gyda gwelliannau stripio ffosffadau wedi'u cynllunio yn CRhA 8 (2026-2030) | GTDG heb weithgarwch Stripio Ffosffadau yn ei le nac wedi cael ei gynllunio |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Maesymeillion<br>Penrhiw-llan<br>Pentre-llwyn<br>Plwmp<br>Pren-gwyn<br>Rhydlewis / Hawen<br>Rhydowen<br>Sarnau<br>Silian<br>Talgarreg<br>Tan-y-groes<br>Ystradmeurig |

Felly, mae ffosffadau yn effeithio ar 50% o USCs ac 14% o RSCs yn y CDLl cyfredol. Mae cyfanswm y tir yng Ngheredigion yr effeithir arno gan Ffosffadau yn cyfateb ag 806 cilomedr sgwâr neu 44.6%

## Preswyl: Neilltuadau

Effeithir ar gyfanswm o 14 o safleoedd tai (24% o'r holl neilltuadau tai yn y sir). Mae'r rhan fwyaf o'r materion yn effeithio ar Ganolfannau Gwasanaeth Trefol a Gwledig (USC ac RSC), fel y cânt eu diffinio yn strategaeth y CDLl cyfredol.

Mae hyn yn cyfateb â swm o 572 o dai a neilltuwyd, y disgwyliwyd i 114.4 ohonynt fod yn gartrefi fforddiadwy.

**Tabl 2: Safleoedd y Neilltuwyd Tai iddynt yn y CDLl yn Nalgylch ACA Afon Teifi**

| Cyfeirnod y Safle a Neilltuwyd | Enw'r Safle | Enw'r Anheddiad | Ardal_Ha | Nifer y Tai | Nifer y Tai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|---|
| H0401 | Tir gyferbyn â Pharc y Trap, Adpar | Adpar | 2.69 | 35 | 7 |
| H0501 | Hen ysgol Gynradd Llanbedr Pont Steffan | Llanbedr Pont Steffan | 0.65 | 12 | 2.4 |
| H0502 | Safle y tu ôl Ffynnon Bedr | Llanbedr Pont Steffan | 0.81 | 20 | 4 |
| H0503 | Safle ar gornel Heol y Wîg | Llanbedr Pont Steffan | 0.57 | 9 | 1.8 |
| H0504 | Heol y Wîg | Llanbedr Pont Steffan | 4.52 | 90 | 18 |
| H0505 | Tir gerllaw Maes-y-deri | Llanbedr Pont Steffan | 4.2 | 105 | 21 |
| H0601 | Tu ôl i'r Ffawydd | Llandysul | 4.85 | 126 | 25.2 |
| H0701 | Tir oddi ar Ffordd Dewi | Tregaron | 1.8 | 36 | 7.2 |
| H0702 | Tir tu ôl Rhyd Y Fawnog | Tregaron | 1.52 | 38 | 7.6 |
| H1101 | Tir oddi ar Ystad Spring Meadow | Cenarth | 0.37 | 7 | 1.4 |
| H1102 | Gogledd-ddwyrain o | Cenarth | 0.79 | 17 | 3.4 |

| **Cyfeirnod y Safle a Neilltuwyd** | **Enw'r Safle** | **Enw'r Anheddiad** | **Ardal_ Ha** | **Nifer y Tai** | **Nifer y Tai Fforddiadwy** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol Cenarth | | | | |
| H1103 | Tir wrth ac i'r gogledd-ddwyrain o Tegfan | Cenarth | 0.86 | 14 | 2.8 |
| H2001 | Dolwerdd | Pontrhydfendigaid | 1.76 | 44 | 8.8 |
| H2002 | Tir gerllaw Rock House | Pontrhydfendigaid | 0.77 | 19 | 3.8 |
| | | **Cyfanswm** | **26.16** | **572** | **114.4** |

## Preswyl: Cydrannau eraill y cyflenwad tai

Yn ogystal â'r USCs a'r RSCs a restrir uchod, effeithir ar nifer o Aneddiadau Cysylltiedig hefyd ac yn unol â Pholisi S04, nid oes ganddynt unrhyw gapasiti sy'n weddill ac maent yn rhedeg ar sail minws 75 uned ar hyn o bryd (sylwer bod rhif -75 oherwydd bod yr aneddiadau hyn eisoes wedi mynd y tu hwnt i'w lwfans o fewn y CDLl (2007-2022) gymaint â 75 o unedau erbyn Ebrill 2021).

**Tabl 3: Aneddiadau Cysylltiedig CDLl o fewn Dalgylch ACA Afon Teifi**

| Enw'r Anheddiad Cysylltiedig | Enw Grŵp yr Anheddiad | Unedau sy'n Weddill |
|---|---|---|
| Blaenannerch | Aberporth / Parc-llyn | 4 |
| Brynhoffnant | Aberporth / Parc-llyn | -2 |
| Sarnau | Aberporth / Parc-llyn | -17 |
| Blaen-porth | Aberporth / Parc-llyn | 3 |
| Tan-y-groes | Aberporth / Parc-llyn | -2 |
| Llechryd | Aberteifi | -12 |
| Llandygwydd | Cenarth | 2 |
| Cribyn | Felin-fach/ Ystrad Aeron | -5 |
| Betws Bledrws | Llanbedr Pont Steffan | 4 |
| Cellan/Fishers Arms | Llanbedr Pont Steffan | 3 |
| Cwrtnewydd | Llanbedr Pont Steffan | 1 |
| Drefach | Llanbedr Pont Steffan | -4 |
| Gors-goch | Llanbedr Pont Steffan | -2 |
| Llangybi | Llanbedr Pont Steffan | 5 |
| Llanwnnen | Llanbedr Pont Steffan | -17 |
| Llwyn-y-groes | Llanbedr Pont Steffan | 3 |
| Silian | Llanbedr Pont Steffan | 3 |
| Aber-banc | Llanbedr Pont Steffan | -25 |
| Coed-y-bryn | Llanbedr Pont Steffan | -2 |

| **Enw'r Anheddiad Cysylltiedig** | **Enw Grŵp yr Anheddiad** | **Unedau sy'n Weddill** |
|---|---|---|
| Croes-lan | Llandysul | 10 |
| Henllan/Trebedw | Llandysul | -7 |
| Horeb | Llandysul | -4 |
| Maesymeillion | Llandysul | -4 |
| Pren-gwyn | Llandysul | -1 |
| Rhydlewis / Hawen | Llandysul | -1 |
| Rhydowen | Llandysul | 0 |
| Talgarreg | Llandysul | -9 |
| Capel Dewi (DE) | Llandysul | 4 |
| Ffostrasol | Llandysul | -5 |
| Penrhiw-llan | Llandysul | -6 |
| Pentre-llwyn | Llandysul | 4 |
| Alltyblaca | Llanybydder | 0 |
| Highmead | Llanybydder | 3 |
| Plwmp | Ceinewydd | -1 |
| Betws Ifan | Castellnewydd Emlyn (Adpar) | -3 |
| Beulah | Castellnewydd Emlyn (Adpar) | -4 |
| Brongest | Castellnewydd Emlyn (Adpar) | -1 |
| Bryn-gwyn | Castellnewydd Emlyn (Adpar) | 3 |
| Cwm-cou | Castellnewydd Emlyn (Adpar) | -4 |
| Llandyfrïog | Castellnewydd Emlyn (Adpar) | 6 |
| Pont-rhyd-y-groes | Pontrhydfendigaid | 4 |
| Ystradmeurig | Pontrhydfendigaid | 1 |
| Bronant | Tregaron | 0 |
| Llanddewi Brefi | Tregaron | 0 |

| Enw'r Anheddiad Cysylltiedig | Enw Grŵp yr Anheddiad | Unedau sy'n Weddill |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **-75** |

## Neilltuadau Cyflogaeth

Ar ei gilydd, effeithir ar tua 5 neilltuad, sy'n cyfateb â 39.25 ha (28% o'r holl neilltuadau cyflogaeth yn y Sir). Lleolir pob un o fewn USCs ac RSCs.

**Tabl 4: Safleoedd a Neilltuwyd ar gyfer Cyflogaeth yn y CDLl, o fewn Dalgylch ACA Afon Teifi**

| Cyfeirnod y Safle a Neilltuwyd | Ha yr Ardal | Enw'r Safle | Enw'r Anheddiad |
|---|---|---|---|
| E0501 | 15.94 | Parc Busnes Llambed | Llanbedr Pont Steffan |
| E0502 | 1.07 | Safle yr Hen Farchnad | Llanbedr Pont Steffan |
| E0601 | 6.43 | Parc Menter Llandysul | Llandysul |
| E0602 | 5.13 | Parc Busnes Horeb | Llandysul |
| E0801 | 10.68 | Parc Aberporth | Aberporth/Parc-llyn |
| **Cyfanswm** | **39.25** | | |

Dylid nodi y caiff y broses o gyflawni cynigion cyflogaeth ar draws y Sir ei chynorthwyo trwy gyfrwng polisïau S03 a S04, sy'n galluogi i gyfleoedd priodol heb eu neilltuo gael eu cyflwyno. Gallai cyfleoedd o'r fath gael eu heffeithio mewn ffordd niweidiol hefyd.

## Neilltuadau Defnydd Cymysg

At ei gilydd, effeithir ar tua 2 neilltuad defnydd cymysg sy'n cyfateb â 55.89 ha (20% o'r holl neilltuadau defnydd cymysg yn y Sir). Lleolir y safleoedd o fewn USC neu RSC.

**Tabl 5: Safleoedd Neilltuedig Defnydd Cymysg CDLl o fewn Dalgylch ACA Afon Teifi**

| Cyfeirnod y Safle a Neilltuwyd | Enw'r Safle | Enw'r Anheddiad | Ha yr Ardal |
|---|---|---|---|
| M0701 | Prosiect Cylch Caron, tu ôl Gwesty'r Talbot | Tregaron | 3.67 |
| M0801 | Maes Awyr Gorllewin Cymru, Blaenannerch | Aberporth / Parc-llyn | 52.22 |

**Sylwer y gallai fod nifer o resymau pam na fydd safle a neilltuwyd yn cael ei gyflwyno, ac efallai y bydd ffosffadau yn un effaith ymhlith nifer, felly mae angen ystyried y niferoedd a nodir uchod yn y cyd-destun hwn.*

# Goblygiadau ar gyfer y CDLl Amnewid

## Safleoedd Ymgeisiol

Hyd yn hyn, fel rhan o'r gwaith o baratoi CDLla, gwnaethpwyd 2 alwad am safleoedd ymgeisiol, ac ar hynny, cynigiwyd 293 o safleoedd ymgeisiol. Gwnaethpwyd gwaith i asesu'r safleoedd hyn yn erbyn nifer o feini prawf, fodd bynnag nid dadansoddiad penodol am Ffosffadau. O blith y safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd, mae'n bosibl yr effeithir ar 89 gan gyngor cynllunio NRW ynghylch ffosffadau, sy'n cyfateb â 30% o gyfanswm y cynigion ynghylch safleoedd ymgeisiol. Bydd angen cynnal 3edd galwad am safleoedd ymgeisiol a mynd yn ôl at gynigwyr safle presennol gyda holiadur penodol am Ffosffadau er mwyn canfod os neu sut y gellir bodloni canllawiau NRW.

Gallai galwad yn y dyfodol am safleoedd ymgeisiol alw am dir ar gyfer mesurau lliniaru ffosffadau pan fydd y mathau o dir sy'n ofynnol yn hysbys.

## Yr Hierarchaeth Aneddiadau

Roedd yr hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y CDLla yn cynnwys yr aneddiadau canlynol (amlygir y rhai yr effeithir arnynt bellach gan ffosffadau yn goch). Bydd angen adolygu'r hierarchaeth aneddiadau yn fanwl, gan ystyried dewisiadau amgen er mwyn darparu tai yn yr ardaloedd hyn.

**Terminoleg hierarchaeth**:

USC Canolfan Gwasanaeth Trefol

RSC Canolfan Gwasanaeth gwledig

SLS anheddiad cysylltiedig cynaliadwy

LLS anheddiad cysylltiedig mawr

LS Anheddiad cysylltiedig

Mân OMH – mân dai ar y farchnad agored

Safleoedd a neilltuwyd a WF – Safleoedd a neilltuwyd a hap-safleoedd

Pol Cen – Polisi Cenedlaethol yn unig

**Tabl 6: Hierarchaeth Aneddiadau a Gynigiwyd o fewn CDLla, gan Amlygu'r rhai y mae Ffosffadau yn Effeithio arnynt**

| Canolfan Gwasanaeth ac enw'r Anheddiad Cysylltiedig | Math o Anheddiad | Datblygiad Posibl |
|---|---|---|
| **1 Aberaeron (Llwyncelyn / Ffos-y-ffin)** | | |
| Aber-arth | SLS | Mân OMH |
| Ciliau Aeron | SLS | Mân OMH |
| Pennant | LS | Pol Cen |
| **2 Aberteifi** | | |
| Ferwig | SLS | Mân OMH |
| Gwbert | LS | Pol Cen |
| Llangoedmor | LS | Pol Cen |
| Llechryd | LLS | Safleoedd a Neilltuwyd a WF |
| Pen-parc | LLS | Safleoedd a Neilltuwyd a WF |
| **3 Aberystwyth /Llanbadarn Fawr /Waunfawr /Penparcau / Comins-coch / Rhydyfelin** | | |
| Blaen-plwyf | SLS | Mân OMH |
| Capel Bangor | LLS | Safleoedd a Neilltuwyd a WF |
| Capel Seion | LS | Pol Cen |
| ~~Comins-coch~~ | Symudwyd i USC | |
| Goginan | LS | Pol Cen |
| Llanfarian | LLS | Safleoedd a |

| Canolfan Gwasanaeth ac enw'r Anheddiad Cysylltiedig | Math o Anheddiad | Datblygiad Posibl |
|---|---|---|
| | | Neilltuwyd a WF |
| Llangorwen | LS | Pol Cen |
| **4 Castellnewydd Emlyn (Adpar)** | | |
| Betws Ifan | LS | Pol Cen |
| Beulah | LS | Pol Cen |
| Brongest | LS | Pol Cen |
| Bryn-gwyn | LS | Pol Cen |
| Cwm-cou | LS | Pol Cen |
| Llandyfrïog | SLS | Mân OMH |
| **5 Llanbedr Pont Steffan** | | |
| Cellan/Fishers Arms | SLS | Mân OMH |
| Cwrtnewydd | LS | Pol Cen |
| Drefach / Llanwenog | LS | Pol Cen |
| Llangybi | SLS | Mân OMH |
| Llanwnnen | SLS | Mân OMH |
| **6 Llandysul** | | |
| Capel Dewi (DE) | LS | Pol Cen |
| Coed-y-bryn | LS | Pol Cen |
| Croes-lan | SLS | Mân OMH |
| Ffostrasol | SLS | Mân OMH |
| Henllan/Trebedw | SLS | Mân OMH |

| Canolfan Gwasanaeth ac enw'r Anheddiad Cysylltiedig | Math o Anheddiad | Datblygiad Posibl |
|---|---|---|
| Horeb | Mae angen ei ystyried ymhellach | |
| Penrhiw-llan / Aber-banc | SLS | Mân OMH |
| Pentre-llwyn | LS | Pol Cen |
| Rhydowen / Pontsiân | LS | Pol Cen |
| Talgarreg | LS | Pol Cen |
| **7 Tregaron** | | |
| Bronant | LS | Pol Cen |
| Llanddewi Brefi | SLS | Mân OMH |
| Llangeitho | SLS | Mân OMH |
| **8 Aberporth / Parc-llyn** | | |
| Blaenannerch | LS | Pol Cen |
| Blaen-porth | SLS | Mân OMH |
| Tan-y-groes | SLS | Mân OMH |
| Tre-saith | LS | Pol Cen |
| **9 Bow Street** | | |
| Llandre | LLS | Safleoedd a Neilltuwyd a WF |
| **10 Ceinewydd / Cross Inn** | | |
| Caerwedros / Llwyndafydd | LS | Pol Cen |
| Maen-y-groes | LS | Pol Cen |
| Pentre'r-bryn / Synod Inn | LS | Pol Cen |

| Canolfan Gwasanaeth ac enw'r Anheddiad Cysylltiedig | Math o Anheddiad | Datblygiad Posibl |
|---|---|---|
| Plwmp | LS | Pol Cen |
| **11 Cenarth** | | |
| Llandygwydd | LS | Pol Cen |
| **12 Felinfach / Ystrad Aeron** | | |
| Cilcennin | LS | Pol Cen |
| Cribyn | SLS | Mân OMH |
| Dihewyd | LS | Pol Cen |
| Talsarn | LS | Pol Cen |
| **13 Llanarth** | | |
| Gilfachreda | SLS | Mân OMH |
| Mydroilyn | LS | Pol Cen |
| **14 Llanilar** | | |
| Llanafan | LS | Pol Cen |
| Lledrod | LS | Pol Cen |
| **15 Llan-non** | | |
| Bethania | LS | Pol Cen |
| Cross Inn (Llan-non) / Nebo | LS | Pol Cen |
| **16 Llanrhystud** | | |
| Llangwyryfon | LS | Pol Cen |
| **17 Llanybydder** | | |
| Alltyblaca / Highmead | SLS | Mân OMH |
| **18 Penrhyn-coch** | | |

| Canolfan Gwasanaeth ac enw'r Anheddiad Cysylltiedig | Math o Anheddiad | Datblygiad Posibl |
|---|---|---|
| **19 Ponterwyd** | | |
| Pontarfynach | LS | Pol Cen |
| **20 Pontrhydfendigaid** | | |
| Pont-rhyd-y-groes | LS | Pol Cen |
| Ysbyty Ystwyth | LS | Pol Cen |
| Ystradmeurig | LS | Pol Cen |
| **21 Tal-y-bont** | | |
| Eglwys-fach / Ffwrnais | SLS | Mân OMH |
Mae'r tablau isod yn dangos y categori swydd fel y nodir gan amodau gwasanaeth, graddfeydd ac amrediadau cyflog wedi'i ddadansoddi yn ôl gweithwyr gwryw a benyw ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.


Mae'r data wedi'i goladu i ddangos y grwpiau canlynol o weithwyr: Prif Swyddog, y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC – Llyfr Gwyrdd), Soulbury ac Athrawon a Gyflogir yn Ganolog.

### Rhyw yn ôl Gwasanaeth




## Rhyw yn ôl Graddfa


### Prif Swyddogion





### NJC




## Soulbury





## Athrawon a Gyflogir yn Ganolog




## Rhyw yn ôl Tâl




## Rhyw yn ôl Math o Gontract



## Rhyw yn ôl Patrwm Gweithio (Cyfwerth ag Amser Llawn)




# Oedran

Mae proffil gweithlu presennol yr Awdurdod yn cynnwys 57.0% o weithwyr dros 44 oed. Y grŵp sengl mwyaf yw'r categori 45 – 54 oed (28.0%), wedi'i ddilyn gan y categori 55 – 64 oed (25.2%), 35 – 44 oed (19.3%), 25 – 34 oed (16.6%), 16 – 24 oed (7.1%), 65 – 74 oed (3.6%), a 75 oed a hŷn (0.2%).

Mewn cyferbyniad, roedd 68.1% o ymgeiswyr o dan 45 oed. Y grŵp sengl mwyaf o ymgeiswyr oedd y categori 25 – 34 oed ar 29.0%, wedi'i ddilyn gan y categori 16 – 24 oed (21.4%), 35 – 44 oed (17.7%), 45 – 54 oed (17.5%) a 55 – 64 oed (12.1%), 65 – 74 oed (1.1%), 75 oed a hŷn (0.1%), ac roedd 1.1% heb ddweud.

Mae'r data ar gyfer staff sy'n gadael Cyngor Sir Ceredigion yn dangos mai'r categori 55 – 64 oed oedd â'r canran uchaf o ymadawyr, sef 32.0%, wedi'i ddilyn gan y categori 16 – 24 oed ar 17.7%, yna'r categori 45 – 54 oed ar 16.8%. Roedd gweddill y categorïau'n dangos lledaeniad gweddol wastad ar draws y grwpiau oedran. Roedd y categori 65 – 74 oed yn cyfrif am 12.3% o'r holl ymadawyr, roedd y categori 25 - 34 oed yn cyfrif am 11.8% ac roedd y categori 35 – 44 yn cyfrif am 8.4%.Roedd y categori 75 oed a hŷn yn cyfrif am 1.0%.




# Anabledd

Yng ngweithlu presennol yr Awdurdod, mae 2.2% yn dweud bod anabledd ganddynt ac mae 66.7% yn dweud nad oes anabledd ganddynt. Ni wyddys statws y 31.1% sy'n weddill.

Dywedodd 3.3% o ymgeiswyr fod anabledd ganddynt, a dywedodd 84.4% nad oedd anabledd ganddynt. Ni wyddys statws y 12.3% sy'n weddill.

Mae'r data ar gyfer staff sy'n gadael Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod 2.5% wedi dweud bod anabledd ganddynt, 58.9% wedi dweud nad oedd anabledd ganddynt, ac ni wyddys statws y 38.6% sy'n weddill.




# Ailbennu Rhywedd

Ni chyhoeddwyd gwybodaeth benodol ynghylch y nodwedd warchodedig hon oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion gan fod llai na phum unigolyn wedi dweud nad oedd eu rhyw yr un fath â'u rhyw a bennwyd adeg geni.


# Beichiogrwydd a Mamolaeth

Roedd 22 o weithwyr wedi dechrau cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn cynrychioli 1.7% o'r cyfrif pennau benyw.


## Oedran





## Hil




## Crefydd




## Cyfeiriadedd rhywiol




## **Hil –** gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd

Mae gweithlu presennol yr Awdurdod yn cynnwys 76.9% a ddewisodd y categori Gwyn fel eu tras ethnig, wedi'i ddilyn gan Grŵp ethnig arall (0.4%), Du/Affricanaidd/Caribïaidd (0.2%), Cymysg (0.2%), ac Asiaidd (0.2%). Roedd 22.0% o'r gweithlu wedi dewis peidio â dweud.

Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr yn y categori Gwyn (85.6%), wedi'i ddilyn gan Asiaidd (2.1%), ethnigrwydd Cymysg (1.0%), Du/Affricanaidd/Caribïaidd (1.0%), Grŵp ethnig arall (0.6%), a Sipsiwn – Teithwyr (0.1%). Roedd 9.6% o'r ymgeiswyr wedi dewis peidio â dweud.

Mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod 67.8% yn y categori Gwyn, wedi'i ddilyn gan Du/Affricanaidd/Caribïaidd (1.0%), Asiaidd (0.5%), ac ethnigrwydd Cymysg (0.5%), tro bo'r 30.2% sy'n weddill wedi dewis peidio â dweud.




# Crefydd neu Gred

O'r rheini a ddewisodd grefydd neu gred, Cristion (pob enwad) sy'n ffurfio'r grŵp mwyaf o'r gweithlu presennol ar 38.4%, wedi'i ddilyn gan Dim crefydd (22.7%), Anffyddiwr (4.4%), Arall (2.2%), Moslem (0.3%), Bwdhydd (0.2%), a Hindŵ (0.1%) gyda 31.7% yn dewis peidio â dweud.

O ran y broses ymgeisio roedd llai o bobl (13.2%) wedi dewis peidio â dweud o'i gymharu â'r grŵp gweithlu presennol neu'r rhai a adawodd y sefydliad. Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr wedi dewis ‘Dim crefydd’ (40.3%), wedi'i ddilyn gan y categori ‘Cristion’ (35.3%), Anffyddiwr (7.2%), Arall (1.6%), Moslem (1.3%), Bwdhydd (0.6%) a Hindŵ (0.5%).

Yn debyg i'r gweithlu presennol, mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod nifer fawr wedi dewis peidio â dweud ar 37.7%, wedi'i ddilyn gan y categori Cristion (30.7%), Dim crefydd (23.3%), Anffyddiwr (4.5%), Arall (3.5%) a Bwdhydd (0.5%).




# Rhyw

Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflogi 2,003 o staff ar 31 Mawrth 2021. Roedd y gweithlu yn cynnwys 1,327 (66%) o fenywod a 676 (34%) o wrywod.

Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y canran o wrywod oedd yn gwneud cais am swyddi, sef 34% o ymgeiswyr gwrywaidd, er bod cyfradd yr ymgeiswyr benyw ychydig yn is sef 65%. Roedd yr 1% o ymgeiswyr oedd yn weddill heb nodi eu rhyw.

Roedd y data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn ystod y flwyddyn ychydig yn wahanol o gymharu â chyfradd y gweithlu presennol, gyda 69% o fenywod a 31% o wrywod.




# Cyfeiriadedd Rhywiol

O'r rheini yn y gweithlu presennol a ddewisodd gyfeiriadedd rhywiol, y ffigurau yw 68.5% heterorywiol, 0.6% deurywiol, 0.6% dyn hoyw, 0.3% menyw hoyw, 0.3% arall, ac roedd 29.7% wedi dewis peidio â dweud.

O ran y broses ymgeisio mae llai o bobl (13.5%) wedi dewis peidio â dweud o'i gymharu â'r grŵp gweithlu presennol neu'r rhai a adawodd y sefydliad. Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr yn heterorywiol (81.0%), wedi'i ddilyn gan ddeurywiol (2.9 %), dyn hoyw (1.4%), menyw hoyw (0.6%), ac Arall (0.6%).

Mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod y mwyafrif yn heterorywiol ar 57.9%, wedi'i ddilyn gan staff deurywiol ar 2.5%, dyn hoyw ar 0.5%, menyw hoyw ar 0.5%, Arall ar 0.5%, ac roedd 38.1% wedi dewis peidio â dweud.



# Hyfforddiant

**Gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant, a faint oedd wedi gwneud cais llwyddiannus**

Mae nodi'r angen am hyfforddiant, dysgu a datblygu yn cael ei wneud trwy systemau adolygu cynllunio a pherfformiad gweithlu'r Cyngor.

Yn ystod cyfweliadau datblygiad personol, bydd Rheolwyr yn trafod â'u gweithwyr eu hanghenion hyfforddi, dysgu a datblygu sy'n cyfateb â'r adolygiad perfformiad a chymwyseddau'r swydd. Mae'r canlyniadau yn bwydo i mewn i Gynllun Hyfforddi Gwasanaeth.

Nid yw'r Cyngor yn monitro llwyddiant ceisiadau hyfforddi ar hyn o bryd gan nad yw'r broses a ddefnyddir i nodi'r hyfforddant yn addas ar gyfer y math hwn o fonitro. Rydym wrthi'n ystyried a oes prosesau a fyddai'n caniatáu i'r data hwn gael ei ddal, ei ddadansoddi a'i adrodd arno.

**Gweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021.**

Ar hyn o bryd ni allwn ddarparu adroddiad ar y gweithwyr hynny sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Mae modiwl Dysgu a Datblygu'r system AD/Cyflogres wedi cael ei gyflwyno, a disgwylir iddo ddarparu'r data gofynnol. Rydym wrthi'n ystyried a oes prosesau a fyddai'n cynnig modd i'r data hwn gael ei ddal, ei ddadansoddi a'i adrodd arno.


# Cwyno

**Gweithwyr sy'n destun i'r drefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel rywun y gwnaethpwyd cwyn yn ei erbyn.**


**Sylwch:** Oherwydd y nifer fach o unigolion oedd yn destun i'r drefn gwyno (cyfanswm o bump) mae'r data a ddangosir isod yn ymwneud â dwy nodwedd warchodedig yn unig, sef ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol. Ni chyhoeddwyd y data ynghylch crefydd ac oedran oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion. Ni chafodd unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill eu cynnwys yn y set ddata hon.

Cyfanswm y gweithwyr oedd yn destun i'r drefn gwyno oedd 5, ac roedd pob un yn weithiwr benyw.

## Ethnigrwydd




## Cyfeiriadedd Rhywiol




# Disgyblu

**Gweithwyr oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu**


**Sylwch:** Oherwydd y nifer fach o unigolion oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu (cyfanswm o 8) mae'r data a ddangosir isod yn ymwneud â dwy nodwedd warchodedig yn unig, sef oedran a rhyw. Ni chyhoeddwyd y data ynghylch anabledd a chrefydd oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion. Ni chafodd unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill eu cynnwys yn y set ddata hon.

Cyfanswm y gweithwyr oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu oedd 8. O'r rhain roedd 3 yn weithiwr gwryw a 5 yn weithiwr benyw.

**Rhyw**




**Oedran**



*"Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl"*



# Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

2021

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love Ceredigion

## Cyngor Sir Ceredigion

Mae'n **ofynnol** i Gyngor Sir Ceredigion ynghyd â'r holl awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru lunio Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.

Mae hyn yn cynnwys gwneud chwe chyfrifiad sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod yn ein sefydliad, ond ni chyhoeddir data am weithwyr unigol.

1. Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
2. Canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
3. Cymedr bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
4. Canolrif bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
5. Cyfran y gwrywod a benywod sy'n cael taliadau bonws
6. Cyfran y gwrywod a benywod ym mand pob chwartel


Bydd yr adroddiad hwn sy'n cynnwys yr wybodaeth a'r camau gweithredu gofynnol y bydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd hefyd ar gael i staff ar y safle mewnrwyd Ceri Net.

## Cyd-destun

Ar 31 Mawrth 2021 roedd gweithlu'r Cyngor yn cynnwys 66% o weithwyr benyw a 34% o weithwyr gwryw.



## Ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau




Diffinnir y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel y gwahaniaeth rhwng cyfradd tâl fesul awr cymedr neu ganolrif staff gwryw a benyw.

**Cymedr y bwlch cyflog** yw'r gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr cyfartalog dynion a menywod.

**Canolrif y bwlch cyflog** yw'r gwahaniaeth rhwng mannau canol yn yr amrediadau o enillion fesul awr dynion a menywod. Mae'n cymryd yr holl gyflogau yn y sampl, yn eu trefnu o'r cyflog isaf i'r cyflog uchaf, ac yn dewis y cyflog mwyaf canolig.


Mae'r wybodaeth a roddir yn y siartiau yn seiliedig ar y gyfradd tâl fesul awr ar 31 Mawrth 2021.

**Mae'r gyfradd hon yn ostyngiad ar y flwyddyn ddiwethaf (2020): canolrif y bwlch cyflog oedd -7.6% a chymedr y bwlch cyflog oedd -4.5%**
**ond mae'n gynnydd ar 2019: canolrif y bwlch cyflog oedd -2.8% a chymedr y bwlch cyflog oedd -4.5%**

Yn sgil cyflwyno'r Cytundeb Statws Sengl yn 2012, nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud taliadau bonws (perfformiad neu benodol) felly ni chyhoeddir ffigurau ar gyfer pwyntiau 3, 4 a 5 uchod.

## Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw ym mhob chwartel tâl

Mae'r siart yn dangos y rhaniad rhwng y rhywiau pan fyddwn yn trefnu tâl fesul awr o'r tâl uchaf i'r tâl isaf a'i grwpio yn bedwar chwartel cyfartal.




## Pam bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Er ein bod yn hyderus bod dynion a menywod yn cael tâl cyfartal am wneud swyddi tebyg ar draws y Cyngor, y prif reswm dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein sefydliad yw'r anghydbwysedd rhwng gweithwyr gwryw a benyw ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd mae llai o fenywod mewn swyddi uwch na dynion, ac mae cyfran uwch o fenywod o'i gymharu â dynion hefyd mewn swyddi graddfa is.

## Sut y byddwn yn parhau i roi sylw i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

**Recriwtio -** Byddwn yn denu'r bobl iawn.

- Ceisiwn recriwtio o'r gronfa dalent ehangaf bosibl. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwefan Gyrfaoedd er mwyn denu cynifer o ymgeiswyr â phosibl i weithio i Gyngor Sir Ceredigion.
- Byddwn yn sicrhau bod yr iaith mewn hysbysebion swyddi yn niwtral o ran y rhywiau.
- Byddwn yn parhau i archwilio llwyfannau pellach i hyrwyddo proffil recriwtio'r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu cynifer o ymgeiswyr â phosibl, a byddwn yn monitro'r rhain i werthuso'r effaith ar nifer yr ymgeiswyr.
- Byddwn yn parhau i gynyddu nifer y lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc gan eu galluogi i ddatgloi eu potensial drwy ennill a dysgu yr un pryd.

**Cadw staff** - Unwaith y bydd gennym y bobl iawn, rydym am iddynt aros gyda ni.

- Byddwn yn parhau i gynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio oriau hyblyg ar bob lefel, ac ar hyn o bryd mae 49% o'n staff (ac eithrio staff ysgolion) yn gweithio'n rhan-amser. Byddwn yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o orfod gweithio gartref yn ystod pandemig Covid-19 i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

- Byddwn yn adolygu ein polisïau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a bod yn ystyriol o'r teulu i sicrhau eu bod nhw'n cynnig y cyfleoedd gorau i gadw staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i ddarparu ein gwasanaethau.
- Rydym wedi cyflwyno 'Polisi Gofalwyr' i gefnogi'r aelodau hynny o staff sydd â chyfrifoldebau gofalu ochr yn ochr â'u gwaith cyflogedig.
- Cyflwynwyd Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn 2018 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob Rheolwr ddilyn hyfforddiant ym maes Recriwtio a Dewis a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen a chadw golwg i sicrhau bod pob Rheolwr yn mynd i'r hyfforddiant a ddarperir.
- Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant i staff ar 'Ragfarn ddiarwybod' gan sicrhau bod Rheolwyr yn deall beth yw 'rhagfarn ddiarwybod' a'i effaith ar benderfyniadau'r rheolwyr yn y gweithle.

**Datblygu –** Rhaid inni sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd datblygu

- Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd i wneud cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) yn y gweithle.
- Rydym wedi cyflwyno Panel Cymwysterau Corfforaethol i sicrhau bod yr holl staff â chyfle cyfartal i ymgeisio am gymorth i wneud cymwysterau a fydd yn hybu eu gyrfa yng Nghyngor Sir Ceredigion.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5 Hydref 2021 |
| **Teitl:** | Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru 2021 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr Archwiliad Sicrwydd Iechyd a gynhaliwyd yn ystod Mai 2021 |
| **Er:** | Er gwybodaeth |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** | Y Cynghorwyr Alun Williams a Catherine Hughes |

Mae'r llythyr yn crynhoi Archwiliad Sicrwydd Iechyd Arolygiaeth Gofal Cymru o wasanaethau gofal cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd rhwng 10 Mai a 14 Mai 2021.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn nodi ei bod wedi atal dros dro ei rhaglen arferol ym mis Mawrth 2020 er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a bod rhaglen ddiwygiedig wedi ailgychwyn ym mis Medi i roi sicrwydd ynghylch diogelu a lles yn ystod y pandemig.

Roedd yr Archwiliad Sicrwydd yn canolbwyntio ar:
1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol i gadw pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, yn ddiogel ac yn hybu eu lles yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i atal yr angen i blant gael gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym lle mae'n ddiogel gwneud hynny?

**Camau Nesaf:**
Cyhoeddir y llythyr ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru a disgwylir adroddiad thematig cenedlaethol maes o law.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam**<br>Ddim yn berthnasol | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| | **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |
| | **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| | **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| | **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Argymhelliad:** | Nodi'r wybodaeth | |

| | |
|---|---|
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Er gwybodaeth yn unig |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach 17.09.2021 |
| **Fframwaith Polisi:** | |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau staffio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Risg(iau):** | Ddim yn berthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | |
| **Papurau Cefndir:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atodiadau:** | Llythyr Arolygiaeth Gofal Cymru yn dwyn dyddiad 2 Gorffennaf 2021 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Sian Howys |
| **Swyddog Adrodd:** | Sian Howys |
| **Dyddiad:** | 17.09.21 |

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

Sian Howys
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 OPA

Dyddiad/Date: 2 Gorffennaf 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Cyngor Sir Ceredigion**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 10 Mai a 14 Mai 2021. Diben yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

## Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?

2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

**Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:**

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwyso hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Ar y cyfan, gwelsom fod lleisiau pobl yn cael eu clywed, bod eu dewisiadau'n cael eu parchu a bod pobl yn cyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt yn bersonol yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd tystiolaeth yn y rhan fwyaf o gofnodion achos fod y “cynnig rhagweithiol” yn cael ei ddarparu.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hawliau plant i gael cynnig eiriolaeth ffurfiol. O'r wybodaeth a ddarparwyd, gwelsom fod tystiolaeth bod mynediad at y gwasanaethau eirioli yn cael ei gynnig i blant a gwelsom enghraifft o eiriolaeth mewn perthynas ag un o'r achosion plant sy'n derbyn gofal y gwnaethom edrych arno. Nododd y person ifanc arwyddocâd yr eiriolwr gan fod hon wedi bod yn gydberthynas gyson o gymharu â'r newidiadau i'w weithiwr cymdeithasol. Yn yr achosion a oedd yn ymwneud ag oedolion, gwelsom dystiolaeth o bobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Roedd y bobl, gan gynnwys y gofalwyr, yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu gofal eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod taliadau uniongyrchol yn gweithio'n dda i unigolion a gofalwyr, a'u bod wedi cael eu defnyddio'n greadigol yn ystod y pandemig fel ffordd o roi gofal seibiant amgen.

Dywedodd gofalwyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r cymorth a ddarperir gan Uned Gofalwyr Ceredigion. Gwelsom enghreifftiau o anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried, a chydnabyddiaeth o'r pwysau ychwanegol a wynebwyd gan ofalwyr yn ystod y pandemig.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr ac roeddent o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Yn ystod yr archwiliad sicrwydd, gwelsom fod morâl staff yn dda ac roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gadarnhaol o ran eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Gwnaeth rhai ymarferwyr grybwyll lefelau salwch cyfredol a'r ffaith bod oedi wrth recriwtio ynghyd ag anallu'r awdurdod lleol i recriwtio yn arwain at bwysau yn y timau. Er bod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a'r rheolwyr rheng flaen yn croesawu uchelgeisiau'r awdurdod o ran trawsnewid, roedd yn glir bod yr agenda hon, wedi'i chyfuno â'r sefyllfa o ran COVID-19 yn

arbennig, wedi creu ansicrwydd ymhlith y gweithlu o ran trefniadau gweithio yn y dyfodol. Mae angen i'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion i helpu'r staff i ddeall manteision y trawsnewidiadau arfaethedig a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau a'r amserlen ar gyfer newid.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr a rheolwyr a defnyddir sawl llwyfan digidol i alluogi'r gweithlu i ymgymryd â hyfforddiant ar-lein. Dywedodd staff newydd gymhwyso wrthym eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod blynyddoedd cyntaf eu hymarfer drwy drefniadau goruchwylio a mentora rheolaidd. A dywedodd y Rheolwyr Corfforaethol wrthym am y rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol i'w helpu i ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau newydd a'r ffaith bod hyn yn darparu sylfaen dda ar gyfer cydweithio.

**Atal** – **Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae'r uwch-arweinwyr yn dangos dealltwriaeth dda o fanteision mabwysiadu dull ataliol a gallant gyfleu'r rhesymeg dros eu cyfeiriad a'u huchelgais strategol ar lafar a thrwy ddogfennaeth strategol. Maent wedi gweithio'n galed i ailgynllunio'r gwasanaeth gan ddatblygu model gweithredu ar gyfer llesiant i bobl o bob oed sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir. Mae atal neu oedi datblygiad gofal a chymorth yn cyd-fynd yn agos â chyfrifoldebau eraill yr awdurdod lleol yng Ngheredigion, gan gynnwys tai, hamdden ac addysg.

Mae'r ymdrech i drawsnewid a sicrhau y gall gwasanaethau fod yn gynaliadwy yn unol â deddfwriaeth ac anghenion y gymuned wedi parhau drwy gyfnod eithriadol o ymateb i'r pandemig. Er nad yw rhai o'r gwasanaethau hyn wedi bod ar gael yn ystod y pandemig, clywsom am gymunedau yn dod at ei gilydd ac yn datblygu cymorth cymunedol. Er enghraifft, aeth clybiau ffermwyr ifanc lleol ati i gynnig cymorth i bobl siopa.

Mae gan yr uwch-reolwyr a'r swyddogion ddealltwriaeth a gwybodaeth dda mewn perthynas â phroffil y plant sy'n derbyn gofal ac maent yn hyderus eu bod yn gwneud cynnydd o ran dod â gorchmynion nad oes eu hangen mwyach i ben, neu eu haddasu, ac mai dim ond pan fydd angen hynny y bydd plant yn derbyn gofal.

Roedd yr ymarferwyr yn ymwybodol bod methu â chysylltu â theuluoedd wyneb yn wyneb wedi cael effaith andwyol ar y gwasanaethau ataliol a'r gwasanaethau cymorth a gofal er gwaethaf eu hymdrechion gorau, ond roeddent yn falch o ymateb Ceredigion. Clywsom am grwpiau magu plant ar-lein a chlybiau ieuenctid rhithiwr a'r ffaith bod trefniadau rhithwir o'r fath yn gweithio'n well i rai rhieni o ystyried natur wledig yr awdurdod lleol.

Mae pwysigrwydd rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Cawsom wybod bod y model rhyddhau i asesu wedi cael ei roi ar waith a'i fod yn helpu pobl yn effeithiol i adfer eu hannibyniaeth, ac yn galluogi pobl i ddychwelyd adref yn unol â'u dymuniadau.

Mae trefniadau cydgysylltu cadarnhaol a phrosesau cyfathrebu da rhwng ymarferwyr mewn timau gwahanol o fudd wrth ddarparu cymhorthion ac addasiadau. Clywsom fod cyfarpar diogelu personol [PPE] yn cael ei ddarparu'n amserol a bod y trefniadau yn cael eu

cydgysylltu'n dda o fan canolog ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u diogelu.

Mae sicrhau bod digon o wasanaethau gofal cartref ar gael i oedolion yn parhau i fod yn her. Clywsom am enghreifftiau lle nad oedd pobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn ogystal â phobl yn symud i gartrefi gofal am nad oedd y gofal a'r cymorth ar gael yn y gymuned, a gwelsom enghreifftiau o'r fath hefyd. Mae'n rhaid i'r uwch-reolwyr sicrhau nad ydynt yn colli golwg ar eu gallu i barhau i ddiwallu anghenion yr holl bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a rhaid sicrhau bod trefniadau comisiynu'r awdurdod yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau o ansawdd da i bawb.

**Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy?

Yn y rhan fwyaf o'r achosion a welsom, gwelwyd tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith proffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Caiff pobl eu cefnogi i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt a sut y gallent gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Dywedodd rhai partneriaid a phobl a ymatebodd i'n harolygon wrthym am bryderon cynnar mewn perthynas â thrawsnewid gwasanaethau a chyflwyno'r Porth Cynnal a'r Porth Gofal sydd wedi arwain at lefel o ddadbersonoli a phwyslais ar ffurflenni, yn hytrach na chyfathrebu personol rhwng pobl a/neu asiantaethau a chysylltiadau a enwir yn yr awdurdod lleol. Er y cydnabyddir mai megis dechrau y mae'r broses drawsnewid, rhaid i'r awdurdod lleol ddatblygu ei fframwaith sicrhau ansawdd er mwyn ei alluogi, drwy brosesau rheoli perfformiad a monitro, i feithrin dealltwriaeth gywir a chyfredol o'i effeithiolrwydd a'r gallu i nodi meysydd cyflawniad yn ogystal â meysydd i'w gwella.

Gwelsom a chlywsom am enghreifftiau cadarnhaol o ddull amlasiantaethol o reoli risgiau, yn ogystal ag ymarferwyr a rheolwyr yn cydweithio yn ystod y pandemig i rannu gwybodaeth/cudd-wybodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ac yn rheoli risgiau'r bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Mae darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth annibynnol yng Ngheredigion yn cael budd o gyfarpar diogelu personol a ddarperir yn amserol a chydberthnasau gwaith cadarnhaol ar y cyfan â'r awdurdod lleol. Disgrifiodd y rheolwyr a'r ymarferwyr gydberthnasau gweithredol sefydledig ag adrannau iechyd ac addysg, yr heddlu a darparwyr a gwelsom ymrwymiad clir i gydweithio ar draws yr awdurdod lleol.

Dywedodd y gofalwyr maeth y gwnaethom siarad â nhw fod y cymorth roeddent yn ei gael gan yr awdurdod lleol yn ardderchog a'u bod yn gwerthfawrogi'r dull tîm rhyngddyn nhw, gweithwyr cymdeithasol y plant a'u gweithiwr cymdeithasol cyswllt. Mae paru plant â gofalwyr maeth yn faes lle maent wedi gweld gwelliant ac mae hyn, ynghyd â'r strategaeth recriwtio gofalwyr maeth, yn sail i ymrwymiad yr awdurdod lleol i recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth a gwella'r dewis o leoliadau i blant a phobl ifanc.

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Roedd ansawdd yr asesiadau, y cynlluniau gofal a chymorth a'r cofnodion a welsom yn amrywio. Nid oedd rhywfaint o'r ddogfennaeth a welsom bob amser yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud. Gwelsom rai enghreifftiau lle byddai pwyslais mwy penodol ar gryfderau wedi bod yn fuddiol wrth gynnig darlun cyfannol o'r unigolyn a'i amgylchiadau unigol.

Roedd amseroldeb ac ansawdd yr adolygiadau statudol a welsom ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn dda. Roedd y cofnodion yn cael eu hysgrifennu'n uniongyrchol i'r plentyn, gan roi'r ymdeimlad o lythyr wedi'i bersonoli. Roedd y cofnodion hyn yn cydnabod dymuniadau'r plentyn ac yn esbonio canlyniadau a phenderfyniadau ei adolygiad mewn iaith syml. Dywedodd y swyddogion adolygu annibynnol wrthym eu bod yn cysylltu â'r plant cyn yr adolygiad. Caiff achosion eu huwchgyfeirio yn ôl yr angen ac mae'r cydberthnasau rhwng gweithwyr proffesiynol yn cefnogi atebion adeiladol.

Nododd y rheolwyr a'r ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus bod y plant yn yr awdurdod yn ddiogel ac, ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y ffeiliau. Yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd gennym, gwelsom y ceir ymateb amserol ac effeithiol os bydd plant yn wynebu risg o niwed sylweddol. Roedd yr ymholiadau a welwyd mewn perthynas ag adran 47 yn dangos bod prosesau casglu gwybodaeth da ar waith ac roedd tystiolaeth bod plant yn cael eu gweld/eu gweld ar eu pen eu hunain fel y bo'n briodol yn ystod yr ymholiad. Mewn un achos, gwelsom fod oedi cyn darparu gofal a chymorth parhaus ar ôl tynnu enw'r plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant. I sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu'n gyson er mwyn helpu i gynnal yr amodau a arweiniodd at ddadgofrestru’r plentyn, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo drefniadau cadarn i fonitro llwythi gwaith ymarferwyr pan fyddant yn absennol o'r gwaith.

Drwy adolygu cofnodion achos a thrafod ag ymarferwyr, cawsom sicrwydd yr ymatebir mewn ffordd amserol a chymesur i adroddiadau diogelu oedolion. Roedd lleisiau a dymuniadau oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu cynnwys yn y ddogfennaeth ddiogelu ac, yn y rhan fwyaf o achosion, gwelsom dystiolaeth bod arferion casglu gwybodaeth a chysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill yn dda, a bod y dadansoddiad a'r penderfyniad yn cael eu cofnodi'n glir.

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod yr awdurdod lleol wedi cadw mewn cysylltiad â nhw, a hynny mewn ffordd ddiogel, drwy gydol y pandemig. Lle y bo angen, mae cyswllt wyneb yn wyneb diogel uniongyrchol wedi parhau, yn amodol ar asesiad risg COVID-19 a Chanllawiau Iechyd y Cyhoedd. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr a darparwyr yn gweithio'n greadigol i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol. Fodd bynnag, clywsom fod diffyg cysylltiad uniongyrchol â'u rhieni/aelodau o'u teulu wedi cael effaith sylweddol ar rai o'r plant sy'n derbyn gofal ac nad yw rhai wedi gallu ymdopi â chyswllt rhithwir ac felly nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad ers misoedd.

Gwerthfawrogwyd eglurder cynnar yr ymateb a'r trefniadau a ddarparwyd gan yr uwch-reolwyr corfforaethol ac roedd y staff o'r farn bod yr awdurdod wedi gweithio'n galed i hybu eu llesiant. Roedd yr ymarferwyr yn gadarnhaol ynghylch yr ymdrechion a wnaed i gynnal prosesau cyfathrebu da, ond roeddent nawr o'r farn y dylid defnyddio eu profiad i lywio'r

caniatadau mewn perthynas ag arferion gweithio ystwyth diogel yn y dyfodol. Byddai rhai o'r ymarferwyr yn arbennig o falch pe byddai rhai swyddfeydd yn cael eu hagor er mwyn lliniaru'r pwysau sy'n deillio o weithio gartref.

**Dull:**

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth
- gwnaethom edrych ar 26 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal trafodaethau olrhain achosion ar 10 o ffeiliau achos pellach
- gwnaethom gynnal saith arolwg
- gwnaethom gynnal chwe grŵp ffocws

**Y Camau Nesaf:**

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn [https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol](https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol)

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD:** | **05 10 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Dros y we** |
| **TEITL:** | **Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru 2021** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 – roedd Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn bresennol hefyd yn y cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Daeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod er mwyn adrodd ar y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Arolygiaeth Gofal Cymru, ar 2 Gorffennaf 2021, yn dilyn yr Archwiliad Sicrwydd a gynhaliwyd ym mis Mai 2021.

**ARGYMHELLIAD:**

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi a thrafod cynnwys y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Arolygiaeth Gofal Cymru.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys y llythyr a chanmol holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad cyn ac yn ystod y pandemig.

Dymunai'r Aelodau nodi bod y staff a'r gwasanaeth dan bwysau cynyddol ac yn gwneud y gorau y gallant o dan y pwysau a brofir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd.

**Y Cynghorydd Bryan Davies**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **5 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Cofnod o Gamau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am waith y Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd**<br><br>**Er gwybodaeth** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor;**<br>**Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth**<br>**Y Cynghorydd Gareth Lloyd, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd.** |

Ar 3 Medi 2019, cytunodd y Cabinet â'r newidiadau yng Nghylch Gorchwyl rhaglen Trawsnewid a Pherfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, er tryloywder parheir â'r arfer o gyflwyno cofnodion y cyfarfodydd i'r Cabinet; ac yn sgil hynny maent ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt. Mae'r newid yn y Cylch Gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad am y trafodaethau yn mynd gerbron y Cabinet 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyfarfod o'r Grŵp.'

Cyfarfu'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd ar 10 Medi 2021. Mae cofnod drafft o gamau gweithredu a phenderfyniadau'r cyfarfod i'w weld yn Atodiad A, er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam**<br>Mae Asesiadau Effaith Integredig wedi cael eu cyflwyno neu byddant yn cael eu cyflwyno gydag unrhyw adroddiadau sy'n benodol i'r prosiectau Trawsnewid.<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** Ddim yn berthnasol<br>**Integreiddio:** Ddim yn berthnasol<br>**Cydweithio:** Ddim yn berthnasol<br>**Cynnwys:** Ddim yn berthnasol<br>**Atal:** Ddim yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Nodi cofnod o gamau gweithredu a phenderfyniadau'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn caniatáu i'r Rhaglen Drawsnewid gyfan gael ei rheoli'n llwyddiannus a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd a'r manteision sydd angen eu gwireddu er mwyn llywio Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a'r monitro ariannol.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cafodd y Strategaeth Gydol Oes a Llesiant a'r Cynllun Gweithredu ei ystyried mewn cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a Cymunedau sy'n Dysgu ar 17 Medi 2021. |
| **Fframwaith Polisi:** | Rhaglen Drawsnewid |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | • Hybu'r Economi<br>• Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl<br>• Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd<br>• Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Goblygiadau Ariannol a Chaffael:** | O fewn y gyllideb bresennol / arbedion a nodwyd yn y gyllideb. |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim o ran y cofnod drafft o gamau gweithredu a phenderfyniadau - darperir rhagor o fanylion pan gyflwynir cynigion unigol i'r Cabinet. |
| **Goblygiadau o ran Staff:** | Dim o ran y cofnod drafft o gamau gweithredu a phenderfyniadau - darperir rhagor o fanylion pan gyflwynir cynigion unigol i'r Cabinet. |
| **Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:** | Dim o ran y cofnod drafft o gamau gweithredu a phenderfyniadau - darperir rhagor o fanylion pan gyflwynir cynigion unigol i'r Cabinet. |
| **Risg/Risgiau:** | Dim o ran y cofnod drafft o gamau gweithredu a phenderfyniadau - darperir rhagor o fanylion pan gyflwynir cynigion unigol i'r Cabinet. |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Llywodraeth Leol 2000<br>Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011<br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| **Papurau Cefndir:** | • Adroddiad Cabinet 1 Rhagfyr 2020 a chofnod C97;<br>• Adroddiad Cabinet 25 Chwefror 2020 a chofnod C154; |

- Adroddiad Cabinet 15 Hydref 2019 a cofnod C97;
- Adroddiad i'r Cabinet ar 3 Medi 2019 (gan gynnwys y Cylch Gorchwyl diwygiedig) a chofnod C73;
- Adroddiad i'r Cabinet ar 5 Chwefror 2019 a chofnod C184 (ii);
- Adroddiad i'r Cabinet ar 16 Hydref 2018 a chofnod C100;
- Adroddiad i'r Cabinet ar 27 Mawrth 2018 a chofnod C237;
- Adroddiad i'r Cabinet ar 5 Medi 2017 a chofnod C65;
- Adroddiad i'r Cabinet ynglŷn â diwygio trefniadau gweithredu rhaglen Drawsnewid a Pherfformiad y Cyngor, a'i strwythur – 5 Medi 2017

**Atodiadau:**

- Atodiad A - Cofnod o Gamau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd – 26 Hydref 2020 (drafft).

**Swyddog Arweiniol:** Eifion Evans, Prif Weithredwr;

**Swyddog Adrodd:** Lowri Edwards - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:** 10 Medi 2021

**Cyfarfod o'r Grŵp Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd**

**Dydd Gwener, 10fed Medi 2021**
**2.00pm - 4.10pm**

**drwy gyfrwng fideo-gynadledda**

**COFNOD PENDERFYNU A GWEITHREDU**

| | |
|---|---|
| **Cynghorwyr yn bresennol:** | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd); y Cynghorwyr Bryan Davies, Ceredig Davies, Elizabeth Evans, Keith Evans, Gareth Lloyd a Ray Quant MBE |
| **Sylwedyddion yn bresennol:** | Dim |
| **Swyddogion yn bresennol:** | Eifion Evans (EE), Barry Rees (BR), Caroline Lewis (CL), Russell Hughes-Pickering (RHP), Lowri Edwards (LE), Elen James (EJ), Arwyn Morris (AM), Sian Howys (SH) ac Arwyn Davies (AD). |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr: Clive Davies a Gareth Davies<br>Swyddogion: Steve Johnson<br>Sylwedyddion: Y Cynghorwyr Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas |

| Eitem Agenda | Gweithredu/Penderfynu | Swyddog(ion) cyfrifol | Dyddiad Targed | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Datgan Buddiant | Nid oedd unrhyw ddatgan buddiant. | | | |
| Cofnod penderfynu a gweithredu y cyfarfod blaenorol - 26ain Hydref 2020 | Cytunwyd bod y cofnod gweithredu a phenderfynu yn un cywir | - | - | Dim |

| Eitem Agenda | Gweithredu/Penderfynu | Swyddog(ion) cyfrifol | Dyddiad Targed | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Materion sy'n codi | Nid oedd materion yn codi. | - | - | Dim |
| Strategaeth Gydol Oed a Llesiant | Cyflwyno'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant a'r Cynllun Gweithredu i gyfarfod ar y cyd o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau Iachach ar 17eg Medi, a'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Hydref. | CL, EJ, DP, SH & AM | 17eg Medi 2021; 5ed Hydref 2021 a 23ain Hydref 2021. | Dosbarthwyd y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant a'r Cynllun Gweithredu ymlaen llaw i bob aelod o'r Grŵp.<br><br>Cafwyd cyflwyniad gan CL ar y broses o ddatblygu'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant sy'n amlinellu'r weledigaeth a dulliau cysylltiedig. Byddai'r Strategaeth yn cael ei gweithredu rhwng 2021 a 2027. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan y Swyddogion ar y Cynllun Gweithredu sy'n cefnogi cyflenwi'r Strategaeth.<br><br>Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Heddlu Dyfed Powys, a nodwyd bod y ddau barti'n gefnogol i egwyddorion y model. Cynhelir trafodaeth bellach maes o law.<br><br>Nodwyd bod AGC yn gefnogol i'r Strategaeth a chynhelir trafodaeth gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar ôl cael cymeradwyaeth y Cyngor. |
| Cyflwyniad ar y strwythur | Croesawodd y Grŵp y strwythur arfaethedig fel y'i cyflwynwyd a nodwyd y byddai'n cefnogi | - | - | Cafwyd amlinelliad gan AD o'r strwythur arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth Twf a Menter. |

| Eitem Agenda | Gweithredu/Penderfynu | Swyddog(ion) cyfrifol | Dyddiad Targed | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| arfaethedig ar gyfer Twf a Menter. | cyflenwi'r Strategaeth Economaidd yn ogystal â'r blaenoriaethau hirdymor a thymor byr a amlinellwyd. | | | Mae Strategaeth Economaidd Ceredigion wedi'i chymeradwyo a datblygwyd y strwythur arfaethedig ar sail blaenoriaethau'r Strategaeth yn ogystal â'r blaenoriaethau hirdymor a thymor byr, fel twf a datblygiadau mawr, asedau a chyflenwi prosiectau yn ogystal â'r dirwedd gyllido yn newid ar draws nifer o swyddogaethau'r gwasanaeth.<br><br>Cadarnhaodd AD eu bod mewn ymgynghoriad â staff ar hyn o bryd ynghylch y strwythur arfaethedig a byddent yn bwrw iddi i recriwtio ym mis Hydref gyda'r nod o lenwi'r swyddi erbyn Ionawr. Mae egwyddorion allweddol y strwythur fel a ganlyn:<br>• Rheoli matrics<br>• Llai o 'seilos'<br>• Ffocws masnachol<br>• Cyflenwi gwasanaethau'n well<br>• Ymgysylltiad cadarn â rhanddeiliaid mewnol ac allanol |
| Dyfodol y Grŵp Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd | Cytunwyd galw un cyfarfod arall ym mis Ionawr 2022 i fonitro cyflenwi'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant ac i dderbyn brîff ar yr ailstrwythuro yng Ngham 3 | LE | Ionawr 2022 | Cafwyd trafodaeth ynghylch dyfodol y Grŵp Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd. |

| Eitem Agenda | Gweithredu/Penderfynu | Swyddog(ion) cyfrifol | Dyddiad Targed | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | yr Adran Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | | | |
| Unrhyw fater arall | | | | |
| Dim | | | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol